

CHWEDLAU

NEU

DDAMMEGION

ÆSOP.

2/6

GWYNEBARLUN.



CHWEDLAU

NEU

DDAMMEGION ÆSOP;

WEDI EU

CYFIEITHU O'R ARGRAFFIADAU GOREU
YN YR IAITH SEISONIG,

A'U CYFADDASU I'R GYMRAEG,

GAN GLAN ALUN.

WREXHAM:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD, GAN R. HUGHES & SON,
3, HOPE STREET.

RHAGDRAITH

AR FYWYD A DAMMEGION ÆSOP

MOR bell ag y gellir casglu oddiwrth yr hanesion sydd yn aros am amseroedd mor foreuol, bu yr enwog Æsop fyw yn nyddiau Croesus, brenin Lydia. Yr oedd hyny oddeutu pum cant a hanner o flwyddi o flaen dechreuad y cyfnod Cristionogol, neu dros ddwy fil a thri chant o flynyddoedd yn ol. Felly y mae y cyfansoddiadau a briodolir iddo gyda yr hynaf sydd ar gael, (o rai anysbyrdoledig,) oddieithr yr eiddo Homer, yr hwn y tybir iddo oesi oddeutu tri chant o flynyddoedd yn gynt nag yntau.

Dywedir iddo gael ei eni yn gaethwas; ac heb ddim amgylchiadau allanol i'w ddwyn i sylw y mawrion, fe weithiodd ei ffordd drwy ei athrylith a'i ddoethineb i lysoedd tywysogion; a gyrhaeddodd i ddylanwad mawr ar ei oes; ac a osododd sylfaen i enwogrwydd mwy eang, ac fe allai mwy parhaus, na'r eiddo y saith doethwyr Groeg, pa rai a' gyd oesent gydag ef.

Y mae hanes a gweithiau Æsop yn esboniad ar ansawdd ac ysgogiad ei oes mewn ystyr ddeallol a chymdeithasol. Hyd y cyfnod hwnnw yr oedd hyny o wybodaeth ag oedd yn cynniwair yn mhlith

RHAGDRAITH.

arweinwyr y bobl, yn wladol a chrefyddol, yn gynnwysedig mewn traddodiadau hanesyddol, ac mewn pennillion barddonol treigledig ar dafod leferydd o oes i oes. Nid oedd y gelfyddyd o ysgrifenu eto yn hysbys neu arferedig ond mewn cerfiadau ar gof-golofnau cyhoeddus neu deuluaidd. Gyda dechreuad y chweched ganrif o flaen Crist y dechreuwa cyfnod o lenyddiaeth glasurol ac ysgrifenedig. Yr oedd symudiadau mawrion yn mhlith y cenhedloedd dwyreiniol tua'r pryd hwn, pa rai a dueddent yn nerthol i ddwyn allan holl alluoedd dynion. Gellir ystyried yr oes honno, a'i chydmaru â'r oesoedd a aethant heibio, yn oes y Doethion, ac yn oes Rhyddiaith.—Yn mhlith brenhinoedd eraill, gwelodd y goludog Croesus fod gwybodaeth yn ALLU, a chasglodd o'i amgylch o bob cenedl, y rhai a ennillasant enwogrwydd iddynt eu hunain am eu rhagoroldeb mewn gwybodaeth a doethineb.

Yn mhlith eraill cyrchwyd Æsop i lŷs Croesus, wedi yn gyntaf ei ryddhau o gaeth-wasanaeth ei feistr Iadmon. Yr oedd ei glod wedi ei ragflaenu, fe allai yn fwy am ei arbedd nac am ei wybodaeth. Dygwyd ef o bossibl i'r llŷs yn benaf i ddifyru, ond cafwyd fod doethineb mawr yn gorwedd dan ei ffraethineb, a daeth yn fuan i ffafr mawr gyda'r brenhin, ac i ddylanwad mawr ar y bobl. Daeth i gael ei anfon ar negeseuau ac i eistedd mewn cynnadleddau gwladwriaethol. Dywedir iddo fyned ar ryw achos cyhoeddus o'r fath, i ymweled a'r Delphiaid, ac iddo yn nghyflawniad yr ymddiried hwnnw, ddwyn arno ei hun ddigofaint y bobl hyny, fel y bu

RHAGDRAITH.

iddynt godi i'w erbyn a'i dafu i ddinystyr dros clogwyn craig. Dywedir yn mhellach, fod plâau parhaus wedi disgyn ar y fro lle y llofruddiwyd ef, a bod y Delphiaid, lawer o flynyddoedd ar ol hyny, dan boen eu profedigaethau, a chan gyhuddiadau cydwybod euog, er mwyn dyhuddo eu duwiau, wedi cyhoeddi drachefn a thrachefn, eu parodrwydd i dalu iawn am ei farwolaeth i bwy bynag a allent brofi ei hawl i'r cyfryw daliad; a chan nad oedd neb arall wedi ei gleimio, eu bod wedi ei dalu i Iadmon, wŷr i'r Iadmon hwnw, i'r hwn y bu Æsop gynt yn gaethwas. Aeth y geiriau "Gwaed Æsop," yn ddiareb am oesau dyfodol, i rybuddio na wna gwaed y llofruddiedig ddim gwaeddi am ddialedd yn ofer.

Nid oes dim hanesion y gellir ymddibynu arnynt yn mhellach am fywyd Æsop, ond y mae digon o brawf fod ei eiriau yn cael eu cadw mewn bri mawr yn mhlith yr Atheniaid am oesoedd lawer; ac oddeutu dau can mlynedd ar ol ei farwolaeth cyfodwyd côf-adail iddo gan yr enwog Lysippus, yn Athen, gyda chof-adail y Saithwyr doethion.

Nid ydys i ystyried mae Æsop oedd y cyntaf oll a arferodd y dull o gyfansoddi ac addysgu a elwir yn "Chwedl" neu "Ddammeg." Yn y dull hwn, i fesur mwy neu lai, y trosglwyddwyd i lawr wybodaeth foreuol pob cenedl o'r bron, o'r hyn lleiaf, pob cenedl Ddwyreiniol. Yr oedd tlodi iaith, fe allai, yn y dechreu cyntaf, yn gwneuthur y defnyddiad o gydmariaethau yn angenrheidiol; ac yr oedd y dull hwn o lefaru, yn taro yn gryfach ar feddyliau syml y cenedloedd boreu, ac yn gadael argraff mwy arhosol

ar eu côf. Yr oedd yn naturiol hefyd i bobl anwareiddiedig dynu éu cydmariaethau oddiwrth fwystfilod y maes, coed a llysiau, a golygfeydd natur: a daeth y dull hwn yn brif lwybr addysgiad y werin, yn debyg fel y bu Barddas a Thrioedd, &c., wedi hynny yn mhlith yr hen Gymry.

Yr ydym yn cael amryw ddammegion yn yr Hen Destament.—Fe allai mai y chwedl neu y ddammeg hynaf oll ydyw yr hon a geir yn Llyfr Barnwyr ix. 7; am y “Prenau a’r Olewydden.” Nid llai hynod ac effeithiol oedd dammeg Nathan yn yr 2il Samuel, 12fed bennod am “Oenig fechan y gŵr tlawd,” gyda’i chymmwysiad ofnadwy at y brenhin Dafydd, “Tydi yw y gwr!”

Nid ydynt y dysgedigion yn credu fod yr holl chwedlau a gyssylltir â’i enw, yn gyfansoddiadau Æsop ei hun, nac ychwaith eu bod oll yn berffaith fel eu traddodwyd ganddo ef. Tybiwn, mae gwir hanes Dammegion Æsop ydyw yn debyg i hyn. Æsop oedd un o’r cyntaf a’r mwyaf llwyddiannus yn nefnyddiad y dull hwn o gyflwyno moes wersi. Gan eu bod mor darawiadol ac mor hawdd eu cofio, yr oedd ei chwedlau yn cael eu treiglo o enau i enau, a’u trosglwyddo i lawr o oes i oes, gyda’r fath gyfnewidiadau ag sydd bob amser yn sicr o gydfyned a throsglwyddiad yr anysgrifenedig. Mewn amseroedd diweddarach, ysgrifenyddwyr ac areithwyr a ddefnyddient y traddodiad prif-linellol o’r chwedl, gan ei wisgo yn eu geiriau eu hunain. Yr un pryd, yr oedd pob chwedl dda oedd yn troi i fynu mewn ymddiddan, ac heb wybod ei hawdwr, yn cael, yn bur naturiol,

ei phriodoli i'r meistr mawr yn y dull hwn o addysgu.

Daeth poblogrwydd Chwedlau Æsop i fod yn ddiderfyn yn mhlith y Groegiaid; defnyddiai eu prif areithwyr hwynt yn eu hareithiau gwladwriaethol; trôdd eu beirdd hwynt ar gân; a chyfeirir attynt yn fynych gan eu hawdwyr enwocaf.

O wahanol weithiau y rhai hyn y casglwyd y rhan fwyaf o'r chwedlau sydd ar gael; ac er nad ydys i gredu eu bod air yn air fel eu traddodwyd gyntaf gan eu hawdwr, eto y maent o ran ysbryd a sylwedd, o'r hyn lleiaf fel yr adnabyddid hwynt yn nghyfnod goreu llenyddiaeth Groeg.

Y mae amryw gasgliadau o'r Chwedlau hyn wedi eu cyhoeddi mewn gwahanol ieithoedd, ac y mae y cyfieithiad Cymraeg hwn wedi ei wneuthur o'r casgliadau diweddaraf a gorau a ymddangosodd yn yr Iaith Saesonig.

Am y cymhwysiadau, gellir meddwl fod rhai o'r Chwedlau wedi eu llefaru ar ryw achosion neillduol, ac oherwydd hyny, y mae dyben eu traddodiad yn aneglur, ac nis gellir tynu cymhwysiad cyffredinol oddiwrthynt. Y mae llawer o'r cymhwysiadau a roddir yn yr argraffiad hwn wedi eu hattodi gan wahanol gasglwyr a chyhoeddwyr y Dammegion, tra y mae llawer iawn o honynt wedi eu gadael heb ddim cymhwysiad oll. Yn yr amgylchiad olaf, y mae y cyfieithydd Cymreig wedi rhoddi cymhwysiad mewn byr eiriau, gan feddwl y gwnai hyny y gwaith yn fwy cymhwys a chymmeradwy i'r archwaeth Gymraeg.

CYNNWYSIAD.

Rhagdraith ar Fywyd a Dammegion Æsop.

CHWEDLAU :—

- 1 Llew a'r Bwystfilod yn Hela.
- 2 Y Saethwr a'r Llew.
- 3 Y Barcut a'r Colomenod.
- 4 Y Llwynog a'r Afr.
- 5 Y Blaidd a'r Cryr Glas.
- 6 Y Frân Goeg-falch.
- 7 Y Morgrugyn a'r Ceiliog Rhedyn.
- 8 Y Blaidd a'r Myn.
- 9 Y Bachgen a'r Asp.
- 10 Y Mynydd mewn Trafael.
- 11 Y Ceiliog a'r Perl.
- 12 Yr Eryr a'r Llwynog.
- 13 Yr Hydd a'i Mam.
- 14 Y Weddw a'r Iâr.
- 15 Y Llwynog a'r Llew
- 16 Y March a'r Marchwas.
- 17 Yr Hen Gi.
- 18 Y Dyn a'r Neidr.
- 19 Y Llygoden a'r Llyffant
- 20 Y Pysgottwr yn canu'r Bibell.
- 21 Y Dyn a'r Gwyddan.
- 22 Y Ci a'r Cysgod.
- 23 Y Lleuad a'i Mam.
- 24 Y Blaidd a'r Oen.
- 25 Y Gwybed a'r Pot Mâl.
- 26 Yr Olwynion yn Gwichian.
- 27 Yr Arth a'r Llwynog.
- 28 Y Ddwy Waled.
- 29 Llygoden y Wlad a Llygoden y Dref.
- 30 Yr Eryr a'r Ceiliogod.

CYNNWYSIAD.

- 31 Y Llew a'r Llygoden.
- 32 Y Ci, y Ceiliog a'r Llwynog.
- 33 Yr Hen Wraig a'r Gwin-lestr.
- 34 Y Ci a'r Blaidd.
- 35 Y Llyffant a'r Ych.
- 36 Y Carw claf.
- 37 Y Wylan a'r Barcud.
- 38 Yr Ysgyfarnog a'r Crwban.
- 39 Y Crwban a'r Eryr.
- 40 Y Bachgen a'r Blaidd.
- 41 Yr Oen a'r Blaidd.
- 42 Yr Iar a'r Gath.
- 43 Y Llew a'r Teirw.
- 44 Y Llwynog a'r Coediwr.
- 45 Y Fran a'r Piser.
- 46 Yr Ewig Unllygeidiog.
- 47 Y Bol a'r Aelodau.
- 48 Y Crange a'i Mam.
- 49 Y Teithiwr a'r Arth.
- 50 Y Llew, yr Asyn, a'r Llwynog.
- 51 Y Carw yn Ystol yr Ych.
- 52 Y Bachgen a Thynged.
- 53 Y Morhweh a'r Penwygyn.
- 54 Y Ffinidwydden a'r Fieren.
- 55 Y Glowr a'r Panwr.
- 56 Y Llew mewn Cariad.
- 57 Y Gwynt a'r Haul.
- 58 Y Ffermwr a'i Feibion.
- 59 Y Preniau a'r Fwyall.
- 60 Yr Asyn a'r Ci Bach.
- 61 Y Golomen a'r Fran.
- 62 Y Llew a'r Llwynog.
- 63 Iau a'r Camel.
- 64 Y Dyn dall a'r Cenaw.
- 65 Y Twrch daear a'i fam.
- 66 Yr Asyn a'r Ceiliog Rhedyn.
- 67 Erclwff a'r Gwagennwr.
- 68 Y Llwynog a gollodd ei Gynffon.
- 69 Yr hen Wraig a'r Meddyg.
- 70 Yr Ysgyfarnogod a'r Llyffaint.
- 71 Y Pysgottwr a'r Pysgodyn bychan.
- 72 Y Ffermwr a'r Chwibon.
- 73 Yr Epa a'r Carmel.

CYNNWYSIAD.

- 74 Y Mul.
- 75 Y Llewes.
- 76 Y Bwrniad o Ffyn.
- 77 Y Dyn a'r Llew.
- 78 Y Fammaeth a'r Blaidd.
- 79 Yr Epa a'r Morhweh.
- 80 Y March a'r Carw.
- 81 Y Blaidd a'r Defaid.
- 82 Y Weddw a'r Ddafad.
- 83 Y Ci a'i Feistr.
- 84 Y Ci Sarug.
- 85 Yr Adalwr a'r Ehedydd.
- 86 Y Wenol a'r Gigfran.
- 87 Y Ganwyll Ffyrlling.
- 88 Y Bugail a'r Tarw colledig.
- 89 Y Dyn a frathwyd gan Gi.
- 90 Y Teithwyr a'r Blanwydden.
- 91 Y Dderwen a'r Gorsen.
- 92 Y Wiber a'r Ddurlif.
- 93 Mercher a'r Coediwr.
- 94 Y Bleiddiaid a'r Defaid.
- 95 Y Llwynog a'r Grawnin.
- 96 Yr Eryr a'r Saeth.
- 97 Y Ci yn y Preseb.
- 98 Y Gwybedyn a'r Ych.
- 99 Iau, Neptune, Minerva, a Momus.
- 100 Y Lleidr a'i Fam.
- 101 Priodas yr Haul.
- 102 Y Gath a'r Llygod.
- 103 Y Llew a'i dri Chynghorwr.
- 104 Y Forwyn a'i Phiser Llaeth.
- 105 Yr Ychain a'r Cigyddion.
- 106 Y Ffermwr a'r Garanod.
- 107 Y Meddyg a'r Claf.
- 108 Y Llygod mewn ymgynghorfa.
- 109 Y Llew a'r Afr.
- 110 Yr Wydd a'r Wyau Aur.
- 111 Y Pomgranad, yr Afal, a'r Fieren.
- 112 Y Ci a Wahoddwyd i Swper.
- 113 Y Bugail a'r Geifr.
- 114 Y Pysgottwr.
- 115 Y Llyffaint yn deisyf am Frenin.
- 116 Yr Asyn a'i Feistriaid.

CYNNWYSIAD.

- 117 Y Lleidr a'r Ci.
- 118 Yr Ysgyfarnog a'r Bytheuad.
- 119 Yr Heliwr a'r Pysgottwr.
- 120 Iau a'r Wenynen.
- 121 Yr Ehedydd a'i rhai bychain.
- 122 Y Teithiwr ymffrostgar.
- 123 Y Llyffaint a'r Teirw.
- 124 Y Llew a'r Asyn yn Hela.
- 125 Yr Adar, y Bwystfilod, a'r Ystlum.
- 126 Y Llwynog a'r Draenog.
- 127 Y Blaidd a'r Bugail.
- 128 Y Teithwyr a'r Fwyall.
- 129 Y Llygod a'r Bronwenod.
- 130 Y Bachgen a'r Danadl.
- 131 Y Barcud Claf.
- 132 Yr Eryr a'r Fran.
- 133 Yr Asyn a'i Yrwr.
- 134 Yr hen Wr ac Angau.
- 135 Yr Adarwr a'r Betrusen.
- 136 Yr Asyn Synwyrol.
- 137 Y ddau Ddwfr-lestr.
- 138 Y Llew a'r Morhwch.
- 139 Yr Udganwr yn Garcharor.
- 140 Y Chwareuwr a'r Gwladwr.

CHWEDLAU ÆSOP.



CHWEDL 1.—Y LLEW A'R BWYSTFILOD YN HELA.

Gwnaeth Llew a'r Bwystfilod gytundeb i fyned allan i Hela. Wedi dal carw tew, gwnaeth y Llew ei hun yn farnwr; ac wedi rhanu yr ysglyfaeth yn dair rhan, dywedodd, "Y rhan gyntaf, sydd eiddof fi yn swyddol, fel barnwr; yr ail ran, yr wyf yn ei chymmeryd fel fy rhan bersonol o'r ysglyfaeth; ac am y drydedd ran cymmered y neb a feiddia ef."


Gobaith gwan sydd i'r gwan am gyfiawnder mewn cytundeb gyda'r cryf, yn enwedig os na bydd o egwyddor dda.



CHWEDL 2.—Y SAETHWR A'R LLEW.

Aeth gŵr, yr hwn oedd yn dra medrus gyda'i fŵa a'i saeth i fynu i'r mynyddoedd i hela. Pan ganfyddwyd ef yn agoshau, ffôdd yr holl fwystfilod ymaith mewn braw ac arswyd. Y Llew yn unig a ddangosodd duedd i'w wrthsefyll. "Arhoswch," ebe y Saethwr wrtho, "a derbyniwch genadwr cddiwrthyf, y mae ganddo rywbeth i'w ddywedyd wrthyh." Gyda hyny, fe ollyngodd ei saeth at y Llew, ac a'i harchollodd yn ei ystlys. Y Llew yna, yn arteithiedig gan boen, a ddiangodd i ganol y goedwig. Rhyw Lwynog, wrth ei weled yn ffoi, a archodd arno ymwroli, a gwynebu y gelyn. "Na," atebai y Llew, "nid ellwch fy mherswadio I i hyny; oblegid os yw y genad a anfona mor llym, pa beth a raid fod gallu yr hwn a'i hanfonodd?"

Nid yw gwroldeb heb bwyll ond rhyfyg.—Nid yw nerth corph ddim wrth nerth meddwl.



CHWEDL 3.—Y BARCUD A'R COLEMENOD.

Yr oedd haid o Golomenod wedi byw yn hir mewn arswyd parhaus rhag Barcud, ond wrth fod bob amser ar eu gwiliadwriaeth, a chadw yn agos at y Colomendy, llwyddasant am dymhor maith i ddiange rhag ymosodiadau y gelyn. Wrth weled fod ei ymdrechion yn aflwyddiannus, trodd y Barcud i ddefnyddio dichell. "Paham," meddai, "yr ydych yn dewis byw fel hyn mewn ofn parhaus, pan, os gwnewch ond yn unig fy nghymmeryd I yn frenin arnoch, gwnawn I eich cadw yn ddiogel rhag pob ymosodiad a ellid ei wneuthur arnoch?" Y Colomenod, gan ymddiried yn ei addewidion, a'i galwasant i'r orsedd; ond nid cynt yr oedd wedi ei sefydlu ynddi, nag y dechreuodd ddefnyddio ei allu i ysglyfaethu Colomen bob dydd. Ar hyn, ebe un Golomen oedd yn disgwyl ei thynged hithau, "Nid yw hyn ond yr hyn a haeddasom am ein ffolineb."


Pwy bynag a roddant allu yn wirfoddol yn llaw gormeswr neu elyn, ni ddylent ryfeddu os troir ef diwedd yn eu herbyn hwy eu hunain.



CHWEDL 4.—Y LLWYNOG A'R AFR.

Yr oedd Llwynog wedi syrthio i mewn i ffynnon ddofn, ac er ymdrech yn mhob modd, yn methu dringo allan o honi. Dygwyddodd i Afr ddyfod i'r fan, a chan ei bod yn sychedig, gofynodd i'r Llwynog, A oedd y dwfr yn dda, ac a oedd yno ddigon o hono? Y Llwynog, heb gymmeryd arno ei fod mewn helbul, a atebodd, "Dowch i lawr, gyfaill, mae y dwfr mor ddâ fel na allaf roi heibio ei yfed, ac y mae cyflawnder dihyssbydd o hono." Ar hyn neidiodd yr Afr i mewn heb ychwaneg o ystyriaeth; a'r Llwynog gan gymmeryd mantais o gyrn "ei gyfaill," a neidiodd allan yn y fan; a dywedai yn bur bwyllog wrth yr Afr druan,— "Pe buasai genych hanner gymmaint o ymenydd ag sydd genych o farf, buasech wedi edrych o'ch blaen cyn neidio."

Y mae cyngor y dichellgar yn beryglus.



CHWEDL 5.—Y BLAIDD A'R CRYR GLAS.

Fel yr oedd Blaidd yn rheibus ymborthi ar ei ysglyfaeth, digwyddodd yn ei wange, i asgwrn lynu yn ei wddf. Parai hyn y fath boen iddo, fel y rhedai gan udo at bawb o'i amgylch, gan addaw gwobr dda i pwy bynag a'i gwaredai o'i ofid. Y Cryr Glâs, wrth glywed am y wobr, a anturiodd ei wddf hir-fain i enau y Blaidd, ac a dynnodd yr asgwrn ymaith. Yna gofynai yn wylaidd am y wobr addawedig am y gymmwynas; i'r hyn yr atebai y Blaidd, gan wenu, a dangos ei ddannedd, "Greadur anfoddog, onid yw yn ddigon o wobr i ti, fod dy ben wedi bod rhwng fy nannedd, a'th fod wedi ei gael allan yn ddiogel?"

Y rhai a wnant gymmwynas yn unig er mwyn y wobr, yn enwedig i ddynion drwg, ni ddylent ryfeddu os cant weithiau eu siomi, a derbyn mwyo sarhad nac o ddiolch am eu trafferth.



CHWEDL 6.—Y FRÂN GOEG-FALCH.

Yr oedd rhyw Frân mor falch a chwyddedig fel yr anfoddlonai i'w chylch a'i gwisg naturiol; felly fe gasglodd y plu a syrthient oddiwrth y Paunod, ac a'u gosododd yn mhlith ei phlu ei hunan; ac yna, gan ddiystyru ei hen gymdeithion, hi a gynygiodd ei hun yn dra hyderus i gyfeillach yr adar prydferth hyny. Y Paunod, gan ganfod ar unwaith y twyll hunanol, a'i diosgasant yn y fan o'r plu benthyciedig, a chan ymosod arni â'u pigau, a'i gyrasant yn ddigllawn o'u plith. Y Frân benffol, mewn poen a gofid, a ddychwelodd at ei thylwyth ei hun, ac a fynai gymdeithasu gyda hwynt drachefn, fel pe na buasai dim wedi digwydd. Ond y rhai hyny, wrth gofio am ei dirmyg o honynt gynt, ni fynent ei derbyn yn ol, eithr hwy a'u curasant ymaith o'u plith, gan ddywedyd wrthi,—“Pe buaset wedi boddloni i'r hyn y'th wnaethpwyd gan natur, buasit wedi diange rhag ceryddon dy well, a rhag dirmyg dy gydradd, ond yn awr ti a ddygaist arnat dy hun atgasedd pawb.”

Pwy bynag a geisia ymddyrchafu trwy dwyll, ac ar drawl rhagoriaethau benthyciedig, a syrth yn is yn y pen draw.



CHWEDL 7.—Y MORGRUGYN A'R CEILIOG RHEDYN.

Ar ddiwrnod rhewllyd yn y gauaf yr oedd Morgrugyn yn llusgo allan ychydig yd a drysorasai yn yr hâf, i'w sychu yn yr awyr agored. Ceiliog Rhedyn, a ddigwyddasai oroesi yr hâf, ac oedd yn awr bron marw o newyn, a daer erfyniai ar y Morgrugyn i roddi iddo un gronyn i'w gadw yn fyw. "Atolwg," meddai y Morgrugyn wrtho, "pa beth a fuoch chwi yn ei wneyd trwy yr hâf diweddaf?" "O!" atebai y Ceiliog Rhedyn, "nid oeddwn yn segura, bum yn canu ar hyd yr hâf." "Aië," ebe y Morgrugyn, gan chwerthin a chau ei ystordŷ, "os gallasoch ganu ar hyd yr hâf, gallwch ddawnsio ar hyd y gauaf"

Y gauaf a ddwg allan yr hyn y mae yr hâf wedi ei hebgor. Mewn ieuengctyd ac iechyd y mae darparu ar gyfer henaint ac afiechyd.





CHWEDL 8.—Y BLAIDD A'R MYN.

Myn Gafr yn sefyll ar ben tŷ uchel, a ganfu Flaidd yn pasio heibio isod, ac a ddechreuodd ei senu. Ni wnaeth y Blaidd ond edrych arno, a dyweyd, “Y cachgi gwael! nid tydi sydd yn fy nifrio, ond y lle yr ydwyt yn sefyll arno.”

Y rhai a ymosodant ar gymmeriadau, pan y gallant wneyd hyny yn ddigerydd, y distadlaf o ddynion ydynt.

CHWEDL 9.—Y BACHGEN A'R ASP.

Yr oedd bachgen yn chwilio am Lindŷs ar fur, ac wedi dal llawer iawn o honynt; pan y gwelodd Asp, ac a'i cam gymmerodd am Lindysen. Yr oedd yn agor ei law i'w dal, pan y dywedai yr Asp, gan estyn allan ei cholyn, “gwynfyd na buasech wedi cydio ynof, canys buaswn yn fuan yn peri i chwi fy ngollwng I yn rhydd, a'r Lindŷs hefyd.”

Trwy fentro gormod yn ei anwybodaeth, y mae aml un wedi colli yr hyn oedd ganddo, a chael mawr ofid yn y fargen.



CHWEDL 10. Y MYNYDD MEWN TRAFael

Yn yr hen amser gynt fe glywyd rhyw dwrw dir-fawr oddifewn i Fynydd. Aeth y gair ar l  d ei fod mewn trafael; ac ymgynnullodd ll  aws mawr o bobl o bell ac agos, i gael gweled ar ba beth yr esgorai y mynydd. Ar ol maith ddisgwyliad, a llawer o dybiau doethion gan yr edrychwyr, daeth allan o grombil y Mynydd.—LYGODEN!

Addewidion a honiadau mawrion yn dibenu mewn cyflawniadau bychain.

CHWEDL 11.—Y CEILIOG A'R PERL.

Fel yr oedd Ceiliog yn crafu ar domen, mewn buarth ffarm, i chwilio am ymborth i'r ieir, digwyddodd iddo droi i fynu Berl disglaer a syrthiasai yno trwy ryw ddamwain. "Hollo," ebe fe, "yr ydych chi yn rhywbeth gwych iawn, mae'n ddiau, i'r rhai a allant eich prisio; ond rhowch i mi ronyn o haidd o flaen holl berlau y byd."

Nid oes dim yn wir werthfawr i un, oni all ei ddefnyddio; ond gwaith ff  l ydyw diystyru dim, yn unig am rad ydym yn eu ddeall.



CHWEDL 12.—YR ERYR A'R LLWYNOG.

Yr oedd Eryr a Llwynog wedi byw am dymhor marth yn gymmydogion agos a heddychlawn; yr Eryr ar ben uchaf pren mawr, a'r Llwynog mewn twll wrth ei wraidd ef. Er hyny, un diwrnod, pan oedd y Llwynog oddicartref, gwnaeth yr Eryr ymosodiad ar genaw y llwynog, ac ai cipiodd i fynu i'w nyth,—gan feddwl fod ei thrigfan mor uchel, fel nad allai y Llwynog byth ei niweidio. Y Llwynog, ar ei ddychweliad adref, a gwynodd yn fawr oblegyd angharedigrwydd yr Eryr; ac a daer erfyniodd am ddychweliad y bychan; ond wrth weled nad oedd ei erfyniadau yn tycio, fe gipiodd bentewyn oddiar allor a gynneuasid gerllaw, ac yn fuan yr oedd y pren oll mewn mwg a thân. Dychwelodd yr Eryr yn ddioed, er mwyn ei bywyd ei hun a'i phlant, y cenaw a wrthodasai ei ildio i erfyniadau a dagrau y Llwynog.

Y mae bygythion, yn gyffredin, yn fwy effeithiol gyda gormeswyr nac erfyniadau a dagrau.



CHWEDL 13.—YR HYDD A'I MAM.

Dywedai Hydd ieuange ryw ddydd wrth ei mam, "Fy mam, yr ydych yn fwy na'r ci, yn gyflymach, ac yn well eich gwynt, ac y mae genych gyrrn i'ch ham-ddiffyn eich hun; pa beth yw yr achos, gan hynny, fod arnoch gymmaint o ofn y cwn?" Gwenai yr hen fam, ac atebai, "Mi a wn hyn i gyd yn bur dda, fy mhlentyn, ond eto, nid cynt y clywaf gyfarthiad ci, na bydd fy nhraed rywfodd yn fy nghipio i ffordd cyn gynted ag y gallant."

Nis gellir ymresymu yr ofnus i wrolder.

CHWEDL 14—Y WEDDW A'R IÂR.

Yr oedd gan wraig weddw Iâr, yr hon a ddodwyai iddi un ŵy bob boreu. Dywedai y weddw ynddi ei hun.—"Os rhoddaf ddwywaith gymmaint o haidd iddi, hi a ddodwya ddwywaith yn y dydd." Hi a dreiodd y plan, ac aeth yr Iâr mor dew a graenus fel na ddodwyodd ddim oll!

Nid yw ffeithiau bob amser yn ateb i ffigyrau.



CHWEDL 15.—Y LLWYNOG A'R LLEW.

Y tro cyntaf y gwelodd Llwynog Lew, fe syrthiodd wrth ei draed, ac yr oedd yn mron marw gan arswyd. Yr ail dro, er ei fod eto yn lled ofnus, eto fe a ymwrolodd gymmaint fel y mentrodd edrych arno. Y trydydd tro, fe aeth mor hŷf, fel yr aeth ac a'i cyfarchodd ef, gan ofyn iddo, "Pa sut yr oedd ef?"

Y mae cynnefino â pheryglon yn gwneyd dynion yn rhyfygus. Gorchest ydyw ymddwyn tuag at ein huchafiaid, heb fod yn wasaidd ar y naill law, nac yn or-hŷf ar y llaw arall.

CHWEDL 16.—Y MARCH A'R MARCHWAS.

Arferai rhyw Farchwas ddwyn a gwerthu ceirch y ceffyl, ond yr oedd yn dra diwyd yn ei lanhau a'i ysgrafellu ar hyd y dydd. "Os mynech i mi, mewn gwirionedd, edrych yn dda," meddai y March, "rhoddwch i mi lai o'ch ysgrafell, a mwy o'ch ŷd."

Ceir gan rai fwy o foesgarwch nac o gymmwynasgarwch a chyfiawnder.



CHWEDL 17.—YR HEN GI.

Ci, yr hwn a fuasai yn un da iawn yn ei amser, ac a wnaethasai wasanaeth mawr i'w feistr yn ei helwriaeth, oedd o'r diwedd yn pallu gan bwysau blynyddoedd meithion, a llafur caled. Rhyw ddiwrnod, pan yn hela y baedd gwyllt, efe a gydiodd yn y bwystfil gerfydd ei glust, ond ymollyngodd ei ddannedd, a gorfu iddo ollwng ei afael, a diangodd y baedd. Ar hyn, daeth yr heliwr i fynu, ac a'i dwrdiodd yn llym. Ond atebai yr hên Gi egwan iddo, "Arbedwch eich hên was! Cofiwch mai fy ngallu, ac nid fy ewyllys a ballodd. Byddai yn harddach i chwi ystyried yr hyn a fum, na fy ngheryddu am yr hyn ydwyf."

Dylid gwneyd gwahaniaeth rhwng diffyg ewyllys a diffyg gallu. Niddylid anghofio hên gymmwynasau.





CHWEDL 18.—Y DYN A'R NEIDR.

Gwr gwladaidd yn dychwelyd adref ryw ddiwrnod rhewllyd yn y gauaf, a ganfyddodd Neidr yn y clawdd bron marw gan yr oerfel. Gan gymmeryd trugaredd ar y creadur, fe a'i cododd i'w fynwes, ac a'i dygodd i'w dŷ, ac a'i gosododd ar yr aelwyd i ddadebru. Nid cynt yr oedd y Neidr wedi ei llwyr adferu gan wres y tân, na ddechreuodd ymosod ar y plant a theulu y tŷ. Ar hyn cymmerodd y gwladwr fatog ac a'i lladdodd yn y fan, gan ddyweyd, "Ai hyn, filain ysgeler w y wobr a deli i mi am achub dy fywyd?"

Dylid bod yn ddoeth wrth wneyd cymmwynasau. Y a dalant ddrwg am dda, a flinant amynedd pawb, syrthinnt i'r fagl yn y diwedd.





CHWEDL 19.—Y LLYGODEN A'R LLYFFANT

Digwyddodd i Lygoden ar ddiwrnod anffortunus ddyfod i gydnabyddiaeth gyda Llyffant, ac aethant i gyd-drafaelio. Y Llyffant, dan esgus o fawr serch, ac o awyddfryd i gadw ei gyfaill allan o bob perygl, a rwymodd draed blaen y Llygoden wrth ei draed ol ef, ac fel hynny teithiasant yn mlaen, am dymhor, ar y tir; o'r diwedd, daethant at ffrwd o ddwfr, a'i Llyffant, gan beri i'r Llygoden beidio dychrynu, a ddechreuodd nofio drosodd,—ond gyda eu bod hanner y ffordd drosodd, darfu y Llyffant ymsuddo yn ddisymwth i'r gwaelod, gan lusgo y Lygoden anlwcus gydag ef. Ond wrth i'r Lygoden ymdrechu a gwingo yn y dwfr, canfyddodd Barcud hi, a chan ddisgyn arni, fe gipiodd y Llygoden ymaith, gan gario y Llyffant oedd y'nglyn a hi yr unffordd.

Y mae yr hwn a lunio ddinystr ei gymmydog, yn fynych yn cael ei ddal yn ei fagl ei hun. Nid hapus un undeb rhwng dau o wahanol anian.




CHWEDL 20.—Y PYSGOTTWR YN CANU'R BIBEL

Pysgottwr, yr hwn a feddyliai fwy am ei ganiadau nac am ei rwydau, pan y gwelodd haid o bysgod yn y môr, a ddechreuodd ganu ei Bibell, gan feddwl y buasent yn neidio ar y tir. Ond wrth weled nad oeddent yn sylwi dim ar ei ganu, fe gymerodd rwyd fawr, a chan amgylchu llawws o'r pysgod, fe a'u tynodd hwynt i dir. Yna pan welodd y pysgod yn gwingo ac yn neidio ar bob llaw, fe wenodd, ac a ddywedodd, "Gan na wnaech ddawnsio pan genais i chwi, ni fynaf fi ddim o'ch dawnsio chwi yn awr"

Dyna ddialedd y gormeswr creulon; os na phlyga pob ewylllys i'w fympwy ef, fe rwyda ac a ddilëa eu rhyddid.





CHWEDL 21.—Y DYN A'R GWYDDAN.

Dyn a Gwyddan wedi cyfarfod yn ddamweinio¹, a aethant yn gyfeillion, ac a eisteddasant i lawr i gyd-fwyta. Yr oedd yn ddiwrnod gauafaid ac oer, am hynny rhoddodd y dyn ei fysedd yn ei enau, ac a anadlodd arnynt. "I ba beth y gwnewch fel yna?" gofynai y Gwyddan. "I gynhesu fy nwyllaw oerion," ebe y Dyn. Yn mhen ychydig, daeth dysglaid o fwyd, yn boeth, ar y bwrdd, a'r Dyn, gan ei rhoddi at ei enau, a chwythodd arno. "I ba beth y mae hynynad da eto?" gofynai y Gwyddan. "O," atebai y Dyn, "y mae y potes yma yn boeth iawn, yr wyf yn chwythu arno i'w oeri dipyn." "O, felly, aië," meddai y Gwyddan, "ewch ymaith yn union, yr ydwyf yn ymwrthod â'ch cyfeillach yn hollol, ni fynwn ddim yn y byd i'w wneyd ag un sydd yn chwythu yn oer ac yn boeth â'r un genau."

*Dyn i'w osgoi ydyw y tymherog, a'r hwn a fedr wen-
ieithio ac enllibio â'r un genau.*



CHWEDL 22.—Y CI A'R CYSGOD.

Fel yr oedd Cî yn croesi pont-bren dros afon, a chanddo ddarn o gig yn ei safn, fe welai ei gysgod ei hun yn y dwfr islaw iddo. Meddylodd mai Cî arall ydoedd, a darn arall o gig yn ei safn, a phenderfynodd y mŷnai y darn hwnw hefyd; ond wrth geisio am yr asgwrn tybiedig, fe ollyngodd yr un oedd yn ei afael, ac felly fe gollodd y ddau.

Mae llawer wrth ymdrechu am gysgod, yn colli y sylwedd; trwy beryglu daioni sylweddol, am bleser dychymybol; neu anturio eu heiddo eu hun, i reibio am eiddo ereill.

CHWEDL 23.—Y LLEUAD A'I MHAM.

Gofynodd y Lleuad unwaith i'w Mham wneuthur mantell a'i ffitiai hi yn berffaith. "Pa fodd," meddai y fam, "y gallaf wneyd mantell i'ch ffitio chwi, sydd weithiau yn Lleuad newydd, ac weithiau yn llawn llonaid, ac weithiau na'r naill na'r llall?"

Gwaith anhawdd iawn ydyw boddio rhai pur gyfnewidiol eu meddwl.



CHWEDL 24.—Y BLAIDD A'R OEN.

Fel yr oedd Blaidd yn tori ei syched wrth fin ffiŵd redegog, fe ganfyddodd Oen unigol ychydig islaw iddo yn yfed o'r un dwfr. Gwnaeth i fynu ei feddwl i ymosod arno, a cheisiai ddyfeisio rhyw esgus i gyfiawnhau ei drais. "Filain," ebe ef, gan redeg at yr Oenig, "pa sut yr ydych chi yn meiddio llwydo y dwfr yr wyf fi yn ei yfed?" "Yn wir," atebai yr Oen yn dra dychrynedig a gwylaidd, "nid wyf fi yn gweled pa fodd y gallaf fi lwydo y dwfr, canys y mae yn rhedeg oddiwrthych chiwi ataf fi, ac nid oddiwrthyf fi atoch chiwi." "Pa'r un bynag am hyny," meddai y Blaidd, "nid oes ond blwyddyn er pan y clywais chiwi yn fi ngalw I yn bob math o enwau drwg." "O! syr," ebe yr Oen gan grynu, "nid oeddwn ni ddim wedi fy ngeni flwyddyn yn ol!" Wel," meddai y Blaidd, "os nid y chiwi oedd, eich tad oedd ê, ac y mae hyny yr un peth; ond nid yw o ddefnydd yn y byd treio fy ymresymu I allan o fy swper." Ac heb ychwaneg o eiriau, fe syrthiodd ar yr Oenig druan, ac a'i llarpiodd yn y fan.

Lle y byddo nerth, creulondeb, a malais, yn cyd-

CHWEDLAU ÆSOP.

*gyfarfod, ni byddis byth yn fyr o esgus i ormesu.—
Ychydig obaith i wrthsefyll gormes ac anghyfiawnder
sydd i'r rhai na feddant ddim arfau ond cyfiawnder a
diniweidrwydd.*

CHWEDL 25.—Y GWYBED A'R POT MEL.

Yr oedd Llestriad o Fêl wedi syrthio a thori mewn masnachdŷ. Daeth y Gwybed yn heidiau lluosog o bob man, i'w fwyta i fynu, ac ni symmudent o'r fan tra yr oedd un dyferyn yn aros. O'r diwedd, yr oedd eu traed wedi eu maglu gymmaint gan y Mêl yn glynu wrthynt, fel na allent ehedeg ymaith; ac wedi eu dal yn gaeth yn nghanol y seigiau melus, hwy a waeddent allan, "Pa fath greaduriaid truenus ydym, y rhai am un awr o bleser, a daflasom ein bywydau ymaith."

Pa sawl un o blant dynion "am un saig o fwyd, a werthasant eu genedigaeth ffrainc?" Ac am bleserau diflanedig amser, a aberthant eu dedwyddwch tragwyddol?

CHWEDL 26.—YR OLWYNION YN GWICHIAN.

Fel yr oedd gwêdd o Ychain yn llusgo Gwagen lwythog ar hyd ffordd drom, dechreuodd yr Olwynion wichian yn rhyfedd. "Adyn," ebe y Gyrwr wrth y Wagen, "paham yr wyt ti yn gruddfan cymmaint, pan y mae y rhai sydd yn llusgo yr holl bwysau yn berffaith ddistaw?"

Nid y rhai sydd yn gwaeddi allan uwchaf, sydd bob amser yn cael mwyaf o gam.



CHWEDL 27.—YR ARTH A'R LLWYNOG


Yr oedd Arth yn arfer ymffrostio o gariad mawr at Ddyn, gan ddyweyd na ddarfu iddo fe erioed larpio neu ddarnio Dyn wedi iddo farw. Sylwai y Llwynog, gyda gwên, “Buaswn yn meddwl mwy o’ch proffes o gariad, pe na rwygech ef byth pan yn fyw.”

Gwell cadw dyn rhag marw, na'i enneinio ef wedi iddo farw.

CHWEDL 28.—Y DDWY WALED.

Y mae pob un yn cario Dwy Waled, un o’i flaen, a’r llall o’i ol, a’r ddwy yn llawn o feiau; ond y mae yr un o’i flaen yn llawn o feiau ei gymmydogion, a’r un tu ol iddo o’i feiau ei hun.

Felly mae yn digwydd fod dynion heb weled eu beiau eu hunain, tra nad ydynt byth yn colli golwg ar yr eiddo eu cymmydogion.



CHWEDL 29.—Llygoden y Wlad a Llygoden
y Dref.

Gwahoddodd Llygoden wladaidd hên Gyfeilles iddi, oedd yn byw yn y ddinas, i dalu ymweliad â hi. Derbyniwyd y gwahoddiad yn foesgar; a'r Lygoden wladaidd, er yn ddigon plaen ac anghoethedig, ac yn lled gynnil ei natur, a agorodd ei chalon a'i hystôr, er croesaw i'w hên Gyfeilles. Nid oedd un gronyn cynniliedig na ddygwyd allan o'r fwyd-gell, —pŷs, haidd, briwsion caws, a chnau, &c.; a gobeithiai y Lygoden lettygar wneyd i fynu mewn cyflawnder, yr hyn yr ofnai oedd yn fyr mewn dant-eithioldeb, i gyfarfod ag archwaeth goethedig ei Chyfeilles ddinasol. Llygoden y dref, yn bur fursenaidd, a bigai dammaid yma, a thammaid draw; tra yr oedd yr hon â'i llettyai, rhag ofn lleihau dim ar yr arlwy, yn eistedd gerllaw ac yn pigo gwelltyn haidd yn bur ddedwydd. O'r diwedd, torodd Llygoden y ddinas allan, a dywedodd, "Pa sut yn y byd, fy hên Gyfeilles, y gellwch oddef y bywyd llonydd, dwl, ac anghoethedig yma? Yr ydych yn byw fel llyffant mewn twll. Does bossibl, eich bod

mewn gwirionedd, yn caru yr hên greigiau unigol hyn, a'r coedwigoedd, a'r maesydd distaw yma, yn fwy na heolydd yn fyw gan gerbydau a dynion! Ar fy ngair, yr ydych yn gwastraffu eich amser yn druenus yma: rhaid i ni wneyd y goreu o'n bywyd tra y parhao; nid yw Llygoden, fel y gwyddoch, ddim yn byw byth. Felly, deuwich gyda fi yn union i'r ddinas, a mi a ddangosaf i chwi fywyd." Wedi ei gorchfygu gan y fath eiriau gwych, a'r fath foesgarwch urddasol, cydunodd y Lygoden wladaidd a'r cynnygiad, a hwy a gychwynasant, gyda'r hwyr, ar eu taith i'r dref. Yr oedd hi yn mhell yn y nos pan yr ymlithrent yn ddistaw i'r heolydd, ac yn hanner y nos erbyn iddynt gyrhaedd y tŷ mawr, yn yr hwn yr oedd Llygoden y dref yn gwneyd ei chartref.—Yma yr oedd cadeiriau esmwyth, a gorweddffâu o velvet ysgarlad, dodrefn wedi eu gweithio âg ifori, a phob peth arall yn arwyddo cyfoeth a moethusrwydd. Ar y bwrdd yr oedd gweddillion gwledd ardderchog, ar gyfer yr hon yr oedd holl fasnachdai y ddinas wedi cyfrannu eu danteithion y dydd o'r blaen. Yma yr oedd tro y Lygoden ddinasol i ddangos ei llettygarwch; gosododd ei hymwelydd gwladaidd iorphwys ar borphor, rhedai yma a thraw yn awyddus i weini ar ei holl anghenion,—cymhellai ddysgl ar ddysgl, a dantaith ar ddantaith; ac, fel pe yn gweini ar frenin, profai bob peth ei hun, cyn ei osod o flaen ei Chares ddysyml. Yr oedd Llygoden y wlad, erbyn hyn, yn dechreu teimlo a gwneyd ei hun yn hollol gartref; ac yn barod i fendithio yr hap dda oedd wedi gweithio y fath gyfnewidiad dymunol yn ei dull o fyw. Ond, pan yn nghanol ei mwyniant, ac yn dechreu meddwl gyda dirmyg am y fywioliaeth dlawd yr oedd wedi cefnu arni; yn ddisymwth, dyma ddrws yn cael ei daflu yn agored, a chwmni o loddestwyr yn dychwelyd o wledd hwyrol, yn rhuthro i

mewn i'r ystafell. Y ddwy Gyfeilles ddychrynedig a neidiasant oddiar y bwrdd yn y braw mwyaf, ac a ffoisant i ymguddio yn y gornel gyntaf a allasant ei gyrhaedd. Yn mhen tipyn, hwy a anturiasant gribo allan drachefn; ond yn ddioed dyma gyfarthiad llu o gŵn, yn eu gyru yn ol mewn braw a dychryn mwy fyth. O'r diwedd, pan yr oedd pethau wedi tawelu ychydig, fe lithrodd Llygoden y wlad allan o'i hymguddfan, a chan ffarwelio â'i Chyfeilles, hi a sisialodd yn ei chlust, "O! fy anwyl Gares, gall y dull gwyh hwn o fyw wneyd y tro i'r rhai a'i carant; ond rhoddwch i mi fy mara haidd mewn heddwch a diogelwch, o flaen y wledd fwyaf ddanteithiol gyda gofal ac ofn parhaus."

"Gwell yw pryd o ddail gyda llonyddwch, nag ých pasgedig a chás gydag ef."

CHWEDL 30.—YR ERYR A'R CEILIOGOD.

Dau Geiliog ieuaingea ymladdent gyda ffyrnigrwydd mawr. O'r diwedd gorchfygwyd un o honynt, ac fe giliodd i gongl y cut yn llawn o boen a briwiau. Y buddugoliaethwr a ehedodd yn union i ben y tŷ, ac a ddechreuodd guro ei adenydd a chanu i hysbysu ei gongcwest. Y funud hono, Eryr, wrth ehedeg heibio, a'i cipiodd ynei ewinedd, ac a'i dygodd ymaith. Pan welodd y Ceiliog gorchfygedig hynny, daeth allan o'i ymguddfan, ac a gymmerodd feddiant o'r domen am ba un yr ymrafaelasant.

Gwaith peryglus ydyw dringo yn rhyuchel, ac ymffrostio gormod yn amser llwyddu n'.



CHWEDL 31.—Y LLEW A'R LLYGODEN.

Yr oedd Llew yn cysgu yn ei ffau, pan y digwyddodd i Lygoden, yn ddifeddwl, redeg ar draws trwyn y bwystfil mawr, a'i ddeffroi. Tarawodd y Llew ei bawen ar y creadur bach dychrynedig, ac yr oedd ar ei ddibenu yn y fan, pan y darfu i'r Lygoden, mewn llais cwynfanus, erfyn arno drugarhau wrth un oedd wedi troseddu mor anfwriadol, ac i beidio dianrhydeddu ei bawenod mawreddig trwy ladd ysglyfaeth mor ddis-tadl. Y Llew, gan wenu ar fraw ei garcharores fechan, gyda ei fawrfrydigrwydd arferol, a'i gollyngodd yn rhydd. Fe ddigwyddodd ychydig amser wedi'n, fel yr oedd y Llew yn hela ei ysglyfaeth yn yr anialwch, iddo syrthio i rwydau yr helwyr: ac wrth gael ei hun wedi ei ddal yn ddiogel yn y fagl, fe ddechreuodd rŵo nes oedd yr holl goedwig yn adsain gan ei sŵn. Y Lygoden, yn adnabod llais ei harbedwr mawreddig, a redodd i'r fan, ac a ddywedodd wrtho am beidio ofni dim, y byddai hi yn Gyfeilles iddo; ac yna, yn ddioed, dechreuodd gnoi y cwlwm oedd yn rhwymo y llew â'i dannedd bychain, ac mewn ychydig amser gosododd yr anifail mawreddig yn rhydd.


Anfynych y mae tiriondeb yn myned yn ofer, Nid oes un creadur mor bell islaw un arall, fel nad all ddyfod i'w allu i ad-dalu cymwynas.



CHWEDL 32.—Y CÎ, Y CEILIOG A'R LLWYNOG.

Cî a Cheiliog wedi digwydd dyfod i gydnabyddiaeth â'u gilydd, a aethant ar eu taith ynghyd. Gddiweddwyd hwynt gan y nos mewn coedwig, a'r Ceiliog a ehedodd i bren, ac a aeth i glwydo yn mhlith y canghenau, tra yr aeth y Cî i gysgu wrth ei wraidd. Fel yr oedd y nos yn pasio, a'r dydd yn gwawrio, y Ceiliog, yn ol ei arfer, a ddechreuodd ganu yn soniarus: Llwynog, yn ei glywed, ac yn chwenychu gwneyd brewest o hono, a ddaeth, ac a safodd o dan y pren, ac a'i cyfarchodd, gan ddywedyd, "Yr wyt ti yn aderyn bychan, dâ, a thra defnyddiol i'th gydgredduriaid. Tyred i lawr yn awr, fel y gallom ni ganu ein boreuol hymnau, a llawenhau ynghyd." Atebodd y Ceiliog, "Ewch, fy nghyfaill cu, at fôn y pren, a gelwch ar y clochydd i ganu y gloch." Ond cyn gynted ag yr aeth y Llwynog i'w alw, fe neidiodd y Cî arno yn y fan, ac a afaelodd ynddo, ac a'i lladdodd.

Y mae y rhai a osodant faglau i ereill, yn fynych yn syrthio iddynt eu hunain.



CHWEDL 33.—YR HEN WRAIG A'R GWIN-LESTR.

Gwelai Hen Wraig Gostrel wâg yn gorwedd ar lawr. Er nad oedd un diferyn o'r Gwin puredig, yr hyn a gynnwysasai gynt, yn aros ynddi; eto, yr oedd yr arogl mwyaf dymunol yn cyfodi o honi. Rhoddodd yr Hen Wraig ei thrwyn yn ngheg y Gostrel, ac aroglodd â'i holl allu yn egniol, gan sylwi, "Greadur melus, mor ragorol y rhaid fod eich cynnwys unwaith, pan y mae y gwaddod mor beraidd."

'Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.'

CHWEDL 34.—Y CŴ A'R BLAIDD.

Ar noswaith oer, leuad-olau, digwyddodd i Flaidd teneu, newynllyd, gyfarfod â Chî tew, cysurus iawn yr olwg arno. Ar ol y cyfarchiadau cyntaf rhyngddynt, "Pa fodd y mae yn digwydd," gofynai y Blaidd, "eich bod yn edrych mor dda? Mor dda y mae eich bwyd yn cytunoâ chwi! Rhaid eich bod yn cael digon o hono. A dyma fi yn ymdrechu am fy mywyd ddydd a nos, ac nid allaf ond prin gadw fy hun rhag newynu." "Wel," meddai y Cî, "os mynech

gael yr un fywioliaeth â mi, nid oes i chwi ond gwneyd yr un fath a minau." "Aië," ebe'r llall, "a pha beth yw hyny?" "O," ebe y Cî, "dim ond gwylio tŷ fy meistr, a chadw lladron ymaith y nos." "Gwnaf hyny yn llawen; canys nid oes genyf yn awr ond bywyd blin iawn. Byddai newid fy lletty yn y coedwigoedd, yn y gwlaw, a'r eira, a'r rhew, am dô cynhes uwch fy mhen, a llon'd fy nghylla o fwyd da, yn burion bargaen." "Gwir," meddai y Cî, "ac felly nid oes i chwi ddim i'w wneyd ond fy nghanlyn I." Fel yr oeddent yn trotian yn mlaen ynghyd, canfyddodd y Blaidd ryw farc ar wddf y Cî, ac i borthi rhyw gywreinrwydd hynod oedd ynddo, nis gallai ond gofyn, pa beth oedd hwnw yn ei arwyddocâu. "Pŵ, dim byd," meddai y Cî. "Na, nid felly," meddai y Blaidd. "Wel, wel, dim byd o bwys:—ôl y goler, feallai, wrth ba un y mae fy nghadwen yn cydio." "Cadwen!" meddai y Blaidd mewn syndod; "nid ydych ddim yn meddwl dyweyd nad ydych ddim yn rhydd i fyn'd a dyfod i'r fan a fynoch, a phan y mynoch?" "Wel, nag ydwyf, yn hollol, efallai; welwch chwi, mae nhw yn gwybod fy mod I yn o groes, weithiau; ac hefyd, ond i mi gysgu y dydd, y medraf wylio yn well y nos,—felly, y maent yn fy rhwymo i fynu, weithiau, yn y dydd, ond yr wyf yn sicrhau i chwi, fy mod yn cael rhyddid perffaith y nos. Ac fe fyddai fy meistr yn fy mhorthi oddiar ei fwrdd ei hun, a'r gweinidogion yn taflu i mi lawer tamaid blasus, canys yr wyf yn cael fy hoffi ganddynt oll, ac—— Ond pa beth yw'r mater? I ba le yr ydych chwi yn myned?" "O, nos da i chwi," meddai y Blaidd, "mae i chwi groesaw o'ch danteithion; am danaf fi, y fywioliaeth galetaf gyda rhyddid, yn erbyn moethau breninol gyda chadwen."

Ni fyn y rhai sydd wedi eu darostwng dan iau ddim cydnabod eu caethiwed. Nid all y neb a gafodd flas ar ryddid, ddim ei werthu er dim.



CHWEDL 35.—Y LLYFFANT A'R YCH.

Ych, yn pori mewn gweirglodd, a ddigwyddodd osod ei droed yn nghanol haid o Lyffaint ieuauinge, ac a sathrodd bron yr oll o honynt i farwolaeth. Un o honynt a ddiangodd, a fynegodd i'w fam y newydd alaethus; “ac O! mam,” meddai, “yr oedd y bwystfil yn fawr,—anifail mawr pedwar troediog; ni welais erioed greadur mor fawr.” “Mawr,” meddai yr Hen Lyffant, “pa mor fawr? A oedd ef mor fawr,” gan ymchwyddo allan gymmaint ag y gallai, “mor fawr a hyn?” “O!” meddai y fechan, “llawer iawn mwy na hynyna.” “Wel, a oedd ef gymmaint a hyn, ynte?” ac ymchwyddai allan eto fwy. “Yn wir, Mam, yr oedd o; a phe byddai i chwi ymholli, ni chyrhaeddech i hanner ei faint.” Yn eiddigeddus oblegyd y fath ammheu-aeth o'i galluoedd a'i mawredd, fe ymdrechodd yr Hen Lyffant drachefn, ac a ymdorodd, neu a ymrwygodd, mewn gwirionedd.

Mae llawer yn andwyo eu hunain, wrth ymdrechu am fawredd nad oes ganddynt ddim hawl na gallu iddo.



CHWEDL 36.—Y CARW CLAF.

Carw a gymmerasid yn glaf, a orweddodd i lawr yn nghanol porfa frâs, gerllaw i goedwig, fel y gallai gael digon o ymborth o fewn ei gyrhaedd. Ond daeth llawer o fwystfilod i ymweled ag ef, oblegyd yr oedd yn bur gariadus, a chan fod pob un yn pori ychydig o'r borfa, fe fwyttasant y cwbl i fynu yn fuan. Felly, er fod y Carw yn gwella o'i afiechyd; eto, yr oedd yn dihoeni gan newyn, ac yn y diwedd a gollodd ei fywyd.

*Y mae ymweled â'r gwan yn waglaw, yn ddrwg;—
ond y mae ymweled ag ef i'w ysbeilio yn waeth.*

CHWEDL 37.—Y WYLAN A'R BARCUD.

Gwylan a gipiodd i fynu bysgodyn, ac wrth geisio ei lyncu fe dagodd, ac a orweddodd ar fwrdd fel yn farw. Barcud yn pasio heibio a'i gwelodd, a'r unig gysur a roddodd iddo oedd, "Nid oes fater; pa reswm sydd i adar yr awyr i aflonyddu ar bysgod y môr."

Anrhydedd yn mhlith lladron!



CHWEDL 38.—YR YSGYFARNOG A'R CRWBAN

Ysgyfarnog a wawdiodd y Crwban oblegyd araf-
wch ei symudiadau. Y Crwban a wenodd, ac a
ddywedodd y rhedai yrfa diwrnod â hi pan y mynai,
ac y curai hi hefyd. Cytunodd yr Ysgyfarnog; a
chychwynasant ar unwaith. Yr Ysgyfarnog, oblegyd
ei chyflymder mawr, a redodd mor bell o flaen y
Crwban, fel y chwarddodd am ei ben; ond yn teimlo
dipyn yn flinderus, fe orweddodd i lawr i gysgu
tipyn, gan deimlo yn eithaf hyderus y medrai orddi-
wes y Crwban yn hawdd wedi deffroi. Cadwodd y
Crwban i drotian yn mlaen yn araf, ond yn ddygn,
heb aros na throi o'i ffordd unwaith. Cysgodd yr
Ysgyfarnog yn hwy nag y bwriadai, ac erbyn cyr-
haedd pen yr yrfa yr oedd y Crwban yno o'i
blaen hi.

Araf a dygn a ennill y gamp.



CHWEDL 39.—Y CRWBAN A'R ERYR.

Crwban, yr hwn oedd anfoddlawn, am ei fod yn gorfod cribo ar hyd y ddaear, tra y gwelai gymmaint o'r adar, ei gymmydogion, yn chwareu yn mhlith y cymmylau; a chan feddwl os gallai unwaith gyrhaedd i fynu i'r awyr, y gallai ehedeg cystal ag un o honynt, a alwodd ryw ddiwrnod ar Eryr, ac a gynnygiodd holl drysorau yr eigion iddo os gwnai efe ei ddysgu i ehedeg. Mynai yr Eryr ymesgusodi, gan sicrhau iddo fod y peth yn amhossibl; ond oblegyd taerni ac addewidion mawrion y Crwban, efe a gytunodd o'r diwedd, i wneyd y goreu a allai iddo. Felly, fe â'i cymmerodd i fynu yn uchel iawn i'r awyr, ac yna, gan ollwng ei afael o hono, "Yrŵan," meddai yr Eryr; ond y Crwban, cyn ateb iddo air, a syrthiodd yn union ar graig, ac a ddrylliwyd yn chwilfriw.

Rhaid i falchder gael cwmp.



CHWEDL 40.—Y BACHGEN A'R BLAIDD.

Bachgen o fugail, yn gwilio ei braidd yn agos i bentref, a ddifyrodd ei hun amryw weithiau, trwy redeg yno, a gwaeddi, “Y Blaidd! Y Blaidd!”—Deuai yr holl bentref allan ar redeg i’w gynnorthwyo; ac ar ol eu myned yno, chwarddai y Bachgen ar eu penau. O’r diwedd, ryw ddiwrnod, daeth y Blaidd mewn gwirionedd. Gwaeddodd y Bachgen allan o ddifrif; ond ei gymmydogion, gan feddwl mai wrth ei hên ddifyrwch yr oedd, ni choelient ef, a’r Blaidd a reibiodd y defaid.

Ni choelir y celwyddog, hyd yn nod pan y dywedant y gwirionedd.

CHWEDL 41.—YR OEN A'R BLAIDD.

Oen yn cael ei ymlid gan Flaidd a redodd am ei fywyd i ryw deml. Ar hyn gwaeddai y Blaidd allan, gan ddywedyd, y byddai i’r offeiriad ei ladd os daliai ef, “Bydded felly,” ebe’r Oen, “gwell yw cael fy aberthu i Dduw, na fy ysglyfaethu genych chwi.”

Gwell marw yn ngwasanaeth y cyssegr, na syrthio yn aberth i drais a chreulondeb.



CHWEDL 42.—YR IAR A'R GATH.

Câth, yn clywed fod Giar yn gorwedd yn glaf yn ei nyth, a dalodd ymweliad â hi, a chyn nesu atti, dywedodd, "Pa sut yr ydych chi, fy Nghyfeilles anwyl? Pa beth a allaf fi ei wneuthur i chi? Pa beth ydych chi fwyaf mewn angen am dano? Nid rhaid i chi ddim ond dyweyd y gair, os oes rhyw beth yn y byd a allaf ei ddwyn i chi; ond cedwch eich calon i fynu, a pheidiwch a dychrynu, a gollwng eich meddwl i lawr." "Diolch i chi," meddai yr Iar; "byddwch chi cystal a'm gadael, ac nid oes genyf ddim ofn na byddaf yn fuan yn iach."

Mae gormod o garedigrwydd yn beth i'w ddrwgdybio, yn enwedig oddiwrth ryw fath o ymwelwyr; y caredigrwydd mwyaf a all y cyfryw wneyd yw ymadael.





CHWEDL 43.—Y LLEW A'R TEIRW.

Yr oedd pedwar Tarw yn pori y'nghyd mewn cae mewn heddwech a chariad mawr. Digwyddodd fod Llew wedi sylwi arnynt, ac yn eu gwilio yn barhaus, yn y gobaith o allu gwneuthur ysglyfaeth o honynt, ond cafodd nad oedd fawr olwg iddo lwyddo tra y cadwent hwy mor unol â'u gilydd. Fe ddechreuodd, gan hyny, yn ddirgelaid, daenu chwedlau maleis-ddrwg am y naill, wrth y llall o honynt; nes, o'r diwedd, iddo greu drwg-dybiaeth ac atgasedd rhyngddynt â'u gilydd. Cyn gynted ag y gwelodd y Llew eu bod yn ysgoi eu gilydd, ac yn ymwahanu, gan bori bob un ar ei ben ei hun, fe syrthiodd arnynt, y naill ar'ol y llall, ac a'i hysglyfaethodd oll yn hwylus.

*Y mae ymrafaelion cyfeillion, yn fanteisiol i'w gel-
union.*





CHWEDL 44.—Y LLWYNOG A'R COEDIWR.

Llwynog, bron cael ei ddal gan y cŵn, ar ol rheð-egfa faith, a ddaeth i fynu at ddyn yr hwn oedd yn tori coed, ac a erfyniodd arno ddangos iddo ryw le yn mha un i ymguddio. Dangosodd y dyn iddo ei gaban ei hun, a'r Llwynog a lithrodd i mewn ac a ymguddiodd mewn cornel. Daeth yr Helwyr i fynu gyda hyny, a gofynasant i'r dyn, A welsai ef y Llwynog, ai peidio. "Naddo," meddai; ond ar yr un pryd, pwyntiai â'i fys tua'r gornel. Eithr hwy, heb ddeall yr amnaid, a aethant ymaith yn union. Pan ddeallodd y Llwynog eu bod wedi myned allan o'r golwg, fe geisiodd redeg ymaith, heb ddyweyd gair; ond y Coediwr a'i ceryddai ef, gan ddywedyd, "Ai dyma y dull yr ydych yn ymadael â'ch llettywr tirion, heb gymmaint a dychwelyd un gairoddiolch am roi nodd-ed i chwi?" "Llettywr gwych, yn wir!" ebe y Llwynog, gan droi atto, "pe buasech wedi bod mor onest gyda'ch bysedd, ac y buoch gyda'ch tafod, ni buaswn wedi gadael eich tŷ heb ffarwelio â chwi."

Mae amnaid maleisus, cyn waethed a gair drwg.



CHWEDL 45.—Y FRAN A'R PISER.

Brân, yn barod i farw o syched, a ehedodd yn awyddus at ddyfr-lestr, yr hwn a welai o bell; ond pan y daeth ato, fe gafodd fod y dwfr mor isel ynddo, fel nad allai, er pob ymdrech, ddim cyrhaedd at ddim o hono. Ar hyny, fe geisiodd dori y Piser; yna, ei daflu drosodd, ond nid oedd ei nerth yn ddigon i wneyd y naill na'r llall. O'r diwedd, canfyddai nifer o geryg bychain gerllaw,—fe'u gollyngodd i lawr bob yn un i mewn i'r Piser, ac felly, yn raddol, fe gyfododd y dwfr i fynu at yr ymyl, ac fe dorodd ei syched.

Mae medr ac amynedd yn llwyddo, lle y byddo nerth yn unig yn metku. Argenrhaid yw mam dyfais.





CHWEDL 46—YR EWIG UNLLYGEIDIOG.

Ewig, i'r hon nid oedd ond un llygad, a arferai bori ar fin y môr, ac er mwyn bod yn fwy parod yn ngwyneb ymosodiad, hi a gadwai ei llygad tua'r tir, i wiliad rhag agoshâd yr helwyr, a'r ochr dywyll iddi tua'r môr, o ba le nid ofnai ddim perygl. Ond rhyw longwyr yn rhwyfo mewn cwch, ac yn ei gwel-ed, a annelasant atti oddiar y dŵr, ac a'i saethasant. Pan yn tynu yr anadliad olaf, hi a ruddfanai ynddi ei hun, "Greadur anffodus ydwyf! Yr oeddwn yn ddiogel tua'r tir, o ba le y disgwyliwn ymosodiad; ond cefais ergyd marwol o'r môr, o'r hwn ni ddis-gwyliais am ddim niwed."

Y mae ein blinderau yn fynych yn tarddu o'r fan y disgwyliem leiaf am danynt.



CHWEDL 47.—Y BOL A'R AELODAU.

Yn y dyddiau gynt, pan nad oedd holl Aelodau dyn yn cydweithio â'u gilydd mor unfrydol ag y maent yn awr, ond pob un yn hawlio ewyllys a ffordd o'i eiddo ei hun, dechreuodd yr Aelodau, un ac oll, fwrw bai ar y Bol am dreulio bywyd segur, diofal, a moethus, tra yr oeddent hwy oll yn llafurio yn ddi-baid er ei gynnalïaeth, ac i weini ar ei anghenion a'i bleserau; felly, fe gyttunasant mewn cyngrair i attal pob cyflenwadau iddo o hyny allan. Nid oedd y dwylaw i gario dim ymborth yn hwy i'r genau, na'r genau i'w dderbyn, na'r dannedd i'w gnoi, &c. Ni buont fawr iawn o amser yn dilyn y cynllun hwn o newynu y Bol a'i ddarostwng, cyn y dechreuasant, y naill ar ol y llall, i ballu a gwanhau, a'r holl gorph i adfeilio. Yna, fe ddeallodd yr Aelodau, fod y Bol hefyd, er mor lwfr a diddefnydd yr ymddangosai, yn cyflawni gwasanaeth priodol; na fedrent hwy ddim gwneyd hebddo ef, mwy nag y medrai ef hebddynt hwy: ac os mynent gael cyfansoddiad y corph mewn cyflwr iachus, fod yn rhaid iddynt oll gydweithio, bob un yn ei le ei hun, er lles cyuream yr oll o honynt.

Mae pob dosparth mewn cymdeithas yn dibynnu i fesur ar eu gilydd, a pherffeithrwydd cymdeithas ydyw, fod pob dosparth yn llafurio yn ei gylch, er cysur y cyfan.

CHWEDL 48.—Y CRANGC A'I MAM.

Meddai hên Grange wrth un ieuange, "Pa'm y cerddwch chwi mor wyrgam, fy mhlentyn? Cerddwch yn union!" "Mam," ebe y Crangc bychan, "dangoswch i mi pa fodd, os gwelwch yn dda, a phan y gwelaf chwi yn cymmeryd llwybr unionsyth, mi dreiaf finau eich dilyn."

Y mae esiampyl yn well na chyngor.



CHWEDL 48.—Y TEITHWYR A'R ARTH.

Dau Deithiwr oeddynt yn trafaelu yr un ffordd anial ynghyd, a gyttunasant i sefyll ynghyd yn ngwyneb pob perygl a ddigwyddai iddynt. Nid aethant yn mhell ymlaen, cyn i Arth ruthro tuag atynt o'r goedwig. Un o honynt, mewn ofn, gan anghofio ei gyfaill, a gribodd i fynu i bren gerllaw, ac a ymguddiodd. Y llall, yn gweled nad oedd dim gobaith iddo yn unigol i wrthsefyll yr Arth, a daflodd ei hun ar y ddaear, ac a ffugiodd ei fod yn farw; oblegyd yr oedd wedi clywed na wnai yr Arth byth gyffwrdd â chorff marw. Fel yr oedd yn gorwedd fel hyn, daeth yr Arth at ei ben, gan ffroeni ac arogli oddeutu ei drwyn, a'i glustiau, a'i galon; ond gan fod y Dyn yn dal ei anadl yn ddi-ildio, y bwystfil a dybiodd ei fod wedi marw, ac a giliodd ymaith. Pan oedd yr Arth yn dêg allan o'r golwg, daeth y Teithiwr arall i lawr o'r pren, ac a ofynodd iddo, pa beth a ddywedodd yr Arth wrtho, "Canys mi a'i gwelais," meddai, "yn sibrwd yn eich clust." "Wel," ebe y llall, "nid rhyw ddirgelwch mawr ydoedd,—yn unig cynghorodd fi i

Beidio cymdeithasu gyda dynion distadl, y rhai os daw perygl, a adawant eu cyfeillion yn y brofedigaeth."



CHWEDL 50.—Y LLEW, YR ASYN, A'R LLWYNOG


Y Llew, yr Asyn, a'r Llwynog, a aethant allan i hela. Cymmerasant ysglyfaeth fawr, ac wedi darfod y difyrwch, meddyliasant am gael gwledd iawn. Archodd y Llew ar yr Asyn i ranu yr ysbail: felly, yr Asyn a'i rhanodd yn dair rhan gyfartal, ac a ddymunodd i'w gyfeillion gymeryd eu dewis; ond y Llew, wrth weled nad oedd yr Asyn yn gwneyd dim gwahaniaeth rhyngddo ef a'r lleill, a syrthiodd arno mewn digofaint, ac a'i rhwygodd i farwolaeth yn y fan. Yna, efe a barai i'r Llwynog ranu y cyfan yn ddwy ran; ac yntau a grynodd y cwbl yn un swp mawr, gan gadw y tammeidyn lleiaf erioed iddo ei hun. "A! fy nghyfaill," ebe y Llew, "pwy ddysgodd i chwi ranu mor union ac mor foesgar?" "Nid oedd arnaf fi eisiau un wers arall," atebai y Llwynog, "ond tynged yr Asyn."

Gwell dod yn ddoeth trwy anffodion er ill, na thrwy yr eiddom ein hunain.

CHWEDL 51—Y CARW YN YSTOL YR YCH.

Carw yn cael ei hela, a bron cael ei ddal, a wnaeth am y ffarm-dŷ cyntaf a welodd, ac a ymguddiodd mewn Ystôl Ych, a ddigwyddodd fod yn agored. Fel yr oedd yn ceisio cuddio ei hun yn y gwellt "Pa beth ydych yn feddwl," meddai yr Ych, "wrth redeg i'r fath ddinystyr anocheladwy, trwy ymddiried eich hun yn ngafael dynion?" "Os peidiwch chwi a'm bradychu," ebe y Carw, "byddaf ddiogel; canys mi âf ymaith y cyfle cyntaf." Yr hwyr a ddaeth, daeth y porthmon ac y fwydodd y Gwartheg, ac ni sylwodd ar ddim: daeth y fferm weision ereill i mewn ac allan; i.e., daeth yr ystiward ei hun i mewn, ond ni welodd neb ddim mwy nag arfer. Yr oedd y Carw eto yn ddiogel. Yn mhen tipyn, fe gyfoddodd i fyned ymaith, gan ddiolch i'r Ychain am eu tiriondeb. "Arhoswch dipyn," meddai un o honynt, "yr ydym yn wir yn ewyllysio yn dda i chwi; ond y mae un person eto, a chanddo gant o lygaid, os digwydd iddo ef ddyfod heibio, ofnaf y bydd eich bywyd eto mewn perygl." Gyda hyn, y meistr, wedi gorphen ei swper, a ddaeth o gwmpas i edrych a oedd pob peth yn iawn am y nos; ac oblegid ei fod wedi meddwl nad oedd yr Ychain, yn ddiweddar, yn edrych cystal ag y dylasent, yr oedd y bur fanwl: gan fyned i fynu at y rhesel, "Y mae yma rhy fach o wair," meddai, "A phaham na roddwch fwy o wellt o dan yr Ychain?" "A pha sawl gwaith y rhaid i mi ddangos y gëwoedd pryf copyn yma i chwi?" Wrth edrych a chwilio yma ac acw, ac yn mhob man, fe ganfyddai gyrn y Carw, yn sefyll allan o'r gwellt, a chan alw mwy o weision, fe'i daliodd yn y fan.


Nid oes un llygad fel llygad u meistr.




CHWEDL 52 —Y BACHGEN A THYNGED.

Yr oedd Bachgen yn cysgu ar ymyl ffynnon ddofn. Tynged a'i gwelodd, ac a ddaeth ac a'i deffrôdd ef, gan ddywedyd, "Dâ thi, fy mhlentyn, paid gorwedd yn cysgu yna, canys pe digwyddai i ti syrthio i mewn, ni wnai neb dy feio di, ond rhoddid yr holl fâi arnaf fi—TYNGHED."

Y mae Tynghed neu Raglumaeth druan yn cael taflu llawer iawn wrth ei drws, ac yn fynych iawn yn anghyfiawn hefyd.





CHWEDL 53.—Y MORHWCH A'R PENWYGIN.

Yr oedd y Môrhychod a'r Môrflod yn ymladd â'u gilydd, a phan oedd y frwydr boethaf, daeth Penwygyn i mewn, ac a geisiodd eu gwahanu. Ond un o'r Môrhychod a waeddodd allan, "Gadewch lonydd i ni, gyfaill, gwell i ni farw yn yr ymdrech, na chael ein heddychu genych chwi."

Ni chaiff yr isel fawr o ddiolch am ymyryd rhwng y mawrion.

CHWEDL 54.—Y FFYNIDWYDDEN A'R FIEREN.

Ffynidwydden, un diwrnod, a ymffrostiai wrth y Fieren,—“Nid ydych chwi o ddim defnydd yn y byd; ond pa fodd y gallai ysguboriai a thai gael eu hadeiladu hebof fi?” “Anwyl syr,” atebai y Fieren, “pan ddêl y coedwyr yma gyda'u bwyell a'u llifau, pa beth a roi'ch am fod yn Fieren, ac nid yn Ffynidwydden?”

Y mae cyflwr isel gyda diogelwch, yn well na sefyllfa uchel gyda pheryglon.



CHWEDL 55.—Y GLOWR A'R PANWR.

Glowr, gan yr hwn yr oedd mwy o le yn ei dŷ nag oedd eisiau iddo ef ei hun, a gynygiodd i Banwr ddod i gydfyw ag ef. “Diolch i chwi,” atebai y Panwr, “ond y mae yn well genyf beidio, oblegid yr wyf yn ofni, mor gynted ag y bydd i mi banu fy nwyddau, y bydd i chwithau eu duo hwynt.”

*Y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da.—
Nis gall ieuad anghyson lwyddo.*





CHWEDL 56.—Y LLEW MEWN CARIAD.

Digwyddodd yn yr hen amser gynt i Lew syrthio mewn cariad â Merch i Goediwr. Nid oedd y Coediwr yn caru y cynnygiad, ac a fynai wrthod yr anrhydedd o gyfathrach mor beryglus. Ond y Llew a'i bygythiai â'i ddigofaint breninol; a'r Dyn, druan, yn gweled nad oedd creadur mor ofnadwy ddim i'w nacâu, a feddylodd o'r diwedd am ei ddyrysu trwy y ddichell ganlynol:—"Yr wyf yn ystyried eich cynnygiad yn anrhydedd mawr arnaf," meddai, "ond urddasol syr, pa fath ddannedd mawrion sydd genych! a'r fath ewinedd llymion! Pa le y mae y ferch na orchfygid gan ofn y fath arfau â'r rhai hyn? Rhaid i chwi gael tynu eich dannedd, a thori eich ewmedd, cyn bod yn gymhwys briod i fy Merch." Y Llew a foddlonodd yn ddioed (canys pa beth na wna un er mwyn cariad), ac wedi dyoddef y driniaeth, gofynai i'r Tad ei dderbyn fel ei fab y'nghyfraith. Ond y Coediwr, heb achos ofni mwyach rhag bygythiadau y Carwr diarfog a dofedig, a gymerodd bastwn cryf, ac a gurodd y Carwr afresymol oddiwrth ei ddrws.

Y mae llawer yn galaru yn eu pwyll am yr hyn a wnaethant mewn nwyd. Y mae chwant yn troi y cawr yn gorach.



CHWEDL 57 —Y GWYNT A'R HAUL.

Cododd dadl unwaith rhwng y Gwynt a'r Haul pa un o'r ddau oedd y cryfaf, ac i'r diben i'w phenderfynu, hwy a gytunasant fod i pa un bynag o honynt a allai wneuthur i deithiwr dynu ei fantell gyntaf, gael ei ystyried yn gryfaf. Dechreuodd y Gwynt, ac fe chwythodd â'i holl nerth chwa oerllyd a threiddiol, ac a gododd ystorm auafaidd erwinog; ond po cryfaf y chwythai, mwyaf yn y byd y tynai y teithiwr ei fantell o'i amgylch, a thÿnaf yn y byd y gafaelai ynddi â'i ddwyllaw. Yna torodd yr Haul oddi dan y cymylau, ei belydrau hyfryd yn fuan a wasgarent y tARTH a'r oerni; teimlai y teithiwr y gwres yn ei gynhesu, ac fel yr oedd yr Haul yn tywynu ddisgleiriach, ddisgleiriach, a'i danbeidrwydd yn cynnyddu, o'r diwedd, eisteddodd i lawr, wedi ei lethu gan y gwres, ac a daflodd ei fantell ar y ddaear. Felly, yr Haul a gyhoeddwyd yn fuddugwr.

Y mae tirondeb yn fwy nerthol na haerllugrwydd; a pherswadio na bygwth.



CHWEDL 58.—Y FFERMWR A'I FEIBION.

Yr oedd Ffermwr ar ei wely angau, ac yn dymuno dangos i'w Feibion y ffordd i lwyddo mewn amaethyddiaeth fe'u galwodd atto, ac a ddywedodd, "Fy mhlant, yr wyf yn awr yn ymadael a'r bywyd hwn. Y cwbl sydd genyf i'w adael i chwi, chwi a'i cewch yn y winllan." Y Meibion, yn meddwl ei fod yn cyfeirio at ryw drysor cuddiedig, a ddechreusant yn ddioed, ar ol claddu yr hên wr, i lasurio gyda'u rhawiau a'u herydr, ac a droisant holl bridd y winllan drosodd drachefn a thrachefn. Ni ddaethant o hyd i'r trysor disgwylidig, y mae yn wir; ond y gwinwydd, wedi eu cryfhau a'u gwellhau gan y driniaeth drwyadl hon, a ddygasant fwy o ffrwyth nag a roisant erioed o'r blaen, ac a dalasant yn dda iawn i'r Amaethwyr ieuaingc am eu trafferth. A hwy a ddeallasant fod

Diwidrwydd ei hun yn drysor gwerthfawr.



CHWEDL 59.—Y PRENIAU A'R FWYALL.

Daeth coediwr i'r goedwig i ofyn i'r coed roddi iddo goes i'w Fwyall. Ymddangosai yr erfyniad mor resymol, fel y cydunodd y prif goed ar unwaith i'w ganiatâu; a phenderfynasant yn eu plith, fod i'r Onen gref gyfranu yr hyn oedd eisiau. Nid cynt y cafodd y coediwr ffôn gymhwys, ac y gwnaeth hi yn barod, nag y dechreuodd ymosod ar, a thori i lawr y coed ardderchoccaf yn y goedwig. Y Dderwen, yn gweled y peth drwyddo yn rhy ddiweddar, a sylwai wrth y Gedrwydden, "Y mae y tynerwch cyntaf wedi dinystrio y cyfan: pe gwrthodasem aberthu ein cymmydog tlawd, gallasem sefyll am oesau ein hunain."


Pan abertha y mawrion iawnderau yr iselradd, rhoddant esgus i ymosod ar eu hawliau eu hunain. Dylid gwilio rhag yr ymostyngiad cyntaf i ormes.

CHWEDL 60.—YR ASYN A'R CÎ BACH.

Yr oedd Asyn a Chî Bach yn perthyn i'r un meistr. Yr oedd yr Asyn yn yr ystabl yn cael digon o fyd a gwair, ac yn byw cystal ag un Asyn yn y byd. Yr oedd y Cî Bach bob amser yn chwareu ac yn prangcio o gwmpas ei feistr, yn ei ddifyru yn mhob modd, nes dod mor uchel i'w ffafr, fel yr oedd yn cael gorwedd ar ei liniau. Yr Asyn a sylwodd ar fywyd segur a moethus y Cî Bach, a chan gyferbynu hynny a'i lafur parhaus ef, cenfigenodd wrtho; ac a feddylodd ond iddo ef weithredu yn yr un modd tuag at y meistr, y cai yntau yr un driniaeth. Felly, ryw ddiwrnod, fel yr oedd ei feistr yn eistedd i fwytta, fe ruthrodd, gan frefu a phrancio, tuag atto; fe ysgydodd ei gynffon, ac a efelychodd gampiau y Cî Bach, nes taflu i lawr y bwrdd ciniaw a thori y llestri; ac o'r diwedd, ceisiodd neidio ar ei liniau, gan ei gyfarch ef â'i draed pedoledig. Y gweision a chwarddent yn y dechreu, ond wrth weled eu meistr dan y fath driniaeth beryglus, a ddaethant yn mlaen i'w amddiffyn; ac wedi ei ryddhau oddiwrth gofleidiau yr Asyn, hwy a gurasant y creadur ffol â ffyn a fflangellau, nes yr oedd yn mron marw. "Och! fi," meddai yr Asyn, "na buaswn foddllawn yn fy lle fy hun, yn lle ceisio dynwared a munudiau ffol un nad oedd ond clepgi ar ol y cwbl."

Mae pob un a elo allan o'i lwybr naturiol yn agored i wawd a dirmyg.





CHWEDL 61.—Y GOLOMFEN A'R FRAN.

Colomen a gedwid i fynu mewn cwt, oedd yn ymlawenhau oblegid lluosogrwydd ei theulu. “Rhoddwch heibio, druan,” ebe'r Fran, “ymffrostio ar y pen yna ; canys po mwyaf o rai ieuainge a fydd genych, mwyaf yn y byd fydd genych o gaethion i alaru am danynt.”

Y mae pethau ydynt drugareddau mewn rhyddid, yn brofedigaethau mewn caethwasanaeth.





CHWEDL 62.—Y LLEW A'R LLWYNOG.

Llwynog a gytunodd i aros gyda Llew, fel gwas iddo. Am dymhor, yr oedd pob un o'r ddau yn cyflawni yr hyn oedd yn briodol iddo;—arferai y Llwynog yspïo yr ysglyfaeth, a'r Llew ymosod arno a'i ddal. Ond y Llwynog, yn dechreu meddwl ei hun cygystal â'i Feistr, a erfyniodd ganiatâd i hela yr ysglyfaeth, yn gystal a'i yspïo. Caniatawyd ei ddymuniad: ond fel yr oedd yn y weithred o ymosod ar braidd, daeth yr helwyr i fynu atto, a chymerwyd ef ei hun yn gaeth.

Cadwed pob un ei le ei hun, ac fê'i ceidw ei le ef.





CHWEDL 63.—IAU A'R CAMEL.

Pan y gofynodd y Camel, ar ryw dro, i Iau ganiatâu cynn iddo, oblegid ei fod yn ofid iddo weled anifeiliaid ereill wedi eu cynnysgaeddu â hwynt, ac yntau hebddynt; Iau, nid yn unig a wrthododd roddi iddo y cynn a ddeisyfai, ond a gwtogodd ei glustiau iddo am ei drachwant.

Wrth ofyn yn afresymol, gallwn gollu yn lle ennill.

CHWEDL 64.—Y DYN DALL A'R CENAW.

Dyn Dall, a arferai, pan roddid rhyw greadur yn ei law, i ddweyd pa beth ydoedd. Ar ryw achlysur, dygwyd Cenaw blaidd atto. Teimlodd ef i gyd drosto; a chan fod yn ammheus, fe ddywedodd, "Nis gwn pa un ai cî, ai blaidd oedd dy dad: ond hyn a wn,—Ni wnawn dy ymddiried yn mhlith deadell o ddefaid."

*Y mae tueddiadau drwg, yn ymddangos yn foreu.—
Ni ddylid ymddiried yn yr hyn sydd debyg i ddrwg.*

CHWEDL 65.—Y TWRCH DAEAR A'I FAM.

"Mam," ebe Twrch Daear ieuange wrth ei Fam, "mi fedraf fi weled." I'r dyben o'i dreio, rhoddodd y Fam ddarn o Thus o'i flaen, ac a ofynodd iddo, pa beth ydoedd. "Careg," meddai y yntau. "O! fy mhlentyn," atebai y Fam, "nid yn unig nid ydych yn gweled, ond nid ydych yn gallu arogli chwaith."

Wrth wadu un diffyg, y mae rhai yn amlygu un arall.

CHWEDL 66.—YR ASYN A'R CEILIOG RHEDYN.

Asyn, wrth glywed y Ceiliogod Rhedyn yn chwiabanu, a fawr foddhawyd gan eu peroriaeth; a chan benderfynu, os gallai, gyrhaedd yr un dawn a hwythau, a ofynodd iddynt, ar ba beth yr ymborthent, fel ag i ganu mor fwyn. Atebasant hwythau, na swperent ar ddim ond y gw lith: a'r Asyn, wrth ymroi i fyw ar yr un lluniaeth, a fu farw o newyn.

Ni wna newid ymborth newid natur. "Y mae yr hyn sydd faeth i un, yn wenwyn i'r llall."

CHWEDL 67.—ERCWLFF A'R GWAGENWR.

Fel yr oedd Gwladwr yn gyru ei wagen yn ddiotal mewn ffordd gul, glynodd yr olwynion mor ddwfn yn y clai, fel nad allai ei geffylau eu tynu oddiyno. Ar hyn, y Gyrwr, heb wneyd un ymdrech ei hun, a ddechreuodd waeddi ar y duw Ercwlff i ddyfod i'w waredu o'i brofedigaeth. Ond parai Ercwlff iddo osod ei ysgwydd at yr olwyn, a sicrhau ef, na wnai y nefoedd ddim helpu y rhai na ymdrechent i helpu eu hunain.

Ofer yw i ni ddisgwyl y caiff ein gweddiau eu gwrando, oni bydd i ni ymdrechgu yn gystal a gweddio.



CHWEDL 68.—Y LLWYNOG A GOLLODD EI GYNFFON.

Llwynog, wedi ei dda! mewn trap, a achubodd ei fywyd, trwy adael ei Gynffon ar ei ol; ond wedi dyfod i blith ei gyfeillion, teimlai y fath gywilydd oblegid hynodrwydd yr anaf oedd arno, nes o'r bron y buasai yn well ganddo fod wedi marw, na dyfod yn rhydd heb ei Gynffon. Ond beth bynag, i wneyd y goreu o'r gwaethaf, efe a alwodd y'nghyd gyfarfod o Llwynogod, ac a gynnygiodd, fod iddynt oll ddilyn ei esiampl ef, "Nis gellwch ddirnad," ebe efe, "gyda'r fath gysur, a rhyddid, yr wyf yn awr yn gallu symud oddiamgylch; nis gallaswn gredu y fath beth, oni bai i mi wneuthur y prawf arnaf fy hun: ond yn wir, erbyn i ni ystyried, y mae Cynffon yn beth morhyll, anhwylyd, a dianghenrhaid, fel mai yr unig syndod yw, ein bod ni, Llwynogod, wedi ei dyoddef cyhyd. Yr wyf fi yn cynnyg, gan hyny, fy anwyl frodyr, fod i chwi oll gymmeryd addysg oddiwrth fy mhrofiad I, a bod i bob Llwynog dori ymaith ei Gynffon, o'r dydd hwn allan." Ar hyn, daeth un o'r Llwynogod hynaf yn mlaen, a dywedodd, "Yr wyf fi braidd yn meddwl, gyfaill, na

CHWEDLAU ÆSOP.

buasech chwi ddim yn ein hannog ni i ymadael â'n Cynffonau, pe buasai rhyw obaith i chwi ennill eich Cynffon eich hun yn ol."

Os nad all dynion o natur basaidd gyrhaedd at ragor-oldeb rhai ereill, hwy a ymdrechant dynu pawb ereill i lawr i'w distadledd eu hunain.

CHWEDL 69.—YR HEN WRAIG A'R MEDDYG

Hen Wraig, yr hon, wedi colli ei golwg, a alwodd Feddyg i mewn, ac a addawodd iddo, o flaen tystion, os byddai iddo adferu ei golwg, y gwnai hi ei wobrwyo yn hardd; ond os na iachai efe hi, na thalai hi ddim iddo. Wedi gwneuthur y cytundeb, esgeulusodd y Meddyg lygaid yr Hên Wraig, er ei fod yn galw, o dro i dro; ac ar yr un pryd, fe gariodd ymaith, yn raddol. ei holl ddodrefn, a'i dâ. O'r diwedd, fe ymosododd atti o ddifrif, ac a adferodd ei golwg; ac yna, fe ofynodd am y wobwr addawedig. Ond yr Hên Wraig, wedi cael ei golwg, a ganfu fod ei holl ddâ wedi diflanu: pan, gan hyny, yr oedd y Meddyg yn gwasgu arni am daliad, hi â'i rhoddai ymaith yn barhaus gydag esgusodion, nes o'r diwedd iddo ei gwasgu hi o flaen y barnwr. Wedi galw arni am ei hamddiffyniad, hi a ddywedodd, "Y mae yr hyn a ddywed y Dyn hwn yn bur wir;—mi a gytunais i'w wobrwyo, os adferai fy ngolwg; ond na thalwn iddo, os parhai fy llygaid yn ddrwg. Yn awr, y mae efe yn dyweyd, fy mod I wedi fy iachau; ond yr wyf fi yn haeru yn hollol i'r gwrthwyneb,—canys pan ddechreuodd fy anhwylder ddyfod arnaf, yr oeddwn yn gweled pob math o ddodrefn, a dâ, yn fy nhŷ; ond yn awr, pan y mae efe yn hòni ei fod wedi adferu fy ngolwg, nid wyf yn gweled dim o'r naill na'r llall."

Rhaid i'r neb a wna gast anonest, ddisgwyl cael goganiad o'i herwydd, o'r hyn lleiaf.



CHWEDL 70.—YR YSGYFARNOGOD A'R LLYFFAINT.

Digwyddodd ar ddiwrnod ystormus, fod llu o Ysgyfarnogod wedi eu hamgylchynu gan elynion ar bob tu; yn eu braw, daethant i'r penderfyniað alaethus, nad oedd dim diangfa iddynt, ac na waeth iddynt wneuthur pen arnynt eu hunain, un ac oll. Ymaith a hwynt at lyn o ddŵr gerllaw, gan fwriadu rhoddi terfyn ar eu trueni mawr trwy hunanfoddiad. Haid o Lyffaint, yn chwareu ar làn y llyn, wedi eu dychrynu gan agoshâd yr Ysgyfarnogod, a neidiasant yn y braw a'r dyryswch mwyaf i'r dwfr, ac a ymguddiasant yn y gwaelod. "Aroswech, fy nghyfeillion," ebe un o'r Ysgyfarnogod blaenaf, "nid yw ein hamgylchiadau ni cynddrwg eto; dyma greaduriaid truenus ereill, mwy diamddiffyn, ac mewn mwy o fraw a thristwech na ninnau."

Gellid casglu gwroldeb, os nid cysur, oddiwrth brofedigaethau ereill. Canys pa faint bynag ein trueni, ni a gawn fod llawer â pha rai ni fynem er dim gyfnewid amgylchiadau.

CHWEDL 71.—Y PYSGOTTWR A'R PYSGODYN
BYCHAN.

Gŵr, yr hwn a ennillai ei fywioliaeth wrth Bysgotta, ar ol diwrnod hir, ni ddaliodd ond un Pysgodyn bychan. "Arbedwch fi," ebe y creadur bychan, "yr wyf yn deisyf arnoch; canys yr wyf mor fychan fel nad wyf yn ddigon i wneyd pryd i chwi. Nid wyf wedi dyfod i'm llawn dŵf eto; teflwch fi yn ol i'r afon am dipyn, ac yna, pan ddelwyf yn fawr, ac yn werth eich sylw, gallwch ddyfod yma a'm dal I eto." "Na, na," atebai y Dyn, "yr ydych yn fy ngafael yn awr; ond os unwaith y cewch y dwfr yn ol, eich cân a fydd, 'Daliwch fi, os medrwech.'"

*Y mae aderyn mewn llaw, yn werth dau mewn llwyn.
Ynfydrwydd yw gollwng gafael ar y sicr, er mwyn yr
ansicr.*

CHWEDL 72.—Y FFERMWWR A'R CHWIBON.

Gosododd Amaethydd rwyd yn ei faes i ddal y garanydd oeddent yn dyfod i ymborthi ar yr ŷd, newydd ei hau. Pan aeth i chwilio y rhwyd, a gweled pa faint o'r adar oedd wedi eu dal, fe gafodd Chwibon yn eu plith. "Arbedwch fi," meddai y Chwibon, "a gadewch i mi fyned yn rhydd. Nid garan ydwyf fi. Ni fwyteais I ddim o'ch ŷd. Chwibon, druan, ddiniwed ydwyf fi, fel y gwelwch:—un o'r moesolaf a ffyddlonaf o adar; yr wyf yn anrhyddeddu ac yn gofalu am fy rhieni, yr wyf——" Ond torodd y Ffermwr ei stori yn fyr, gan ddywedyd, "Gall hyn yna oll fod yn ddigon gwir, am a wn I; ond hyn a wn, mi â'ch deliais chwi gyda y rhai oedd yn dyfetha fy nghnydau, a rhaid i chwi ddyoddef gŵda'r cymdeithion gyda pha rai y'ch cymmerwyd."

*Y mae cymdeithas ddrwg yn llefaru yn uwch na
phroffes dda.*

CHWEDL 73.—YR EPA A'R CAMEL.

Mewn cynnulliad mawr o'r hwystfilod, safodd yr Epa i fynu i ddawnsio, a chan ei fod wedi dangos rhagoriaeth mawr yn hyny, cafodd ganmolïaeth mawr gan bawb oedd yn bresenol. Darfu i hyny ennyn cenfigen yn meddwl y Camel, ac efe a ddaeth yn mlaen i ddawnsio hefyd; ond fe wnaeth ei hun mor wrthun yn ei ymdrechïadau afrosgo, fel yr ymosododd yr holl fwystfilod arno â'u ffyn, ac a'i troisant o'r gymdeithas.

Pob un ei ddawn ei hun. "Na estynwch y fraich, yn mhellach nag y cyrhaedd eich llewis."

CHWEDL 74.—Y MUL.

Mul, neu fel y gelwir ef yn gyffredin Bastardd-ful, yr hwn oedd wedi myned yn dra chalonog, trwy seguryd a gormod o fyd, oedd un diwrnod yn neidio ac yn prancio oddïamgylch; ac yn ei afïaeth, fe waeddodd, gan godi ei gynffon, "Yr oedd fy mam I yn gaseg o waed, ac ennïllodd lawer rhedegfa, ac yr wyf fi cygystal ag y bu hi erïoed." Ond wedi blïno yn fuan yn carlamu ac yn chwareu, fe gofïodd ar unwaith mai Asyn oedd ei dad.

Y mae dwy ochr i bob pwngc; doeth yw edrych ar y ddwy, cyn siarad na gweithredu nemawr.

CHWEDL 75.—Y LLEWES.

Bu dadleuaeth fawr yn mhlith yr holl fwystfilod, pa un a allai ymfïrostïo o'r teulu lluosocaf. O'r diwedd, daethant at y Llewes, "A pha faint," meddent, "sydd genych chwi o rai bychain ar y tro?" "Un," meddai hithau, gyda mawreddigrwydd, "ond y mae yr un hwnw yn Llew."

Ardderchogrwydd o flaen lluosogrwydd.




CHWEDL 76.—Y BWRNIAD O FFYN.

Llafurwr, plant yr hwn oeddynt yn dueddol iawn i anghytuno, wedi treio pob moddion trwy eiriau i'w heddychu, a feddyliodd y gallai lwyddo yn well trwy esiampl. Felly, fe alwodd ei feibion ynghyd, ac a barodd iddynt ddwyn Bwrniad o Ffyn o'i flaen: yna, wedi eu rhwymo yn un sypyn, fe barodd i'r bechgyn, y naill ar ol y llall, ei gymmeryd i fynu a'i dori; treiodd pob un ei oreu, ond yr oedd eu hymdrech yn ofer. Yna, fe ddatododd yr hên wr y Ffagoden, ac a roddodd y Ffyn iddynt i'w tori bob yn un ac un; gwnaethant hyny yn eithaf hawdd. "Fel yna," meddai y Tad, "y byddwch chwi, fy Meibion, os aroswech yn un, yn ddigon i wrthsefyll eich holl eiyinion; ond os bydd i chwi anghytuno ac ymranu chwi a ddinystir."

Mewn undeb mae nerth.





CHWEDL 77.—Y DYN A'R LLEW.

Digwyddodd fod Dyn a Llew yn cyd deithio; a chyfododd dadl boeth rhyngddynt, pa un ai Dyn ai Llew oedd y creadur dewraf a chryfaf; fel yr oeddent yn cyndyn ddadleu, daethant heibio i gerfddelw, ar ymyl y ffordd, o Ddyn yn llindagu Llew. "Edrychwch yna," ebe y Dyn, "pa brawf ychwaneg a fynech na hwnyna o uwchafiaeth y Ddynoliaeth?" "Dyna," atebai y Llew, "eich adroddiad chwi o'r mater: ond gadewch i ni fod yn gerfwyr, ac am un Llew o dan draed Dyn, chwi a gewch ugain o Ddynion o dan balf y Llew."

*Nid oes fawr o ymddiried i ŵr pan yn dysi, neu farn-
wr yn ei achos ei hun. "Diboen i ddyn dybio yn dda."*





CHWEDL 78.—Y FAMMAETH A'R BLAIDD.

Blaidd, yn crwydro oddi amgylch, gan geisio ei ysglyfaeth, a ddigwyddodd fyned heibio i ddrws, lle yr oedd plentyn yn crïo, a'r Fammaeth yn ei ddwr-dio. Safai i wrando, a chlybu y Wraig yn dweyd, "Rho heibio grïo, y funud yma, neu mi â'th daflaf allan i'r Blaidd." Y Blaidd, a ddaliodd ar y gair, ac a arosodd yn llonydd wrth y tŷ hyd yr hwyr, gan ddisgwyl cael swper rhagorol. Ond fel yr oedd yn hwyrâu, fe aeth y plentyn yn ddistaw, ac fe glywodd y Fammaeth, drachefn, yn anwylo y plentyn, ac yn dywedyd, "Dyna blentyn da; os daw y Blaidd drwg yna i ymofyn fy mhlentyn, mi â'i curwn ef i farwolaeth, mi wnawn." Troes y Blaidd tuag adref, yn siomedig a digllawn: ar y ffordd, cyfarfu â Llwynog, yr hwn a'i gwawdiodd, gan ddywedyd, "Dyna ddysgu i chwi ymddiried mewn gair benyw." — Ond ein cymhwysiad ni ydyw,

Nac ymddiriedwch yn ngair y neb a ddywedant un peth, gan feddwl peth arall.

CHWEDL 79.—YR EPA A'R MORHWCH.

Yr oedd yn hen arfer y'mhlith llongwyr, i ddwyn gyda hwynt Gŵn bach, neu Epaod, i'w difyru ar eu mordaith; felly, digwyddodd, ar ryw dro, i forwr gymmeryd Epa gydag ef ar fwrdd y llong. Pan gerllaw Sunicim, pentref enwog Attica, daliwyd y llestr gan ystorm fawr, dymchwelwyd hi, a thaflwyd pawb oddiar y bwrdd i'r môr, ac ymdrechent am y tir goreu y gallent: yn eu plith, yr oedd yr Epa. Môrhwch a'i gwelodd yn yr ymdrech, a chan feddwl mai dyn ydoedd, aeth i'w gynnorthwyo, ac a'i dygodd ar ei gefn yn union tua'r làn. Pangyferbyn â Poracus, porthladd Athen, gofynai y Môrhwch iddo, ai Atheniad oedd ef. "O, ië," ebe yr Epa, "yn ddiau, ac yr wyf o'r teuluoedd parchusaf yn y ddinas." "Felly, chwi a wyddoch yn dda am Poracus, wrth gwrs," meddai y Môrhwch. "O, gwn," atebai yr Epa, gan feddwl mai enw rhyw ddinesydd anrhydeddus ydoedd, "y mae efe yn un o'm cyfeillion penaf." Yn ffeiddio y fath dwyll a chelwydd. nafiodd y Môrhwch i'r gwaelod yn y fan, gan adael yr Epa celwyddog i'w dynged.

*Y mae balchder ffol yn arwain llawer un i benbleth;
ac y mae celwydd yn dir tra pheryglus.*





CHWEDL 80.—Y MARCH A'R CARW.

Yr oedd Ceffyl mewn gweirglodd, ac yn dymuno ei chael oll iddo ei hun, yn cael ei flino gan Garw, ac nis gallai ei gyru ymaith, oblegid yr oedd y Carw a'i gyrrn geirwon yn gallu ei herio. Yn ei gyfyngder, erfyniodd y March ar ryw ddyn i'w gynnorthwyo i ymlid y Carw ymaith. "O'r goreu," ebe y dyn, "gadewch i mi roddi ffrwyn yn eich genau, a chyfrwy ar eich cefn, ac ni a wnawn yn burion ag ef." Cytunodd y March, ac aeth y dyn ar ei gefn, ac ymlidiwyd y Carw ymaith. Ond siomwyd y March yn fawr, pan aeth i ddiolch i'r dyn, a ffarwelio ag ef, y dywedodd yr olaf, "Na, ni wyddwn I o'r blaen eich bod yn greadur mor ddefnyddiol; gan fy mod wedi deali hyn, bellach, mi â'ch cadwaf at fy ngwasanaeth."

Mae yn bossibl prynu dial yn rhy ddrrud. Gwell yw ychydig dlodi gyda rhyddid ac annibyniaeth, na llawnder gyda chaethiwed.

CHWEDLAU ÆSOP.

CHWEDL 81.—Y BLAIDD A'R DEFAID.

Blaidd, wedi ei frathu gan Gî, fel yr oedd mewn mawr boen, ac yn analluog i symud, a alwodd ar Ddafad, yr hon oedd yn pasio heibio, ac a ddeisyfodd arni gyrchu ychydig ddwfr iddo, o ffrŵd oedd gerllaw, "Canys," meddai, "os dygwch chwi ddiod i mi, mi a chwiliaf am fwyd fy hun." "O, gwnewch, yn ddiammeu," atebai y Ddafad, "canys os deuaf yn ddigon agos i ddwyn diod i chwi, chwi a wnewch fwyd o honof fi."

"Os na byddi gryf, bydd gyfrwys."

CHWEDL 82.—Y WEDDW A'R DDAFAD.

Yr oedd gan ryw Wraig Weddw un Ddafad, a chan ddymuno gwneyd y goreu o'i gwlan, fe'i cneifiodd mor llwyr, fel ag i dori y croen yn gystal a'r enu. Y Ddafad, yn boenus gan y driniaeth, a waeddodd allan, "Paham yr ydych yn fy nolurio fel hyn? Pa faint a chwanega fy ngwaed I at bwysau y gwlan? Os mynech fy nghnawd, meistres, anfonwch am y cigydd, yr hwn a'm rhyddhâ allan o fy mhoen ar unwaith; ond os fy ngwlan a fynech, anfonwch am y cneifiwr, yr hwn a gneifia fy ngwlan heb dynu fy nghwaed."

Pob un at ei alwedigaeth ei hun sydd oreu.

CHWEDL 83.—Y CÎ A'I FEISTR.

Fel yr oedd rhyw Wr ar gychwyn i daith, fe sylwodd ar ei Gi, yn sefyll wrth y drws, ac a ddywedodd wrtho, "Paham yr ydych yn ystwyrian yna? Ceisiwch eich hun yn barod i fyned gyda mi." Y Cî, gan ysgwyd ei gynffon, a atebodd, "Yr wyf fi yn hollol barod, Meistr; y chwi sydd raid hwylio a thaelu."

Mae baich y tlawd yn hawdd ei drefnu.



CHWEDL 84.—Y CI SARUG.

Yr oedd Cî mor flin a pheryglus, fel yr oedd ei feistr yn gorfod rhoi cadwen am ei wddf a phwysau wrth ei phen, i'w attal i ruthro i, a brathu y cymmydogion. Y Cî, yn lle cywilyddio, a ymfrostiodd yn ei lyffethair, ac a gerddodd trwy'r heol, gan ysgwyd ei gadwen i alw sylw pawb atto. Ond rhyw gyfaill cyfrwys a ddywedodd wrtho,—
 “Goreu po lleiaf o sŵn a wneloch; canys nid gwobr am deilyngdod yw eich cadwen, ond arwydd o warth.”

Mae rhai mor hoff o hynodrwydd, fel mai gwell ganddynt fod yn hynod am eu beiau a'u ffoleddau, na bod yn hollol ddisylw o honynt.





CHWEDL 85.—YR ADARWR A'R EHEDYDD.

Fel yr oedd Adarwr yn gosod ei rwydi ar faes; Ehedydd, wrth sylwi arno o bell, a ofynodd iddo, pa beth yr oedd yn ei wneuthur. "Yr wyf yn sefydlu trefedigaeth," ebe yntau, "ac yn gosod sylfaeni fy ninas gyntaf." Ar hyny, ciliodd y Dyn o'r naill du, ac â ymguddiodd: yr Ehedydd, gan goelio ei ymadrodd, a ehedodd i lawr i'r fan, a chan lyngcu yr abwyd, a gafodd ei hun yn y fagl. Gyda hyny, daeth yr Adarwr i fynu, ac a'i cymmerodd yn garcharor. "Wel, gwalch rhyfedd ydych chwi," ebe yr Ehedydd, "os dyma y trefedigaethau yr yr ydych yn eu sefydlu, ni chewch fawr o ymfudwyr."

Y mae y diniwed yn rhy barod i gredu pob chwedl; a'r ffol ni egyr ei lygaid nes yn y rhwyd.





CHWEDL 86.—Y WENOL A'R GIGFRAN.

Bu dadl rhwng y Wenol a'r Gigfran, pa un o'r ddau oedd yr aderyn ardderchoccaf; diweddodd y Gigfran y ddadl, trwy ddywedyd, "Nid yw eich harddwch chwi ond am yr hâf, tra y pery yr eiddof fi trwy lawer gauaf."

*Dyna'r harddwch goreu, yr hwn a saif bob tywydd.
Mae parhâd yn well na gwychedr.*





CHWEDL 87.—Y GANWYLL FFYRLING.

Canwyll Ffyrling, yr hon oedd wedi tyfu yn dew ac yn drahaus-falch gan ormod o frasier, a ymffrostiodd un noswaith, o flaen cwmni mawr, ei bod hi yn goleuo mwy na'r haul, a'r lleuad, a'r holl sêr i gyd: yn y funud hono, daeth pwff o wynt ac a'i diffoddodd. Rhywun gerllaw, a'i goleuodd drachefn, gan ddywedyd, "Disgleiria y'mlaen, Ganwyll fechan; ond attal dy dafod,—nid yw goleuadau y nefoedd byth yn cael eu diffoddi."

Mae methiant y ffrostgar yn ddirmygus. Caiff y lleiaf ei ddawn barch a chydymdeimlad, os bydd yn ostyngedig.





CHWEDL 88.—Y BUGAIL A'R TARW COLLEDIG.

Bugail Gwartheg, wedi colli Tarw, a aeth ar grwydr trwy yr anialwch, gan chwilio am dano. Wedi methu llwyddo, fe ddechreuodd addunedu i holl dduwiesau y goedwig a'r mynydd, ac hefyd i Ercwlff a Iau, yr offrymai oen iddynt, os dangosent iddo y lleidr. Gyda hyny, wrth groesi codiad yn y tir, fe ganfu lew gerllaw, yn sefyll uwch ben celain ei Darw prydferth. Erbyn hyn, dechreuodd y Dyn brawychedig addunedu yr offrymai y Tarw hefyd, os cai ef ond ei waredu o balfau y lleidr."

Pe caniateid ein gweddïau annoeth ni bob amser, fe ddygid llawer i ddinyst trwy eu dymuniad eu hunain.





CHWEDL 89.—Y DYN A FRATHWYD GAN GÎ

Dyn wedi ei Frathu gan Gî, a aeth oddi amgylch, gan ofyn pwy ai hiachâai. Rhyw ŵr a'i cyfarfu, a ddywedodd wrtho, "Syr, os mynech gael eich hiachau, cymmerwch damaid o fara, a gwlychwch ef yn y gwaed o'r briw, a rhoddwch ef i'r Cî â'ch brathodd." Chwarddai y Dyn ar hyn, ac atebai, "Pe dilynwn eich cyngor chwi mi gawn fy mrathu gan holl Gŵn y ddinas."

Pwy bynag a amlyga baroddrwydd i brynu i fynu neu lwgrwobrwyd ei elynion, ni bydd byth heb ddigon o honynt.





CHWEDL 90.—Y TEITHWYR A'R BLANWYDDEN.

Teithwyr, ar ddiwrnod poeth yn yr hâf, wedi eu llethu gan wres yr haul ganol dydd, yn canfod Planwydden gerllaw, a aethant atti, a chan ymdaflu ar y ddaear, a orphwysasant dan ei chysgod. Gan edrych i fynu, fel y gorweddent, tua'r pren, dywedent wrth eu gilydd, "Y fath bren difudd i Ddyn yw y Blanwydden ddiffrwyth hon!" Ond atebai y Blanwydden hwynt, "Greaduriaid anniolchgar! Yn yr un funud ag yr ydych yn derbyn lles oddiwrthyf, yr ydych yn fy nifrio, gan ddywedyd nad ydwyf yn dda i ddim."

Y mae anniolchgarwch yn fynych mor ddall ac ydyw o ffaidd.






CHWEDL 91.—Y DDERWEN A'R GORSEN.

Derwen, wedi eu diwreiddio gan y gwyntoedd, a gariwyd i lawr ffrwd yr afon, ar ymyl yr hon yr oedd llawer o Gyrs yn tyfu. Synai y Dderwen fod pethau mor wael a gwan wedi gallu sefyll yr ystorm, pan yr oedd pren mawr a chryf, fel efe, wedi ei ddiwreiddio. “Na ryfeddwch ddim,” ebe y Gorsen, “dymchwelwyd chwi trwy wrthsefyll y dymhestl; ond achubwyd ni, trwy ein bod yn ildio ac yn plygu o flaen pob awel.”

Mewn amgylchiadau pan y mae yn anmhossibl gorchfygu, y mae plygu ac ymostwng yn amyneddgar yn un o wersi goreu bywyd.





CHWEDL 92.—Y WIBER A'R DDURLIF.

Gwiber, wedi myned i mewn i siop gôf, a ddechreuodd edrych oddi amgylch am rywbeth i'w fwyta; o'r diwedd, gwelodd Ddurlif, ac aeth atti, a dechreuodd ei chnoi. Ond y Ddurlif a'i cynghorodd i'w gadael yn llonydd, gan ddywedyd, "Nid ydych yn debyg o gael ond ychydig genyf fi, gwaith yr hon yw brathu ereill."

Cenfigen a malais, yn hytrach na pheidio brathu oll, yn fynych a ymesyd lle nad all niweidio neb ond ei hunan.





CHWEDL 93.—MERCHER A'R COEDIWR.

Coediwr, yn taflu coed ar làn afon, yn ddamweiniol a ollyngodd ei fwyall i lawr i'r dwfr, lle y suddodd yn union i'r gwaelod. Mewn gofid mawr am ei golled, eisteddodd y Dyn ar làn yr afon, yn wylo yn chwerw oblegid ei golled. Ond y duw Mercher, perchenog yr afon, gan gymmeryd trugaredd arno, a ymddangosodd yn ddioed o'i flaen, ac wedi clywed ganddo yr achos o'i ofid, efe a ymsuddodd i waelod yr afon, a chan ddwyn i fynu fwyall aur, efe a ofynodd i'r Coediwr, ai dyna ei fwyall ef; ar waith y Dyn yn dyweyd mai nadê, ymsuddodd Mercher yr ail waith, a dygodd i fynu fwyall o arian; drachefn, dywedodd y Dyn mai nid honyna oedd ei fwyall ef, felly, wedi ymsuddo y drydedd waith, fe ddygodd i fynu y fwyall a gollodd y Dyn ei hun. "Dyna yr eiddof fi," meddai y Coediwr, mewn mawr lawenydd oblegid cael ei fwyall yn ol; ac yr oedd Mercher wedi ei foddhau gymmaint yn ngonestrwydd a didwylldra y Dyn, fel yr anrhegodd ef a'r ddwy fwyall arall hefyd. Aeth y Dyn, ac a fynegodd i'w gyfeill-

ion yr hyn a ddigwyddasai; ac un o honynt a benderfynodd dreio pa un a allai yntau gael yr un ffawd dda. Felly, fe aeth i'r un fan, a chan gymmeryd arno dori coed, fe ollyngodd ei fwyall, yn fwriadol, i'r afon, ac yna a eisteddodd ar y làn, ac a wnaeth ymddangosiad o alar a wylo mawr. Ymddangosodd Merched, fel o'r blaen, ac wedi cael rhoi ar ddeall iddo, mai oblegid colli ei fwyall yr oedd yn wylo, fe ymsuddodd unwaith eto i'r ffrwd, a chan ddwyn i fynu fwyall aur, gofynodd i'r Dyn ai hono a gollodd, "Ië, yn wir," ebe'r Dyn yn awyddus; ac yr oedd ar afaelyd yn y trysor, pan y darfu i Mercher, i gospi ei wynebgaledwch a'i dwyll, nid yn unig wrthod rhoi hono iddo, ond gommedd hefyd estyn ei fwyall ef ei hun.

Gonestrwydd a dâl oreu yn y pen draw.

CHWEDL 94.—Y BLEIDDIAID A'R DEFAID.

Anfonodd y Bleiddiaid genad at y Defaid, yn cynnyg ar fod i heddwch gael ei sefydlu rhyngddynt o hyny allan, "Paham," meddynt, "y byddwn fel hyn bob amser mewn gelyniaeth marwol? Y cŵn yna sydd gyda chwi yw yr achos o'r cwbl; y maent yn barhaus yn ein cyfarth, ac yn ein cyffroi. Anfonwch hwynt ymaith, ac yna ni bydd un rhwystr i ni fod mewn heddwch a chyfeillgarwch bythol." Cydunodd y Defaid gwirion; anfonasant y cŵn ymaith: a'r praid, wedi colli eu hamddiffynwyr ffyddlon, a syrthiasant yn ysglyfaeth hawdd i'r gelyn twyllodrus.

Gwaith ffol i'w rhoi i fynu ein holl amddiffyn er mwyn heddwch, yn enwedig a rhai o garactar drwg: neu aberthu cyfeillion i ddyhuddo gelynion.



CHWEDL 95.—Y LLWYNOG A'R GRAWNWIN.

DIGWYDDODD i Lwynog grwydro ar ei raib, yn amser cynhauaf y Grawnwin, i mewn i winllan lle yr oedd y sypiau Grawnwin aeddfed yn hongian ar y cangau. Yr oedd yr olwg arnynt mor ddanteithol nes yr oedd y Llwynog yn llawn o flŷs angerddol am eu mwynhau; ond yr oeddynt yn crogi mor uchel fel nad allai, er ei holl ymdrechadau, ddim cyrhaedd gafael ar un o honynt. Wedi ymdrechu, a neidio, a neidio i fynu drachefn a thrachefn, nes llwyr flino, a gweled nas gallai lwyddo i gael eu profi, torodd ei galon, a chiliodd ymaith gan ymson ynddo ei hun, "Pw! ni waeth pwy a'u caffo, Grawnwin surion ydynt."

CYMHWYSIAD. *Mor ffol ydyw i neb i ddibrisio cyrhaeddiadau a thrugareddau gwir werthfawr, yn unig oblegid eu bod hwy wedi methu cael gafael arnynt.*

CHWEDL 96.—YR ERYR A'R SAETH.

Annelodd Saethwr at Eryr, ac a'i tarawodd yn ei galon. Fel y trodd yr Eryr ei ben, fe ganfyddodd fod y Saeth wedi ei gwisgo a'i blu ef ei hun. "Cym-maint llymach," ebe fe, "ydynt y briwiau a wneir gan arfau a barotowyd genym ni ein hunain."

Hunan-gondemniad yw y chwerwaf o bob condemn-iad.

CHWEDL 97.—Y CI YN Y PRESEB.

Yr oedd Cî wedi gwneyd ei wely mewn Preseb, a chwyrnai a dangosai ei ddannedd, gan gadw y Ceffylau oddiwrth eu hymborth. "Wele," meddai un o honynt, "y fath adyn truenus! nad all ef ddim bwyta yd ei hun, ac ni âd i'r neb a all, ei fwyta ychwaith.

Nid oes dim mor afresymol â chenfigen y diddawn.

CHWEDL 98.—Y GWYBEDYN A'R YCH.

Gwybedyn, wedi bod yn ehedeg oddi amgylch i ben Tarw, o'r diwedd a ddisgynodd ar ei gorn, ond ar yr un pryd, a erfyniodd ei faddeuant am ei flino; "ond," meddai, "os yw fy mhwysau yn eich poeni, yn y gradd lleiaf, dywedwch y gair, a mi a âf ymaith yn y fan." "O, na flinwch eich pen am hyny," atebai y Tarw, "canys nid yw ond yr un peth i mi pa un ai a arosych, neu'r ehedwch ymaith; ac i ddyweyd y gwir, ni wyddwn I ddim eich bod chwi yna."

Po lleiaf y meddwl, mwyaf yr huron.



CHWEDL 99.—IAU, NEPTUNE, MINERVA, A MOMUS.

Y duwiau uchod (medd y chwedl), unwaith a aethant i ddadl, pa un o honynt a allai wneuthur y peth mwyaf perffaith. Gwnaeth Iau, Ddyn; gwnaeth Pallas, Dŷ; a gwnaeth Neptune, Darw; a dewiswyd Momus i farnu pa un oedd y mwyaf perffaith. Dechreuodd, trwy feio ar y Tarw, oblegid nad oedd ei gyrn yn îs na'i lygaid, fel y gallai weled pan yn cornio â hwynt. Yn nesaf, beiai ar y Dyn, oblegid nad oedd ffenestr yn ei fynwes, fel y gallai pawb weled ei feddyliau, a'i deimladau dirgel. Yn olaf, beiai ar y Tŷ, am nad oedd olwynion o dano, i alluogi y trigolion i symud ymaith oddi wrth gymmydogion drwg. Ar hyn, troes Iau y Beirniad ar unwaith allan o'r nef-oedd, gan ddyweyd wrtho, nad allai y neb oedd yn chwilio am feiau byth gael ei foddhau: a bod yn

Ddigon buan iddo feio ar ereill, pan y gwnai rhyw waith perffaith ei hunan.



CHWEDL 100 —Y LLEIDR A'I FAM

Dygodd Bachgen Bach lyfr corn oddiar un o'i gydysgoleigion, a dygodd ef adref i'w Fam. Yn lle ei geryddu, hi, yn hytrach, a'i canmolodd oblegid y weithred. Yn mhen blynnyddau y Bachgen, wedi tyfu yn Ddyn, a ddechreuodd ddwyn pethau o fwy gwerth; ac o'r diwedd, wedi ei ddal yn y weithred, a gymmerwyd yn rhwym, ac a'i bwriwyd i'w ddiennyddio. Canfyddodd ei Fam yn dilyn yn y dyrfa, yn wylo, ac yn curo ei dwyfron; gofynodd i'r swyddogion am ganiatâd i siarad un gair yn ei chlust. Pan y daeth yn agos atto, a rhoddi ei chlust at enau ei Mab, efe a gydiodd ynddi yn dŷn â'i ddannedd, ac a'i brathodd ymaith. Ar hyn, y Fam a waeddodd allan; a'r dyrfa a unasant a hi i gondemnio y Mab annaturiol, fel na buasai ei weithredoedd drwg blaenorol yn ddigon, ond rhaid i'w weithred olaf fod yn weithred o greulondeb anfad tuag at ei Fam ei hun. Ond efe a ddywedodd, "Hi yw yr achos o'm dinystr: canys os, pan ddygais I y llyfr corn oddiar fy nghyd-ysgolhaig, ac y dygais iddi hi, y curasai hi fi yn dda, ni

buaswn byth wedi cynnyddu mewn drygionî, nes dyfod i'r diwedd anamserol hwn."


Rhaid lladd drwg yn yr eginyn. Arbed y wialen yw andwyo y plentyn.

CHWEDL 101 —PRIODAS YR HAUL.

Digwyddodd unwaith, mewn hâf pur boeth, i'r chwedl fyned allan fod yr Haul yn myned i'w Briodi. Yr oedd yr holl adar a'r bwystfilod yn llawenhau yn fawr am hyn; a'r llyffaint yn enwedigol, a benderfynent gael gwyl, a gwledd iawn ar yr achlysur. Ond rhoddodd rhyw hên lyffant du dâw ar eu llawenydd, trwy sylwi, mai achos o alar, yn hytrach nag o lawenydd ydoedd, "Canys," meddai, "os ydyw yr un Haul yn awr yn sychu y corsydd i fynu, fel nas gallwn ond prin ei ddyoddef; pa beth ddaw o honom os daw iddo hanner dwsin o Heuliau bach yn ychwanegol?"

Cyn llawenhau llawer oblegid unrhyw ddigwyddiad, doeth yw ystyried pa beth fydd y canlyniadau.





CHWEDL 102.—Y GATH A'R LLYGOD.

Câth, wedi myned yn wan, trwy henaint, ac yn analluog i ddal Llygod fel y byddai yn arfer, a fyfyr-iodd pa fodd y gallai eu hudo o fewn cyrhaedd ei phalfau. Gan feddwl y gallai basio ei hun am gŵd, neu Gath farw, beth bynag, hi a grogodd ei hun wrth ei thraed ôl oddiar fâch, gan feddwl na phetrusai y Llygod ddyfod yn ddigon agos atti. Hên Lygoden, oedd yn ddigon call i gadw o'i chyrhaedd, a ddywedai wrth gyfaill, "Mi a welais lawer cŵd yn fy oes, ond erioed un a phen Câth, o'r blaen." "Crogwch yna, Meistres bach," meddai y llall, "cyhyd ag y myn-och; ond ni ymddiriedwn i fy hun yn eich cyrhaedd, pe baech wedi eich hystwffio â gwellt."

Ni ymddiried y call yn fuan i'r neb a'i twyllodd un-waith. Ni ddelir hên adar â manus.

CHWEDL 103.—Y LLEW A'I DRI CHYNGHORWR.

Galwodd y Llew ar y Ddafad, a gofynodd iddi, a oedd ei anadl yn drewi; atebodd hithau, “ydyw,” ac efe a frathodd ei phen ymaith, am ffwl. Yna, galwodd y Blaidd, a gofynodd iddo ef, ac efe a ddywedodd, “Nac ydyw,” ac efe a'i llarpiodd ef yn ddarnau, am wênieithio. O'r diwedd, galwodd ar y Llwynog, a gofynodd iddo yntau, “Yn wir,” meddai, “yr oedd anwyd mawr arno, ac nis gallai ddywedyd.”

Tâw pïau hi mewn amseroedd enbyd.

CHWEDL 104.—Y FORWYN A'I PHISER LLAETH.

Fel yr oedd Llangoes yn cerdded gyda Phiser Llaeth ar ei phen, hi a ddechreuodd fyfyrion fel y canlyn:—“Gwna yr arian a dderbyniaf am y llaeth hwn fy ngalluogi i chwanegu fy ystôr o wyau i dri chant,—gwna yr wyau, ar ol pob colled, roddi o'r hyn lleiaf ddau cant a hanner o gywion. Bydd y cywion yn barod i'w cario i'r farchnad yn gymhwys yn yr amser pan y bydd cywion bob amser yn ddrudion; felly, erbyn dydd Calan, nis gall na bydd genyf ddigon o arian i brynu gŵn newydd. Gadewch weled, gwyrdd sydd yn gweddu i mi oreu, i'e, gwyrdd, a dyna gaiff y gŵn newydd fod; yn y gŵn hon mi âf i'r ffair, a bydd yr holl langciau ieuainge yn ymryson am fy nghyfeillach; ond, na, mi wrthodaf bob un o honynt, a chydag amnaid gwawdus o'm pen mi a droaf oddi wrthynt.” Yn llawn o'r meddwl hwn, nid allai lai na chrymu ei phen yn unol â'r meddwl oedd yn pasio o'i mewn; pan, och! i lawr y daeth y Piser Llaeth! a diflanodd ei holl ragolygon dedwydd yn y funud!

Gwaith ofer a pheryglus ydyw cyfrif y cywion yn y cibau, neu adeiladu cestyll yn yr awyr.

CHWEDL 105.—YR YCHAIN A'R CIGYDDION.


Yr Ychain, ar ryw dro, a benderfynasant wneuthur pen ar y Cigyddion, pa rai yr oedd eu holl fedr wedi ei gyflwyno i'w dyfetha hwy. Felly fe ymgynnullasant yn nghyd, ac yr oeddent eisioes yn parottoi eu cynn i'r ymladdfa, pan y dywedodd Hen Ych oedd wedi gweithio am dymhor maith wrth yr aradr wrthynt, "Cymerwch bwyll, fy nghyfeillion, ac ystyriwch pa beth yr ydych ar fedre i wneyd. Y mae y dynion hyn, o'r hyn lleiaf, yn ein lladd gyda medrusrwydd, ac yn daclus; ond os disgynwn i ddwylaw bonglerwyr, yn lle Cigyddion, ni a oddefwn farwolaeth ddwbl: canys gellwch fod yn sicr, nid â dynion ddim yn mlaen heb gig, hyd yn nod pe byddai raid iddynt fyned heb Gigyddion."

Gwell ydyw dyoddef y drwg a wyddom, nac anturio y drwg nas gwyddom.

CHWEDL 106.—Y FFERMWYR A'R GARANOD.

Haid o Aranod a ddisgynasant ar faes, yr hwn yr oedd Ffermwr newydd ei hau. Am beth amser, dychrynodd y Ffermwr hwynt ymaith trwy ysgwyd ffon-dafl wâg arnynt; ond pan ddeallodd yr Adar maicuro'r gwyntâ ffon-dafl wâg yr oedd, ni ddychrynent mwy, ac ni ehedent ymaith:—ar hyn, fe daflodd y Ffermwr gerig mewn gwirionedd attynt, ac a laddodd lawer o honynt. "Gadewch i ni fyned," ebe y gweddill, "i ryw faes arall, canys nid yw y gŵr hwn am ein bygwth yn hwy, ond y mae am ein difetha mewn gwirionedd."

Pan ddiystyrir rhybudd, y mae yn rhaid taro.




CHWEDL 107.—Y MEDDYG A'R CLAF.

Yr oedd Meddyg wedi bod am gryn amser yn edrych ar ôl Dyn Claf, yr hwn, o'r diwedd, a fu farw dan ei ddwyllaw. Yn yr angladd, aeth y Meddyg at y naill a'r llall o'r perthynasau, gan ddywedyd, "Druan o'n Cyfaill yma; pe buasai wedi ymgadw oddiwrth ddioddydd, ac edrych at ei gyfansoddiad, a defnyddio gofal priodol, ni buasai yn gorwedd yna." Atebai un o'r galarwyr, "Anwyl Syr, gwaith ofer yw i chwi ddyweyd peth fel yna yn awr; dylasech roddi y cynghorion yna pan yr oedd y Claf yn fyw i'w derbyn."

Gall y cynghorion goreu ddyfod yn rhy ddiweddar. Gwaith ofer yw cau yr ystabl, ar ol i'r march gael ei ddwyn.





CHWEDL 108.—Y LLYGOD MEWN YMGYNGHORFA.

Digwyddodd fod y Llygod mewn blinder mawr o herwydd erledigaeth y Gâth ; a hwy a benderfynasant alw Cyfarfod i lunio y moddion tebyccaf i gael gwar-edigaeth o'r brofedigaeth barhaus. Cynnygiwyd â gwrthodwyd llawer o fesurau : o'r diwedd, cododd Llygoden ieuange, ac a gynnygiodd, Fod cloch i gael ei chrogi am wddf y Gâth, fel y gallent, o hyny allan, gael rhybudd prydlawn o'i dynesiad, ac felly, gael amser i ddiange. Derbyniwyd y cynnygiad hwn gyda'r cymmeradwyaeth mwyaf, a phasiwyd ef yn unfrydol. Ar hyn, cododd hên Lygoden i fynu, oedd wedi bod yn ddistaw hyd yn hyn, a sylwodd fod y cynllun yna yn dra chywrain, ac y byddai yn ddiau yn hollol effeithiol ; ond nid oedd ganddo ond un cwestiwn bychan i'w ofyn, sef, Pa un o honynt oedd i grogi y gloch am wddf y Gâth ?

Un peth yw cynllunio, peth arall yw cyflawni. Mae doethineb cynllun yn ymddibynu ar ei fod yn alluadwy.



CHWEDL 109.—Y LLEW A'R AFR.

Ar ddiwrnod tèsog o hâf, pan yr oedd pob peth yn dyoddef gan y gwrês mawr, daeth Llew a Gafr ar unwaith i dori eu syched at ffynnon fechan o ddwfr. Dechreusant yn ddioed ymrafaelio, pa un a gai yfed gyntaf, nes o'r diwedd yr ymddangosent fel yn barod i ymdrech hyd at farw am y flaenoriaeth. Ond wrth iddynt orphwys am foment i gael anadl, gwelsant haid o fwlturiaid yn hofran uwch ben iddynt, yn barod i ddisgyn yn union ar pa un bynag o honynt a leddid. Ar hyny, gwnaethant eu cweryl i fynu yn ddioed, gan farnu mai gwell iddynt ill dau ddyfod yn gyfeillion, na myned yn ysglyfaeth i frain a fwlturiaid.

Byddai llai o ryfela, pe iawn ystyrid y canlyniadau.





CHWEDL 110.—YR WYDD A'R WYAU AUR.

Digwyddodd fod gan rhyw ŵr ffodus Wydd, yr hon a ddodwyai iddo Wy Aur bob dydd. Ond, gan anfoddloni i dderbyn cyfoeth mor araf, a chan feddwl meddiannu yr holl drysor ar unwaith, fe laddodd yr Wydd; ac wedi ei hagog, fe'i cafodd oddifewn yn union yr un fath â rhyw Wydd arall.

Llawer a fyn fwy, ac a gyll y cwbl. Na fydd rŷ brysur i ymglyfoethogi.

CHWEDL 111—Y POMGRANAD, YR AFAL, A'R FIEREN.

Yr oedd y Pomgranad a'r Afal yn ymrafaelio, pa un o honynt oedd y prydferthaf. Pan aeth eu geiriau yn bur uchel, a'r cweryl yn myned yn boeth, Mieren a estynai ei phen allan o dwmpath gerllaw, ac a ddywedodd, "Yr ydym wedi dadleu digon o hyd: na fydded dim eiddigedd rhyngom ni mwy."

Y mwyaf distadl ydynt yn fynych y mwyaf hunandibus.



CHWEDL 112.—Y CI A WAHODDWDYD I SWPER.

Gwr bonheddig, wedi parottoi gwledd fawr, a wahoddodd ei gyfaill i Swper; a Chî y gwr bonheddig, yn digwydd cyfarfod â Chî y Cyfaill, a'i gwahoddai yntau. "Dowch, fy nghyfaill," eb efe, "a swperwch gyda ni heno." Derbyniodd y Ci y gwahoddiad gyda'r llawenydd mwyaf; ac fel y safai gerllaw, gan sylwi ar y parottoadau i'r wledd, efe a ddywedodd ynddo ei hun, "Rhagorol! yn wir; yn sicr, dyma hap ddâ i mi. Mi a wnaif gyfiawnder a'r danteithion hyn: mi a gynímeraf ofal i fwyta digon heno, rhag ofn na châf ddim bwyd yforu." Fel yr aeth y pethau hyn trwy ei feddwl, ysgydwai ei gynffon, a thasflai edrychiad cyfrwysgu at ei gyfaill, yr hwn a'i gwahoddasai. Ond darfu i ysgydwad ei gynffon alw sylw y cogydd atto; a hwnw, wrth ganfod ei fod yn Gî dieithr, a'i cymmerodd gerfydd ei goesau yn ddioed, ac a'i taslodd trwy'r ffenestr allan. Pan gyrhaeddodd y ddaear, rhedodd ymaith gan udc i lawr yr heol. Ar hyny, rhedai rhai o Gŵn y cymmylogion atto, a gofynasant iddo, Pa fodd yr oedd wedi mwynhau ei Swper?

“Yn wir,” ebe yntau, gyda gwên ammheus, “nis gallaf prin ddyweyd, canys ni a yfasom mor drwm, fel mai prin y gallaf fi ddyweyd pa fodd y daethum allan o'r tŷ!”

Rhaid i'r rhai a lechiant i mewn trwy'r drws cefn, ddisgwyl cael eu taflu allan trwy'r ffenestr.—Ysbryd cïaidd yw gwawdio yr anffortunus.

CHWEDL 113.—Y BUGAIL A'R GEIFR.

Ar ddiwrnod dryghinog, a'r eira yn disgyn yn drwm, gyrai Bugail ei Eifr, yn wyn gan eira, i gysgodle yn yr anialwch; ond cafodd fod yno ddë-adell o Eifr gwylltion, mwy lluosog, a chryfach na'r eiddo ef, eisoes wedi cymmeryd meddiant o'r lle. Felly, gan feddwl sicrhau y cwbl iddo ei hun, fe adawodd ei Eifr ei hun i ymdarawo goreu y gallent, ac a dafodd yr ymborth a ddygasai ar eu cyfer hwy, o flaen y Geifr gwylltion. Ond pan aeth yr hîn galed heibio, fe gafodd fod ei Eifr ef oll wedi trengu o newyn, tra yr oedd y Geifr gwylltion wedi diange ymaith i'r brynïau a'r coedydd. Dychwelodd y Bugail adref yn destyn gwawd ei gymmydogion,—wedi methu dal y Geifr gwylltion, ac wedi colli yr eiddo ei hun.

Y rhai a esgeulusant hên gyfeillion er mwyn rhai newyddion, ni theilyngant gydymdeimlad os collant yr hên a'r newydd.





CHWEDL 114.—Y PYSGOTTWR.

Aeth Pysgottwr at yr afon i bysgotta, ac wedi taenu ei rwydau ar draws y ffrwd, rhwymodd garreg wrth ben cortyn hîr, a dechreuodd guro y dwfr o bob tu y rhwyd, i yru y pysgod i mewn iddi. Un o'r cymydogion oedd yn byw gerllaw, wrth weled hyn, a aeth atto, ac a'i beiodd yn fawr am gynhyrfu y dwfr, a'i wneyd mor llwyd fel nad oedd yn gymhwys i'w yfed. "Y mae yn ddrwg genyf," meddai y Pysgottwr, "fod fy ngwaith yn eich anfoddloni, ond trwy gynhyrfu y dyfroedd fel hyn yr wyf fi yn ennill fy mywioliaeth."

Nid yw y trachwantus yn meddwl am golled neb, ond iddo ef ennill.

CHWEDL 115.—Y LLYFFAINT YN DEISYF AM FRENIN.

Yn y dyddiau gynt, yr oedd y Llyffaint oll yn mwynhau eu rhyddid yn y llynoedd, ond blinasant ar eu hannibyniaeth, gan feddwl ei fod yn arwain i benrhyddid; felly, ymgynnullasant ynghyd ryw ddiwrnod, a chyd-erfyniasant yn daer ar lau, i rod-di.

iddynt Frenin, i'w cadw mewn gwell trefn, ac i beri iddynt fyw yn fwy gonest. Iau, yn canfod balchder eu calonau, a wenodd ar eu deisyfiad, ac a daflodd ddarn o bren i ganol y llyn, gan ddywedyd, "Dyna i chwi Frenin." Darfu i ddisgyniad y pren yn ddisymwth i'r dwfr, gan y cynhwrf a'r sŵn a wnaeth, daflu yr holl gyfundeb o Lyffaint i'r braw a'r syndod mwyaf,—ffoisant i waelod y llyn, gan ymguddio yn y llaid, ac ni feiddient ddyfod o fewn hŷd deg naid i'r fan yr oedd y pren yn gorwedd. O'r diwedd, un Llyffant, mwy dewr na'r lleill, a fentrodd godi ei ben uwchlaw y dŵr, a chymmeryd golwg o bell ar y Brenin newydd. Bob yn ychydig, wrth weled fod y pren yn gorwedd mor llonydd, dechreuodd ereill nosio atto, ac o'i amgylch; a chan dd'od yn hyfach, hyfach, hwy, o'r diwedd, a neidiasant arno, ac a'i trinent gyda'r dirmyg mwyaf. Yn anfoddlawn ar Lywodraethwr mor ddiniweid, hwy a erfyniasant yn unfrydol eilwaith ar Iau, i rodidi iddynt Frenin arall, a mwy galluog. Ar hyn, fe anfonodd Iau yr aderyn ysglyfaethus hwnw, y Chwibon, iddynt; yr hwn, mor fuan ac y daeth attynt, a ddechreuodd afael ynddynt a'u llyncu, y naill ar ol y llall, mor fuan ac y gallai, ac yn ofer yr ymdrechent ddiange rhagddo. Erbyn hyn, hwy a anfonasant Mawrth gyda chenadwri ddirgelaidd at Iau, i ddeisyf arno dosturio wrthynt unwaith yn rhagor; ond Iau a'u hatebodd nad oeddynt ond yn dyoddef y gospedigaeth gyfiawn am eu ffolineb, ac y dysgai ereill oddiwrthynt i fod yn llonydd pan yn gysurus, ac i beidio anfoddloni i'w sefyllfa naturiol.

Ni waeth heb frenin na chael brenin mewn enw yn unig, ac y mae yn well bod heb frenin na chael unbenaeth gormesol.



CHWEDL 116.—YR ASYN A'I FEISTRIAD.

Asyn, yn perthyn i Lafurwr, ac yn cael ond ychydig i'w fwyta, a llawer i'w wneyd, a ddeisyfodd ar Iau ei waredu o wasanaeth y Llafurwr, a rhoddi iddo feistr arall. Iau, yn ddig oblegyd ei anfoddlonrwydd, a'i trodd ef drosodd i Grochenydd; yr oedd ganddo yn awr lwythau trymach nag o'r blaen, ac fe apeliodd eilwaith at Iau i'w waredu, yr hwn a drefnodd, gan hyny, iddo gael ei werthu i Farcer. Yr Asyn erbyn hyn wedi syrthio i waeth dwylaw nac erioed, ac yn sylwi bob dydd ar orchwyl ei feistr a waeddodd allan, gydag ochenaid, "Och! fi, y fath Greadur truenus ydwyf! Buasai yn llawer gwell i mi aros gyda fy meistriaid blaenorol, canys yr wyf yn gweled fod fy mistr presennol, nid yn unig am fy ngweithio yn galettach tra y byddaf byw, ond na arbedaf fy nghroen wedi i mi farw."

Gwell yw y drwg a wyddom, na'r drwg nas gwyddom. Anfynych y gwna newidiad amgylchiadau, dawelu y dymher anfoddog.



CWHEDL 117.—Y LLEIDR A'R CÎ.

Lleidr yn dyfod i dori tŷ, a fynai dawelu y Cî rhag cyfarth trwy daflu tammaid iddo. “Ymaith â chwi,” ebe y Cî, “yr oeddwn yn eich ammheu o'r blaen, ond y mae y tiriondeb mawr yma ynoch, yn fy sicrhau mai Lleidr ydych.”

Y mae llwgr-wobr yn y llaw, yn arwyddo drwg yn y galon.

CHWEDL 118.—YR YSGYFARNOG A'R BYTHEUAD.

Bytheuad, wedi codi Ysgyfarnog o dwmpath, a redodd ar ei hol am yspaid; ond yr oedd yr Ysgyfarnog yn ei guro, ac fe ddiangodd. Bugail yn pasio heibio, a wawdiodd y Cî, gan ddywedyd fod y pryf yn gyflymach nag ef. “Yr ydych yn anghofio,” ebe y Cî, “mai un peth ydyw rhedeg am eich ciniaw, ond peth arall ydyw rhedeg am eich bywyd.”

Eto, y mae llawer yn ymdrechgu mwy am y bwyd a dderfydd, nag am fywyd tragywyddol.

CHWEDL 119.—YR HELIWR A'R PYSGOTTWR.

Yr oedd Heliwr yn dychwelyd o'r mynyddoedd, yn llwythog o helwriaeth, ac yr oedd Pysgottwr yn dychwelyd yr un amser, gyda'i fasged yn llawn o bysgod, pan y digwyddasant gyfarfod ar y ffordd. Dymunai yr Heliwr gael dysglaid o bysgod, a'r Pysgottwr a hiraethai am swper o helwriaeth; felly, rhoddodd pob un i'r llall gynnwys ei fasged ei hun. Parhasant i newid eu hystôr â'u gilydd bob dydd, fel y sylwodd rhywun o'r diwedd, "Yn awr, trwy y cyfnewidiad parhaus hwn, fe ddinystriant eu blâs at y bwyd, a bydd pob un o'r ddau yn fuan yn dymuno dychwelyd at ei hen fwyd yn ol."

" Nid dâ rhŷ o ddim "

CWHEDL 120.—IAU A'R WENYNEN.

Oesoedd yn ol, pan oedd y byd yn ieuange, darfu i Wenynen, yr hon oedd wedi llenwi ei chrwybr â chynhauaf toreithiog, ehedeg i fynu tua'r nefoedd i gyflwyno offrwm diolchgarwch o fêl. Yr oedd Iau wedi ei foddhau gymmaint gan y rhôdd, fel yr addawodd roddi iddi pa beth bynag a ddymunai. Y Wenynen ar hyny a'i cyfarchodd, gan ddywedyd,—
 "O! Iau ardderchog,—fy ngwneuthurwr, â'm meistr, dyro i mi, dy law-forwyn dlawd, golyn, fel pan ddelo rhywun at fy nghŵch i gymmeryd y mêl, y gallwyf ei ladd ef yn y fan." Iau, o gariad at ddyn, a ddigiodd wrth ei deisyfiad, ac â'i hatebodd fel hyn:—"Ni chaniatteir eich deisyfiad yn y modd yr ydych yn dymuno; ond y colyn y gofynwch am dano, chwi a'i cewch, a phan y dêl rhywun i gymmeryd eich mêl, ac yr ymosodwch arno, bydd y elwyf a roddwch yn farwol, nid iddo ef, ond i chwi,—canys fe gâ eich bywyd fyned ymaith gyda'ch colyn."

Yr hwn a ddeisyfa niwed i'w gymmydog, a ddeisyfa felldith arno ei hun.



CWHDL 121.—YR EHEDYDD A'I RHAI BYCHAIN.

Yr oedd nythaid o rai bychain gan Ehedydd mewn cae o fyd, yr hwn oedd bron yn aeddfed ; a'r Fam, gan ddisgwyl bob dydd am y medelwyr, a adawai air bob tro yr ai hi allan i chwilio am ymborth, am i'r rhai bychain wrando, a hysbysu iddi hi, bob newydd a glywent. Un diwrnod, pan yr oedd hi yn absennol, daeth y perchennog i edrych ansawdd y cnwd. "Y mae yn hên amser," ebe fe, "i alw i mewn fy nghymmydogion, a medi yr fyd." Pan ddaeth yr hên Ehedydd adref, adroddai y rhai ieuaingc i'w Mām yr hyn a glywsent, ac erfynient arni eu symud ymaith yn ddioed. "Mae yn ddigon buan," ebe hithau, "os ymddirieda i'w gymmydogion, cyst iddo aros dipyn eto cyn cael ei gynhauaf." Dranoeth, daeth y gŵr drachefn, ac wrth weled yr haul yn boethach eto, a'r fyd yn fwy aeddfed, a dim wedi ei wneyd, "Nid oes un munud i'w golli," meddai, "nis gallwn ymddiried yn ein cymmydogion ; rhaid i ni alw i mewn ein perthynasau," a chan droi at ei fab, dywedai, "Dôs, galw ar dy ewythr ; siarad â'th gefnder :—a gwêl eu


bod yn dechreu yforu." Mewn braw mwy fyth, adroddai yr Adar Bach eiriau y ffermwr wrth eu Mam. "Os dyna y cwbl," meddai hithau, "nac ofn-wch, canys y mae gan y perthynasau gynhauaf eu hunain i'w gael i mewn; ond cymmerwch sylw manwl o'r hyn a glywch y tro nesaf,—a byddwch siwr o adael i mi wybod." Aeth allan dranoeth drachefn, a'r ffermwr yn dyfod, fel o'r blaen, ac yn cael fod y grawn yn syrthio i'r ddaear, oblegyd ei fod yn ór-aeddfed, a neb heb ddechreu arno eto, a alwodd ei fab atto, gan ddywedyd, "Ni wiw i ni ddisgwyl wrth ein cymmydogion â'n perthynasau ddim yn hwy; ewch chwi a chyflogwch lafurwyr heno, a ni a ddechreuwn arno ein hunain yforu." Pan adroddodd y rhai ieuainge hyn wrth y Fam,—“Yna,” atebai hi, “y mae yn bryd i ni gychwyn yn wir; canys pan ym-gymmero gŵr â rhyw orchwyl ei hun, yn lle ymddir-ied mewn ereill, gellwch benderfynu ei fod am ym-osod atto o ddifrif.”

Y mae un DEWCH, yn well na llawer EWCH.

CHWEDL 122.—Y TEITHIWR YMFFROSTGAR.

Dyn, yr hwn oedd wedi bod yn teithio mewn gwledydd tramor, a arferai, wedi ei ddychweliad adref, ymffrostio, a brolio, yn barhaus, o'r holl orchestion mawrion a gyflawnodd mewn gwahanol fanau. Er engraifft,—Dywedai iddo, pan yn Rhodes, roi naid mor fawr, nad allai un dyn arall ddyfod yn agos atto; ac yr oedd ganddo dystion yno, i brofi y peth, “Fe allai, yn wir,” ebe un o'r gwrandawyr, “ond os ydyw hyn yn wir, tybiwch am funud mai Rhodes ydyw y fan hon, a threiwch y naid eto.”

Haws i lawer un ymffrostio na chyflawni.



CHWEDL 123.—Y LLYFFAINT A'R TEIRW.

Llyffant, ryw ddiwrnod, a gododd ei ben o'r llyn, a chan edrych o'i amgylch, fe welai ddau Darw yn ymladd yn y weirglodd gerllaw. Galwodd ar un o'i frodyr, a dywedodd, "Gwelwch y fath waith ofnadwy sydd yn myned yn mlaen acw! Och! fi, pa beth a ddaw o honom?" "Pw," ebe y llall, "paham yr ydych yn dychrynu am ddim? Pa fodd y gall eu hymrafaelion hwy ein niweidio ni? Y maent yn greaduriaid o ryw hollol wahanol i ni, ac nid ydynt yn awr ond yn ymdrechu pa un gaiff fod yn ben ar y fuches." "Gwir iawn," atebai y cyntaf, "ond, er eu bod o rywogaeth gwahanol i ni, eto, gan fod un o honynt yn sier o gael ei orchfygu, bydd hwnw, wedi ei yru allan o'r weirglodd, yn debyg iawn o ffoi i'r siglenydd hyn, ac fe fydd yn bur debyg o sathru rhai o honom i farwolaeth, felly, y mae mwy a wnelom ni â'u hymdrech hwynt nag y gellwch feddwl ar y cyntaf."

Pan y byddo galluoedd mawrion yn myned i ryfel, y mae y werin ddiniwed yn gyffredin yn gorfod dyoddef.



CHWEDL 124.—Y LLEW A'R ASYN YN HELA.

Aeth Llew ag Asyn i gytundeb i fyned allan i Hela y'nghyd. Yn fuan daethant at ogof, yn yr hon yr oedd llawer o Eifr gwylltion yn llechu. Safodd y Llew wrth enau yr ogof; a'r Asyn, gan fyned i mewn, a giciodd ac a frefodd, ac a wnaeth gynhwrf mawr, nes dychrynu y Geifr allan. Wedi i'r Llew ddal llawer iawn o honynt, daeth yr Asyn allan, a gofynodd iddo, Onid oedd ef wedi brwydro yn wŷch; ac wedi ymlid y Geifr yn iawn? "Do, yn wir," ebe y Llew, "ac yn sicr, buasech wedi fy nychrynu innau hefyd, oni bai fy mod yn gwybod mai Asyn oeddech."

Pan oddefir brolwyr ymffrostgar yn nghwmni eu gwell, nid yw hynny ond er mawyn gwneyd rhyw ddefnydd isel o honynt, a chwerthin am eu penau.





CHWEDL 125.—YR ADAR, Y BWYSTFILOD, A'R
YSTLUM.

Digwyddodd ar dro, fod rhyfel ffyrnig wedi tori allan rhwng y Bwystfilod a'r Adar; am dymhor, yr oedd yn ammheus pa ffordd y trôai y frwydr allan, a'r Ystlum, yn cymmeryd mantais o'i natur ddyblyg, fel hanner Aderyn a hanner y Lygoden, a safai draw ac nid ymunai âg un o'r ddwy blaid. O'r diwedd, ymddangosai fel pe buasai y Bwystfilod yn gorchfygu, ac yn y fan ymunodd yr Ystlum â hwy, a chymmerai ran fywiog yn yr ymdrech; ond gyda hyny, ymadnewyddodd yr Adar, ac ymddangosai fod y frwydr yn troi o'u hochr hwy, ac yna aeth yr Ystlum drosodd attynt hwy, a chafwyd ef ar derfyn y dydd yn mhlith rhengau y blaid fuddugoliaethus. Wedi i heddwch gael ei gyhoeddi, condemniwyd ymddygiad yr Ystlum gan y ddwy blaid yr un modd; a chan na fynai yr un o honynt ei gydnabod, gorfu iddo ddiflannu o'r golwg; a byth wedi'n y mae yn byw mewn tyllau a chornelau, ac ni faidd byth ddangos ei wyneb ond yn ngwyll y nôs.

Y mae y diegwyddor yn ffiaidd gan bob plaid.



CHWEDL 126.—Y LLWYNOG A'R DRAENOG.

Llwynog, pan yn croesi afon, a gariwyd gan y ffrŵd i ryw agen gul, ac a orweddodd yno yn hir, yn analluog i ddyfod allan, ac a orchuddiwyd gan haid o wybed mawrion a ddisgynasant arno. Draenog, yn digwydd pasio y ffordd hono, a'i gwelodd, a chan dosturio wrtho, a ofynodd a gai ef yru ymaith y gŵybed oedd yn ei flino felly; ond y Llwynog a ddeisyfodd arno beidio gwneyd dim o'r fath beth. "Paham?" gofynai y Draenog. "Oblegyd," meddai y Llwynog, "y mae y gwybed sydd arnaf yn awr, mor llawn eisoes, fel nad allant sugno llawer mwy o'm gwaed; ond os gyrwch chwi hwynt ymaith, daw haid o rai newydd a newynog yn eu lle, ac ni adawant ddyferyn o waed yn fy nghorph."

O ddau ddrwg dewiser y lleiaf.





CHWEDL 127.—Y BLAIDD A'R BUGAIL.

Yr oedd Blaidd wedi bod am dymhor maith yn ystelcian yn agos i ddeadell o ddefaid, ond heb wneyd dim niwed iddynt. Yr oedd y Bugail, er hyny, yn ddrwgdybus o hono, ac am amser, a gadwodd wyliaeth ofalus rhagddo, fel rhag gelyn naturiol; ond wrth weled y Blaidd yn parhau am dymhor maith yn dilyn ar ol y praid, heb yr ymgais lleiaf i'w haflonyddu, dechreuodd edrych arno yn hytrach fel cyfaill, nag fel gelyn; ac un diwrnod, gan fod ganddo achos i fyned i'r ddinas, fe ymddiriedodd ei ddefaid i'w ofal. Nid cynt y gwelodd y Blaidd ei gyfle, nag y syrthiodd yn ddioed ar y defaid, ac a'u llarpiodd hwynt; a'r Bugail, ar ei ddychweliad, yn gweled ei braidd wedi eu hanrheithio, a ddywedodd, "Y fath ynfytyd ydwyf! eto, ni chefais ond yr hyn a haeddais, am ymddiried fy nefaid i ofal y Blaidd."

Y mae mwy o berygl oddiwrth gyfaill turyllodrus, nag oddiwrth elyn profsedig.



CHWEDL 128.—Y TEITHWYR A'R FWYALL.

Yr oedd dau Wr yn cyd-deithio ar y ffordd, pan y darfu i un o honynt godi Bwyall oddiar y ddaear, a dywedodd, "Gwelwch pa beth yr ydwyf fi wedi ei gael." "Na ddywedwch, y fi," meddai ei gydymaith, "ond, y ni, wedi ei gael." Yn mhen enyd, daeth y Dyn a gollodd y Fwyall i fynu, ac a gyhuddodd y Dyn a'i cafodd o ladrad. "Och! fi," meddai yntau wrth y llall, "yr ydym wedi ein andwyo!" "Na ddywedwch, y ni," atebai hwnw, "ond yr wyf fi wedi fy andwyo; canys yr hwn ni fÿn i'w Gyfaill gyfrannu o'r anrhaith, ni ddylai ddisgwyl iddo gyfrannu o'r perygl."

Os mynem gyfeillion mewn aſtwydaïant, aylem eu hennill mewn llwyddiant.



CHWEDL 129.—Y LLYGOD A'R BRONWENOD.

Yr oedd y Llygod a'r Bronwenod wedi bod mewn rhyfel maith â'u gilydd, a chan fod y Llygod bob amser yn colli y frwydr, hwy a gytunasant o'r diwedd, mewn cyfarfod mawr, wedi ei alw i ystyried y mater, mae yr unig achos o'u haflwyddiant oedd, eu diffyg dysgyblaeth; a hwy a benderfynasant, gan hyny, i ddewis cadflaenoriaid rheolaidd, o hyny allan. Felly, fe ddewisasant y rhai yr oedd eu gwroldeb a'u medr yn eu cymhwyso fwyaf i'r swydd bwysig;—darfu i'r cadflaenoriaid newydd, yn falch o'u swyddau, ac yn dymuno cael gwneuthur eu hurddau mor amlwg ag oedd bossibl, rwymo cyrn ar eu talcenau, fel math o nôd ac arwydd o'u derchafiad. Yn fuan ar ol hyn cymmerodd brwydr le; y Llygod, fel arfer, a orchfygwyd yn fuan, a diangodd y Llygod cyffredin i'w tyllau; ond y cadflaenoriaid, yn methu myned i mewn i'r tyllau, o herwydd maint eu cyrn, a ddaliwyd, ac a laddwyd, bob un yn ddiethriad.

Nid oes nemawr dderchafiad heb ei berygl priodol yn gysylltiedig âg ef.—Y mae balchder yn dwyn aml un i brofedigaeth a magl.

CHWEDL 130.—Y BACHGEN A'R DANADL.

Bachgen yn chwareu mewn cae, a afaelodd mewn Danadl ac a ddoluriwyd. Rhedodd adref at ei fam a dywedodd wrthi, Ei fod wedi cyffwrdd a'r Llysieuyn câs hwnw, a'i fod wedi ei ddolurio. "Dy fod yn unig wedi cyffwrdd ag ef, fy Machgen," meddai y fam, "a wnaeth iddo dy ddolurio; y tro nesaf yr ymaffi mewn Danadl, gafael yn egniol, ac ni wna i ti ddim niwed."

Ymdrecher yn iawn, neu na ymdrecher oll.



CHWEDL 131.—Y BARCUD CLAF.

Barcud, wedi bod yn hîr yn glaf, ag oedd yn agos i farw, a ddywedodd wrth ei fam, “Na wylwch, fy mam, ond ewch a gweddiwch ar y duwiau, ar i mi gael fy iachau o'r afiechyd a'r poen ofnadwy hwn.” “Och! fi, fy mhlentyn,” atebai y fam, “ar ba un o'r duwiau y gallaf fi weddio dros un sydd wedi bod yn lleidr ar hyd ei oes, ac wedi anrheithio eu holl allorau?”

Ni wna edifeirwch gwely angyd iawn am gamweddau bywyd.—Y mae gweddïau yr anedifeiriol yn ffaidd.





CHWEDL 132.—YR ERYR A'R FRAN.

Disgynodd Eryr oddiar graig uchel ar gefn Oen, ac a'i cariodd ymaith yn ei grafangau. Coegfran yn digwydd gweled yr orchest, a feddylodd y medrai yntau wneyd yr un peth, ac a ddisgynodd â'i holl nerth ar gefn Myharen, gan feddwl ei gario ymaith yn ysglyfaeth; ond glynodd ei ewinedd yn y gwlan, ac fe wnaeth y fath ystŵr wrth ymdrechu diangc, fel y darfu i'r bugail, yr hwn a welodd trwy y mater, dd'od yno a'i ddal ef; wedi tori ei adenydd, fe'i dygodd adref i'w blant. "Pa aderyn yw hwn, ein tad a ddygasoch i ni?" gofynai y plant. "Wel," meddai yntau, "os gofynwch iddo ef, fe ddywed i chwi mai Eryr ydyw, ond os cymmerwch fy ngair I ar y mater mi a wn nad yw ef ond Coegfran."

Daw aml un i waradwydd a gwarth, trwy gamfarnu ei alluoedd ei hun.





CHWEDL 133.—YR ASYN A'I YRWR.

Asyn, yn cael ei yru ar hŷd y ffordd gan ei Feistr, a redodd yn mlaen, a chan adael y llwybr sathredig, fe garlammodd yn mlaen hyd at ddibyn craig; pan ar syrthio drosodd, daeth ei Feistr i fynu, a chan afael yn ei gynffon, a ymdrechodd ei dynu yn ol, ond yr Asyn a barhaodd i ymgyndynu, a thynu y'mlaen, a'r Dyn a ollyngodd ei afael, gan ddyweyd, "Wel, Jack, os mŷni fod yn feistr, nid allaf fi mo'i helpio. Rhaid i fwystfil cyndyn fyned ei ffordd ei hun."

Yr ynsfyd a ymgyndyna i'w ddimystr ei hun.





CHWEDL 134.—YR HEN WR AC ANGAU.

Hên Wr wedi teithio ffordd bell gyda bwrned mawr o goed, a gafodd ei hunan mor lluddedig, fel y gorweddodd i lawr, ac y galwodd am Angau i'w waredu allan o'i fywyd truenus. Daeth Angau, yn ddioed, ar ei alwad, a gofynodd iddo pa beth oedd arno eisieu. "Attolwg, anwyl syr," ebe yntau, "a welwch chwi fod yn ddâ fy helpu i roddi y bwrned ar fy nghefn eto."

Un peth ydyw galw am angau, a pheth arall ydyw ei weled.





CHWEDL 135.—YR ADARWR A'R BETRUSEN.

Pan yr oedd Adarwr wedi cymmeryd Petrusen yn ei rwyd, yr aderyn a waeddodd allan yn wylofus, "Gâd i mi fyned, Adarwr mwyn, a mi a addawaf hudo Petris ereill i'ch rhwyd." "Na," meddai y Dyn, "pa beth bynag a allaswn ei wneyd o'r blaen, yr wyf yn benderfynol na arbedaf chwi yn awr; canys nid oes un farwolaeth yn rhy greulon i'r hwn sydd yn barod i fradychu ei gyfeillion."

Y casaf o ddynion yw yr hwn a abertha ei gyfeillion i'w waredu ei hun.





CHWEDL 136.—YR ASYN SYNWYROL

Yr oedd hên ŵr yn gwilio ei Asyn fel yr oedd yn pori mewn gweirglawdd frâs. Yn ddisymwth, canfyddodd y gelynion yn nesâu atto, ac a fynai i'r Asyn ffoi gydag ef mor ffastied ag y medrai. Ond gofynai yr Asyn iddo, "a wnai y gelyn roi dau bâr o gewyll ar ei gefn?" "Na," atebai y dyn, "nid oes dim perygl o hyny." "Wel, os felly," meddai yr Asyn, "ni redaf fi gam; canys pa wahaniaeth yw i mi pwy fydd fy meistr, os yr un faint fydd fy maich dan bob un."

Y mae rhyfel yn gyffredin o fwy o bwys i'r llywodraethur yr nag i'r deiliaid.—Ni waeth y naill ormes na'r llall.





CHWEDL 137.—Y DDAU DDWFR-LESTR.

Dau Lestr, un o Brês a'r llall o Bridd, a gariwyd i lawr afon ar lifeiriant. Cyngchorai y Llestr Prês ei gydymaith i gadw yn ei ochr ef, ac y gwnai efe ei amddiffyn. "Diolch i chwi am eich cynnyg," ebe y Llestr Pridd, "ond dyna'r peth sydd arnaf fi fwyaf o'i ofn; os cedwch chwi yn mhell oddi wrthyf, gallaf nosio i lawr yn ddiogel, ond os tarawn yn ein gilydd, myfi sydd yn sicr o ddyoddef."

Nid dâ ymwithio at gyfeillion galluocach na ni, canys os digwudd ymrafael, y gwanaf a â i'r wal.



CHWEDL 138.—Y LLEW A'R MORHWCH.

Fel yr oedd y Llew yn rhodio ar fin y môr, fe welai Fôrhwch yn ymheulo ar wyneb y dŵr,—fe'i gwahoddodd i ffurfio cynghrair âg ef, “Canys,” meddai, “gan fy mod i yn Frenin y bwystfilod, a chwithau yn Frenin y pysgod, fe ddylem fod y cyfeillion mwyaf, a'r cynghreiriaid ffyddlonaf.” Cydunodd y Môrhwach â'r cais hwn gyda'r parodrwydd mwyaf;—a'r Llew, ychydig wedi'n, yn digwydd bod mewn brwydr gyda Tharw gwyllt, a alwodd ar y Môrhwach am y cynnorthwy cyfammodol. Ond pan nad allai, er yn awyddus i wneyd hyny, ddim dyfod allan o'r môr i'w helpu, cyhuddai y Llew ef o fod wedi ei fradychu ef. “Na feiwch fi,” ebe y Môrhwach, “ond beiwch fy natur, yr hon, pa mor alluog bynag yn y môr, sydd yn hollol ddinerth ar y tir.”

Doethineb wrth ddewis cyfeillion, ydyw ystyried a oes ganddynt allu, yn gystal ag ewylllys i'n cynnorthwyo mewn angen.

CHWEDL 139.—YR UDGANWR YN GARCHAROR.

Udganwr, wedi ei gymmeryd yn Garcharor mewn rhyfel, a erfyniai yn daer am gael ei fywyd. “Arbedwch fi, anwyl ddynion,” ebe fe, “ac na roddwch fi i farwolaeth heb achos, canys ni leddais I neb, ac nid oes genyf ddim arfau, ond yr Udgorn hwn yn unig.” “Oblegyd hyny, yn bendifaddeu,” atebai y gorchfygwyr, “y cewch chwi farw; canys heb fod genych wroldeb i ymladd eich hun, yr ydych yn cyffroi ereill i ymladd a chreulondeb.”

Y mae yr hwn sydd yn cyffroi i amrafael, yn waeth na'r hwn sydd yn cymmeryd rhan ynddo.



CHWEDL 140.—Y CHWAREUWR A'R GWLADWR.

Rhyw Dywysog cyfoethog a fwriadai ddifyru y Rhufeiniaid ag arddangosfa chwareuyddol, ac a gynnygiodd wobr i bwy bynag a ddygai rywbeth newydd allan yn y dull hwnw. Er mwyn y wobr a'r clod, daeth Chwareuwyr yn mlaen o bob parth o'r wlad i ymdrechu am yr oruchafiaeth, ac yn eu plith daeth un ffraethwr enwog, ac a hysbysodd fod ganddo ef fath newydd o ddifyrwch, na welwyd erioed ar un chwareufwrdd o'r blaen. Ar ledaeniad yr hysbysiad hwn, daeth yr holl ddinas yn nghyd; nid allai y chwareudŷ ond prin gynnwys y lluaws edrychwyr, a phan ymddangosodd y Chwareuwr o flaen y dyrfa, heb fod ganddo ddim offerynau, na dim cynnorthwyr, yr oedd yr edrychwyr oll yn berffaith ddistaw gan chwilfrydedd a phryder. Yn ddisymwth fe wthiodd ei ben i'w fynwes, ac a ddynwardodd fochyn bychan yn gwichian, mor naturiol, fel y mynai y bobl fod ganddo un o dan ei fantell, ac a orchymynent iddo gael ei chwilio; ond wedi gwneuthur hyny, a chael dim, hwy â'i llwythasant ef a'r ganmoliaeth

uwchaf.—Rhyw Wladwr yn y dorf, wrth sylwi ar yr hyn oedd yn myned yn mlaen, a ddywedodd, “O, fe allaf fi wneuthur yn well na hynyna,” ac a hysbysodd y byddai iddo yntau ymddangos o’u blaenau dranoeth. Felly, dranoeth, fe ymgynnullodd tyrfa fwy fyth. Gan fod y bobl, er hyny, wedi eu boddhau gymmaint gan y Chwareuwr, yr oeddynt yn rhagfarnllyd yn erbyn y Gwladwr, a daethant yno, yn hytrach, i’w wawdio ef, nac i roddi barn dêg arno. Daeth y ddau allan ar y chwareufwrdd: darfu i’r Chwareuwr wichian yn gyntaf, a derbyniwyd ef â churo dwylaw a’r cymmeradwyaeth mwyaf. Yna, y Gwladwr, gan gymmeryd arno ei fod wedi cuddio mochyn bychan o dan ei wisgoedd, (ac yr oedd ganddo un hefyd, mewn gwirionedd,) a binsiodd ei glust ef, nes y gwichiodd yn iawn. Yr edrychwyr a waeddasant allan, fod y Chwareuwr wedi dynwared y mochyn yn llawer mwy naturiol, ac a hwtiasant y Gwladwr oddiar y chwareufwrdd: ond efe, i’w hargyhoeddi yn eu hwyneb, a dynodd allan y mochyn byw o’i fynwes, gan ddywedyd, “Ac yn awr, foneddigion, gellwch weled pa fath feirniaid cywrain a galluog ydych chiwi.”

Y mae yn haws argyhoeddi dyn yn groes i’w synwyr, nag yn groes i’w ewyllys.—Y mae enw mawr yn fwy dylanwadol ar lawer na gwir deilyngdod.

1
AIL GYFRES O CHWEDLAU

NEU

DDAMMEGION ÆSOP,

GYDA PHIGION O

DDAMMEGION DIWEDDARACH

KRIOLF, LA FONTAINE, &c.;

WEDI EU

CYFIEITHU O'R ARGRAFFIADAU GOREU YN YR IAITH
SEISONIG,

A'U CAFADDASU I'R GYMRAEG.

WREXHAM.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd GAN HUGHES AND SON.

CYNNWYSIAD.

AT Y DARILENYDD.

Chwedlau :—

1. Y Tri Masnachwr.
2. Y Frân a'r Alarch.
3. Y Bachgen a'r Ffrwythau.
4. Yr Hen Wraig a'i Morwynion.
5. Y Ffrwd.
6. Y Llwynog a'r Gwyneb gosod.
7. Y Dyn Ieuange a'r Wenol.
8. Y Blaidd mewn croen Dafad.
9. Y Golomen sychedig.
10. Y Gŵr Moel.
11. Llongddrylliad Simonides.
12. Y Ci a'r Ysgyfarnog.
13. Y Wenol a'r Adar ereill.
14. Y Gwyddau.
15. Mawrth a'r Cerfluniwr.
16. Y Blaidd a'r Llew.
17. Yr Heliwr a'r Coettiwr.
18. Y Gŵr Cenfignllyd a'r Tra-
chwantwr.
19. Y Blaidd a'r March.
20. Yr Asyn mewn Swydd.
21. Yr Epa a'r Llwynog.
22. Yr Asyn yn cario Halen.
23. Yr Ast a'r Hwch.
24. Yr Heffer a'r Ych.
25. Y Bechgyn a'r Llyffaint.
26. Y Pysgod mawr a'r rhai bych-
ain.
27. Y Paun a'r Bieden.
28. Y Llwynog a'r Chwiban.
29. Y March a'r Llew.
30. Yr Afr a'r Bugail.
31. Y Gôf a'i Gi.
32. Y Dyn Ieuange a'r Gath.
33. Y Gwrych a'r Winllan.
34. Cysgod yr Asyn.
35. Yr Asyn yn nghroen y Llew.
36. Y Seryddwr.
37. Y Mochyn a'r Defaid.
38. Y Ceiliog a'r Llwynog.
39. Y Bugail a'r Môr.
40. Y Cŵn a'r Crwyn.
41. Y Briodas Angeuol.
42. Y Blaidd a'r Afr.
43. Y Gwlaw a'r Tir.
44. Y Carw wrth y Llŷn.
45. Yr Amaethwr a'i Geffyl.
46. Y Tarw a'r Afr.
47. Y Llwynog yn y Ffynon.
48. Y Ddau Gi.
49. Yr Asyn yn bwyta'r Ysgall.
50. Y Ddafad a'r Carw.
51. Y Ddafad, y Ci, a'r Blaidd.
52. Yr Afanc a'i Eridwyr.
53. Y Wiwer a'r Llew.
54. Y Bachgen a'r Ci.
55. Y Bachgen yn Ymdrochi.
56. Y Morgrugyn Ymffrostgar.
57. Y Ci a'r Ddafad.
58. Y Wiwer ffwdanus.
59. Y Tarw a'r Llo.
60. Y Draenog a'r Nadroedd.
61. Y Ceiliog Twrci a'i blant.
62. Y Gigfran a'r Ci.
63. Cymeryd yr Udganwr yn
Garcharor.
64. Y Tad a'i ddwy Ferch.
65. Y Ci a'r Hwrd.
66. Yr Arth a'r Cychod Gwenyn.
67. Yr Afonydd a'r Môr.
68. Y Crocodile a'r Ci.
69. Y Dail a'r Gwreiddiau.
70. Y Diamwnt a'r Gareg.
71. Pen yr Epa.
72. Y Paun a'r Crychydd.
73. Y Myn a'r Blaidd.
74. Y Llyffant.
75. Y Llyffant yn Grachfeddyg.
76. Y Cŵd.
77. Y Dyn Du.
78. Y March a'r Asyn.
79. Y Gareg a'r Gwlaw.
80. Y Fronwen a'r Dyn.
81. Yr Epa a'r Llwynog.
82. Y Gwladwr a'r Môr.
83. Y Golomen.
84. Yr Asyn mewn croen Llew.

85. Y Quartette.
86. Y Llwynog a'r Frân.
87. Y Bachgen a'r Ych.
88. Y Ceffyl a'r Aderyn Tô.
89. Y Pysgodyn - hedegog a'r Dolfyn.
90. Yr Amaethwr a'r Fuwch.
91. Y Blaidd a'r Bugeiliaid.
92. Y Morgrugyn a'r Golomen.
93. Y Bachgen a'r Afr.
94. Y Teithwyr ar fin y Môr.
95. Y Baedd Gwyllt a'r Llwynog.
96. Yr Ewythr a'i Nai.
97. Yr Eryr, y Frân, a'r Crwban.
98. Y Barcud a'r Ffermwr.
99. Yr Ewig a'r Llwynog d.
100. Y Bychod Geifr a'r Geifr.
101. Yr Hen Lew.
102. Yr Asyn, y Ceiliog, a'r Llew.
103. Æsop a'r Gŵr Sarhaus.
104. Y Ceiliog Rhedyn a'r Ddallhuan.
105. Y Llygoden a'r Fronwen.
106. Y Ffeanwr a'i Gŵn.
107. Y Gwenyn a'r Gwenyn Segur
108. Yr Asyn a'r Eos.
109. Yr Epa a'r Drychau.
110. Y Brawd a'r Chwaer.
111. Y Ffermwr a'r Llew.
112. Yr Asyn a'r Gwybedyn.
113. Y Llewpard a'r Bugeiliaid.
114. Y Cawrfil a'r Corgi.
115. Y Teithwyr a'r Corgwn.
116. Cæsar a'i Was.
117. Yr Ymsuddwyr.
118. Yr Eryr, y Gath, a'r Baedd.
119. Yr Epa a'r Pysgotwyr.
120. Socrates a'i Dŷ.
121. Yr Iâr a'r Wenol.
122. Yr Yspeiliedig a'i Gyfeillion.
123. Yr Asyn a'r Baedd.
124. Y Llewpard a'r Llwynog.
125. Y Ci a'r Ceffyl.
126. Æsop yn Chwareu.
127. Yr Ast a'i Chŵn.
128. Y Ddau Gi.
129. Y Blaidd, y Llwynog, a'r Epa.
130. Yr Amaethwr Cybyddlyd.
131. Yr Hwch.
132. Y Gŵr a'i Ddwy Wraig.
133. Yr Asynod a'r Lladron.
134. Y Barcutan Papyr a'r Adar.
135. Aderyn y Tô a'r Ysgyfarnog.
136. Y Gwladwr a'i Hugan.
137. Yr Atheistiaid.
138. Y Llyffantod a'r Haul.
139. Y Coed a'r Duwiau.
140. Yr Asyn a'i Berchenogion.
141. Y Gŵr Cyfoethog Tlawd.
142. Juno a'r Paun.
143. Y Cardodyn a'i Gŵd.
144. Y Siwg bridd a'r Llestr coed.
145. Y Llwynog a'r Llygoden.
146. Y Cawrfil mewn Sŵydd.
147. Y Fronwen a'r Llygod.
148. Y Tri Brawd.
149. Y Crib a'r Plentyn.
150. Y Ceffyl a'r Asyn Llwythog.
151. Y Bleiddiaid a'r Defaid.
152. Y Defaid a'r Cŵn.
153. Yr Asyn a Jupiter.
154. Yr Arth a'r Gwenyn.
155. Y Cadben a'r Morwyr.
156. Y Fronfraith a'r Iâr.
157. Y Meddwon.
158. Y Teithwyr a'r Ysbeiliwr.
159. Yr Heliwr a'r Golomen.
160. Y Llafurwyr a'r Afon.
161. Y Llwynog a'r Ddraig.
162. Y Gath a'r Llwynog.
163. Y Teithwyr.
164. Y Cybydd a'i Drysor.
165. Y Gwr Moel a'r Gwibedyn.
166. Y Morgrugyn a'r Gwibedyn.
167. Y Bugail a'i Gi.
168. Y Gwyddau a'r Garanod.
169. Yr Hydd a'r Winwydden.
170. Y Neidr a'r Gôg.
171. Y Neidr a'r Enllibiwr.
172. Yr Ehedydd a'i Fab.
173. Y Ddallhuanod a'r Haul.
174. Addysg y Llew Ieuangc.
175. Y Teithwyr a'u Cysgod.
176. Y Magnelau a'r Hwyliau.
177. Y Llwynog fel Adeiladydd.
178. Y Cybydd a'r Tylwyth Teg.
179. Y Melinydd a'r Agenyny Ffôs.
180. Y Ddafad a'r Barnwr.
181. Y Mochyn a'r Palas.
182. Y Lleidr a'r Dillad.
183. Y Llew a'r Llwynog.
184. Y Melinydd, ei Fab, a'u Hasyn.
185. Y Llew, yr Arth, a'r Llwynog

AT Y DARLLENYDD.

PARHAD o Chwedlau neu Ddammegion Æsop a gynwysir gan mwyaf yn y llyfr hwn. Yn y Casgliad Cyntaf dodwyd saith ugain o Chwedlau y Doethwr o flaen y darllenydd Cymreig. Y mae y gwerthiad fu ar y llyfr hwnw yn myned yn mhell i brofi fod “Gwyr y Bryniau” yn gwerthfawrogi, ac yn cael blas ar y math yma o lenyddiaeth. Yn y llyfr hwn fe geir wyth ugain a phump o Ddammegion; oddeutu cant o honynt yn eiddo yr hen Æsop; ychydig dros ddeugain wedi eu dethol o waith Kriolf, y Chwedleuwr Rwssiaidd talentog; a’r gweddihl o blith cynyrchion La Fontaine, y Ffrangewr enwog.

Yr ydym yn credu fod y “tri wyr” hyn, yn y tudalenau canlynol, yn dysgu llawer gwers bwysig, a hyny mewn dull difyrus a didramgwydd. Hyderwn y bydd y darllenydd—“Arglwydd y greadigaeth”—yn ddigon gostyngedig i wrando ar y creaduriaid direswm yn siarad doethineb ac yn rhoddi cynghorion buddiol, ac nad wrthodant “berl” er ei gael “o enau llyffant.”

Y CASGLYDD.

AIL GYFRES O CHWEDLAU

NEU

DDAMMEGION ÆSOP,

GYDA PHIGION O

DDAMMEGION DIWEDDARACH

KRIOLF, LA FONTAINE, &c.

&c., &c.

CHWEDLAU ÆSOP, &c.



Chwedl 1.

Y TRI MASNACHWR.

Yr oedd dinas yn ofni cael gwarchae arni, a chynhaliwyd cynghorfa i ystyried y ffordd oreu i ddiogelu ei hamddiffynfeydd. Rhoddodd Saer Maen ei farn, nad oedd dim defnyddiau cygystal a phriddfeini i'r diben. Cynygiai Saer Coed y byddai coed yn llawer gwell. Ar hyn cododd Lledrwr i fyny, ac a ddywedodd, "Syr, wedi i chwi ddweyd gymaint oll ag a ellir ei ddweyd, nid oes dim yn y byd yn debyg i Ledr."

Pawb drosto ei hun, yw natur dyn.

Chwedl 2.

Y FRAN A'R ALARCH.

Brân a genfigenai wrth Alarch, oblegyd fod ei phlu mor wyn; a chan feddwl fod ei harddwch i'w briodoli i'r dwfr yr oedd hi yn byw ynddo, efe a adawodd yr allorau lle yr arferai gael ei luniaeth, ac a gymerodd at y llynoedd a'r afonydd. Yno fe ymchwyddodd ac a ymolchodd ac a lanhaodd ei wisg, ond yr oll yn ofer, canys parhaodd ei blu mor ddu ag erioed, ac efe ei hun yn fuan a drengodd o eisiau ei ymborth arferol.

Ni una newid ymborth na lle ddim newid natur.

Yr hyn sydd fywyd i un sydd farwolaeth i'r llall.

Chwedl 3.

Y BACHGEN A'R FFRWYTHAU.

Rhoddodd Bachgen ei law mewn llestr yn yr hwn yr oedd llawer o Ffigys a Chnau wedi eu cadw; fe afaelodd mewn cymaint fyth ag a allai ei ddwrn ei gynwys, ond pan geisiai ei dynu allan, yr oedd culni gwddf y llestr yn ei rwystro. Yn anfoddlon i golli dim o honynt, ond yn analluog i dynu ei law o'r llestr, fe dorodd allan i wylo, ac i gwyno yn chwerw am ei anffawd. Rhyw ŵr gonest yn sefyll gerllaw, a roddodd iddo y cynghor call hwn, "Cydiwch yn yr haner fy machgen, a chwi a lwyddwch yn hawdd."

Ceisio gormod a cholli'r cyfan.

"Coflaid fechan a'i gwasgu yn dyn."

*Chwedl 4.*

YR HEN WRAIG A'I MORWYNION.

Yr oedd gan Hen Wraig unwaith nifer o Forwynion, y rhai a alwai at eu gwaith bob dydd ar ganiad y Ceiliog. Darfu i'r merched, y rhai oeddynt yn teimlo ei bod yn galed arnynt i gael eu deffroi o'u cwsg melus mor foreu, uno a'u gilydd a lladd y Ceiliog; gan feddwl, pan y byddai y rhybuddiwr wedi ei symud o'r ffordd, y byddai iddynt gael mwynhau eu gwelyau cynes ychydig yn hwy. Yr Hen Wraig, yn teimlo o herwydd colli ei Cheiliog, ac wedi cael allan, trwy ryw foddion neu gilydd, yr holl gydfwriad, a benderfynodd fod i fyny â hwy; ac o'r adeg hono allan gorfododd hwy i godi yn gyson am haner nôs.

Gochelweh syrthio o ddrwg i waeth; gwell y drwg a wyddis na'r drwg na wyddis.

Chwedl 5.—Y FFRWD.

Darfu i Fugail arllwys ei gwyn wrth Ffrwd yn erbyn yr Afon am gario ymaith yr Oen goreu yn ei ddiadell. Y mae y Ffrwd yn cydymdeimlo âg ef yn y dull tyneraf, a dwrdiai yr Afon yn yr iaith gryfaf. Pe buasai hi yn Afon, meddai, ni buasai yn cyfranu ond bendithion i'r maesydd o'i chwmpas. Byddai ei holl gwrs yn un o fendith a chymwynasgarwch. Felly y dywedodd y Ffrwd; ac felly y meddyliai. Ond pa beth a gymerodd le? O fewn yr wythnos torodd cwmwl uwchben un o'r bryniau cyfagos, ac y mae y Ffrwd ar unwaith yn chwyddo i faintioli afon fawr. Ond, Ah! pa beth sydd wedi dyfod o ddiniweidrwydd ac yspryd heddychol y Ffrwd? Berwa, trystia, chwyrna, a lluchia ei dyfroedd yn donau ewynog yn mhob cyfeiriad. Dadweiddia hen dderw cedyrn; gellir clywed eu swn yn syrthio o bell ffordd. Ie, y mae y Bugail, â'r hwn y cydymdeimlai ychydig ddyddiau yn ol, ac o herwydd yr hwn y dwrdiai yr Afon gyda'r fath hyawdledd, yn cael ei foddi ganddi gyda'i holl ddiadell, ac ysguba ei dŷ a'i blant ymaith yn llwyr.

Gynifer o Ffrydiau a geir yn llifo yn araf ac esmwyth, gan ganu yn hyfryd wrth dreiglo dros eu gwelyau caregog—yn unig am fod ychydig ddwfr ynddynt.

Chwedl 6.—Y LLWYNOG A'R GWYNEB GOSOD.

Yroedd Llwynog wedi tori i mewn i dŷ Chwareuwr, ac wrth droi ei holl eiddo drosodd, fe ddaeth o hyd i Wyneb gosod (*mask*) tra phrydferth. "Gwyneb a phen gwych yn wir," ebai efe, "ond y fath resyn nad oes dim ymenydd iddo."

Digon gwael ydyw gwyneb teg ac ychydig synwyr tu cefn iddo.



Chwedl 7.—Y DYN IEUANGC A'R WENOL.

Afradlon ieuange, ag ydoedd wedi gwastraffu ei holl dda, a gerddai yn bruddglwyfus yn agos i ffrwd o ddwfr. Mis Ionawr ydoedd, un o'r dyddiau clir haf-aidd a wenant arnom weithiau hyd yn nod yn y tymor gauafol hwnw; ac i'w gwneyd yn fwy tebyg i'r haf, yr oedd Gwenol, a wnaeth ei hymddangosiad yn rhy fuan, yn ysgubo dros wyneb y ffrwd. Y Dyn ieuange difeddwl yn gweled hynny, heb ychwaneg o ystyriaeth, a benderfynodd fod yr haf wedi dyfod, ac na byddai arno ond ychydig os dim achos am ei wisg uchaf; felly aeth ac a'i gwerthodd, a gwariodd yr arian yn mhlith ei gymdeithion annuwiol. Ar ol i'r arian yma ddarfod, aeth am rodfa arall i ymyl yr un ffrwd. Ond trwy fod y tywydd wedi newid, a dyfod yn oer a rhewllyd, yr oedd agwedd pethau wedi newid yn fawr o'r hyn ydoedd o'r blaen; yr oedd y ffrwd yrwan wedi rhewi drosti, a'r Wenol dlawd yn gorwedd yn farw yn ei hymyl. Darfu i'r olygfa ddwyn y Dyn Ieuange ato ei hun; ac yn teimlo ei gyflwr gresynus, beiodd ei hun fel yr achos o'i holl drueni.

“Y fath adyn ffol ydwyf,” ebai wrtho ei hun, “am fod mor ddwl a chredu y gallasai un Wenol wneyd haf.”

Mewn tywydd teg byddwch barod erbyn tywydd garw. Na fyddwch byw yn hollol yn y presenol heb feiddwl dim am y dyfodol.

Chwedl 8.—Y BLAIDD MEWN CROEN DAFAD.

Blaidd a wisgodd am dano Groen Dafad, ac wedi cael dyfodiad i mewn i blith y praidd trwy hyny, fe ddifethodd lawer o honynt. O'r diwedd y bugail a'i canfu, ac wedi taflu cortyn am ei wddf, fe'i rhwymodd i fynu wrth bren oedd gerllaw. Rhyw fugeiliaid ereill yn pasio y ffordd hono, ac yn sylwi arno, a ddaethant ac a draethasant eu syndod. “Beth,” ebai un o honynt, “frawd, a ydych chiwi yn crogi defaid?” “Nac ydwyf.” ebai yntau, “ond byddaf yn crogi Blaidd pryd bynag y daliwyf ef, hyd yn nod pan wedi ei wisgo mewn Croen Dafad.” Wedi canfod eu camgymeriad, hwy a'i canmolasant ef am gyfiawnder ei weithred.

Ni wna cochl sanctaidd ond chwanegu ysgelerder y twyllwr. Fe syrth y twyllwr i'r fagl o'r diwedd er maint ei ragrith.

Chwedl 9.—Y GOLOMEN SYCHEDIG.

Colomen yr hon oedd yn sychedig iawn, yn gweled llun gwydraid o ddwfr wedi ei baentio ar arwydd-fwrdd, a dybiodd mai dwfr gwirioneddol ydoedd; felly gan ehedeg ato a'i holl nerth, hi a darawodd yn erbyn y bwrdd, a chan dori ei hesgyll, hi a syrthiodd i'r llawr, lle y daliwyd hi yn ebrwydd gan rywun yn pasio heibio.

Aeth llawer i brofedigaeth trwy gamgymeryd y cysgod am y sylwedd. Mae gormod ffrwst yn beryglus.



Chwedl 10.—Y GWR MOEL.

Rhyw Farchog wedi colli ei wallt oblegid henaint, i guddio y diffyg a wisgai berwig; ond fel yr oedd yn marchogaeth allan i hela gyda'i gyfeillion, daeth chwâ o wynt, ac a chwythodd y berwig ymaith, gan ddynoethi ei ben moel. Nid allai ei gyfeillion lai na chwerthin ar y ddamwain; ac fe chwarddodd ef ei hun mor uchel a neb o honynt, gan ddyweyd, "Pa sut y gellid disgwyl y gallwn gadw gwallt dieithr ar fy mhen, pan nad arosai fy ngwallt fy hun yno?"

Os digwydd i un fyned yn ddiniwaid yn destun chwerthiniad i ereill, y ffordd oreu weithiau ydyw ymuno a'r chwerthiniad.

Chwedl 11.—LLONGDDRYLLIAD SIMONIDES.

Y mae dyn dysgedig yn cario cyfoeth i'w ganlyn bob amser. Yr oedd Simonides yn ŵr enwog am ei wybodaeth a'i dalent farddonol. Aeth i ymweled â phrif drefydd Asia i adrodd ei ddarnau barddonol ac i draddodi ei areithiau penigamp, ac ar ol casglu llawer o gyfoeth a mwy o anrhydedd wrth y gorch-

wyl hwn, y mae yn penderfynu dychwelyd gartref dros y môr. Mewn canlyniad y mae yn cymeryd llong, ond ar ganol y fordaith dryllir y llong gan ysturm ofnadwy. Y mae rhai yn casglu eu harian, ereill eu gemau a'u haddurniadau gwerthfawr. Gofyna un o honynt i Simonides, "onid ydych yn cymeryd dim o'ch cyfoeth i'ch canlyn?" Ac y mae yn ateb, "Y mae fy holl eiddo gyda mi?" Y mae rhai yn nosio i'r lan, ond lluwys yn boddi cyn cyraedd o herwydd eu bod wedi gorlwytho eu hunain a'u meddianau. Y mae y môr-ladron yn dyfod ac yn lladrata yr oll a feddai y rhai a ddiangasant o'r môr gyda'u bywydau, gan eu gadael yn noethion. Yn ffodus yr oedd dinas henafol Clasomenæ yn ymyl, a darfu iddynt oll fyned yno. Preswyliai yn y ddinas hon ŵr urddasol ag ydoedd yn gyfarwydd a gweithiau Simonides, ond heb ei weled erioed, er wedi dymuno hyny lawer gwaith. Croesawodd ef i'w dŷ, a rhoddodd iddo ddillad, arian, a gweision. Y mae y lleill yn gorfod cerdded oddiamgylch yn eu carpiâu, gan gardota eu bara o ddrws i ddrws. Yn ddamweiniol cyfarfyddent a Simonides, yr hwn a ddywedodd wrthynt, "Dywedais wrthyh fod fy holl eiddo genyf, ond darfu i chwi golli yr oll oedd genych chwi."

Nis gall neb ein hysbeidio o'n gwybodaeth—y trysor penaf.

Chwedl 12.—Y CI A'R YSGYFARNOG.

Ci, wedi hela yn hir ar ol ysgyfarnog, a ddaeth o hyd iddi o'r diwedd, ac a ddechreuodd ei chnoi a'i llyfu bob yn ail. Yr Ysgyfarnog yn methu deall pa beth i'w wneyd o hyny a ddywedodd, "Os ydych yn gyfaill, paham yr ydych yn fy mrathu! Ond os gelyn, paham yr ydych yn fy llyfu?"

Y mae cyfaill amheus yn waeth na gelyn agored; bydded dyn y naill beth neu y llall, ac yna ni a wyddom pa fedd i'w gyfarfod.



Chwedl 13.—Y WENOL A'R ADAR EREILL.

Yr oedd Ffermwr yn hau ei faes â llîn. Canfyddodd y Wenol hyny, a dymunodd ar yr Adar ereill ei chynorthwyo i'w ddinystrio, gan ddweyd wrthynt mai llîn oedd y defnydd peryglus hwnw ag y gwnelid yr edafedd o hono a ddefnyddid i wneyd rhwydi yr aradwr, ac felly yn achosi marwolaeth cynifer o Adar diniwaid. Ond gan na wrandawyd ar rybudd y Wenol, eginodd y llîn, a gorchuddiodd y maes. Siaradodd â hwynt eilwaith am y perygl a'u bygythiau, a chrefodd arnynt ei dynu i fyny yn yr egin, cyn iddo fyned yn mhellach. Parhasant i esgeuluso ei rhybudd, a thyfodd y llîn yn uchel a chryf. Unwaith eto dymunodd arnynt ymosod arno, gan eusicrhau nad ydoedd yn rhy ddiweddar. Ond yr oll agafodd oedd cael ei dirmygu a'i gwawdio fel prophwydes ymhongar. Y Wenol, wedi cael allan fod ei holl rybuddion yn aneffeithiol, a benderfynodd adael cymdeithas y fath greaduriaid difeddlw a diofal, cyn y byddai i'r llîn gael ei wneyd yn rhwydi i'w dinystrio. Felly, ymadawodd a'r coed, cefnodd ar yr Adar, a byth er hyny y mae wedi

gwneyd ei phreswylfa yn mhlith aneddau dynion.

Nis gellir cynorthwyo yr hwn ni dderbyn gyngor.

Chwedl 14.—Y GWYDDAU.

Yr oedd Amaethwr, gyda ffon hir yn ei law, yn gyru ei Wyddau i dref lle y bwriadau eu gwerthu; ac i ddweyd y gwir, nid ydoedd yn rhyw ry foesgar yn ei ymddygiad tuag atynt. Mewn gobaith o gael pris da am danynt y mae yn prysuro yn mlaen rhag ofn colli y farchnad (a phan y mae elw yn y cwestiwn, y mae Gwyddau a dynion yn sefyll mewn perygl o gael dioddef). Nid ydwyf yn beio yr Amaethwr, ond yr oedd y Gwyddau yn ei farnu yn wahanol, a phryd bynag y cyfarfyddent a theithiwr yn dyfod i'w cyfarfod, trinient ef yn y fath ymadroddion a hyn: "A ydyw yn bosibl cyfarfod â Gwyddau mwy anffortunus na ni? Y mae yr Amaethwr yma yn ein poeni yn fawr, a gyra ni yn ein blaenau fel pe byddem ond Gwyddau cyffredin. Nid yw y creadur yn meddwl ein bod yn ddisgynyddion urddasol o'r Gwyddau enwog hyny i'r rhai y mae Rhufain yn ddyledus am ei gwaredigaeth, ac er parch i goffiadwriaeth y rhai y cynhelir gwyliau a gwleddoedd." "Ac a oes arnoch eisiau cael eich parchu ar y cyfrif hyny?" gofynai teithiwr a elai heibio. "Wel, yr oedd ein hynafiaid ——" "Yr wyf yn gwybod hyny, yr wyf wedi darllen yr oll am yr amgylchiad; ond y mae arnaf eisiau gwybod o ba ddefnydd fuoch chwi?" "Ond darfu ein hynafiaid achub Rhufain!" "Ethaf gwir; ond pa beth wnaethoch chwi yn y ffordd hono?" "Ni! Dim!" "Yna pa rinwedd sydd yn perthyn i chwi? gadewch i'ch hynafiaid orphwys mewn heddwch. Derbyniasant hwy wobr gyfiawn; ond nid ydych chwi, fy nghyfeillion, yn dda i ddim ond i gael eich rhostio!"

Llawer yn hawlio parch o herwydd gwrhydri eu hynafiaid, pan yn amddifad o bob rhinwedd personol.



Chwedl 15.—MAWRTH A'R CERFLUNIWR.

Mawrth, yn dymuno gwybod pa faint o barch oedd iddo yn mhlith dynion, a wisgodd ei hun fel teithiwr, a chan fyned i mewn i weithdŷ Cerfluniwr, a ddechreu-oedd ofyn prisiau y gwahanol ddelwau oedd yno. Gan gyfeirio at gerffddelw o Iau, gofynodd pa faint oedd pris hwnw. “Drachma” ebe y Cerfiedydd. Chwarddai Mawrth o'r neilldu, a gofynai, “A pha faint ydyw pris y ddelw hon o Juno?” Gofynodd y dyn bris uwch am hono. Yna canfyddai Mawrth gerffddelw o hono ef ei hun. “Yn awr,” meddai ynddo ei hun, “fe wna y gŵr yma ofyn deng waith gymaint am hon, canys myfi ydwyf brif negesydd y nef, a ffynonell ei holl elw yntau.” Felly fe ofynodd iddo pa faint oedd pris y ddelw yna o Fawrth. “Wel,” meddai y Cerfiwr, “os rhowch i mi fy mhris am y ddau arall, mi a ddaflaf hwn yna i mewn i chwi yn y fargen.”

Y rhai ydynt ry bryderus i wybod pa beth y mae y byd yn ei feddwl am danynt, a gant yn gyffredin eu bod yn cael eu prasio yn llawer is nag y maent yn tybied.

Chwedl 16.—Y BLAIDD A'R LLEW.

Rhyw ddiwrnod yr oedd Blaidd wedi cipio Dafad o gorlan, ac yr oedd yn ei chario adref i'w ffau, pan y cyfarfu â Llew, yr hwn yn ddioed a gydiodd yn y ddafad ac a'i cymerodd oddiarno. Y Blaidd, yn sefyll o bell, a waeddodd allan ei fod yn gywilydd mawriddo, a'i fod wedi ei ysbeilio ef o'i eiddo. Chwarddodd y Llew, a dywedodd, “Y mae yn debyg yntau, fod eich cyfaill anwyl y bugail wedi ei roddi i chwi.”

Rhaid cael genau glân i oganu.

“Tinddu,” ebai y fran wrth y gigfran.

Chwedl 17.—YR HELIWR A'R COETTIWR.

Aeth dyn allan i hela i'r goedwig, a chan ddigwydd cyfarfod â'r Coettiwr, gofynodd iddo a welodd efe ddim o olion y Llew, ac a wyddai efe pa le yr oedd ei ffau. “Gwn,” ebai y dyn, “ac os deuwech gyda mi, mi a ddangosaf i chwi y Llew ei hun.” Ar hyny trodd yr Heliwr yn wyn ei wedd, a dechreuodd grynudrosto, a dywedodd, “O! diolch i chwi; llwybr y Llew, ac nid y Llew ei hun yr oeddwn yn chwilio am dano.”

Gall cachgi fod yn wrol o bell; ond yn mhresenoldeb perygl y mae profi gwir wroldeb.





Chwedl 18.—Y GWR CENFIGENLLYD A'R TRACHWANTWR.

Digwyddodd un tro fod Gwr Cenfigenllyd yn offrymu i fyny ei weddiau i Iau yn yr un lle ac ar yr un adeg a dyn hynod am ei drachwant. Iau, heb deimlo tuedd i gael ei boeni gan eu ceisiadau ei hunan, a anfonodd Apollo i chwilio i mewn i deilyngdod eu dymuniadau, ac i roddi i bob un yn ol fel y barnai yn oreu. Apollo, o ganlyniad, ar ol cael allan eu gwendidau, a ddywedodd wrthynt pa beth bynag a ofynai un, y byddai i'r llall ei gael yn ddwbl. Ar hyn, y Dyn Trachwantus, er fod ganddo fil o bethau y dymunai eu cael, a oedai ofyn yn gyntaf, gan obeithio derbyn rhan ddwbl; oblegid credai fod dymuniadau pob dyn yn debyg i'r eiddo ef. Trwy y moddion yma cafodd y Dyn Cenfigenllyd y fantais o roddi yn mlaen ei gais yn gyntaf, yr hyn ydoedd yn hollol unol a'i amcan; felly, heb lawer o betrusder, gweddiodd am gael y ffafr o gael tynu allan un o'i lygaidd; gan wybod, wrth gwrs, y byddai i'w gydymaith gael ei amddifadu o'r ddau.

Anela Cenfigen at arall, a chlwyfa ei hun.

Chwedl 19.—Y BLAIDD A'R MARCH.

Fel yr oedd Blaidd yn crwydro ar draws rhyw fferm, fe ddaeth at gae o geirch, ond gan nad allai ei fwyta, fe'i gadawodd ac a aeth ymaith. Yn y man fe gyfarfu â cheffyl, ac a archodd arno ddyfod gydag ef i'r cae; "Canys", meddai, "cefaïs yno geirch rhagorol, ac ni phrofais yr un o honynt, ond mi a'u cedwais i gyd i chwi, canys y mae sŵn eich dannedd chwi yn beroriaeth yn fy nghlustiau." Ond y March a'i hatebai, "Un gwydych ydych chwi! Pe gallai Bleiddiaid fwyta ceirch, rwy'n tybied na wnaech chwi ddim siomi eich cylla er mwyn eich clustiau."

Nid oes ond ychydig ddiolch yn ddyledus i'r hwn a rydd ymaith yn unig yr hyn nad all ei ddefnyddio ei hun.

Chwedl 20.—YR ASYN MEWN SWYDD.

Asyn yn cario Delw mewn gorymdaith grefyddol, a yrwyd trwy rhyw dref, ac yr oedd pawb a basient heibio yn ymgrymu yn isel. Wrth weled hyn, yr Asyn yn tybied mai iddo ef y telid yr addoliad hwn, a lanwyd â balchder, ac a wrthodai symud gam yn mhellach. Ond gosodai y gyrwr y ffon ar ei gefn yn egniol, gan ddweyd, "Yr ynfyttyn penwan! nid y chwi y maent yn ei barchu, ond y ddelw yr ydych yn chario."

Y mae ffyliaid yn priodoli iddynt eu hunain y parch a delir i'w swyddau.



Chwedl 21.—YR EPA A'R LLWYNOG.


Digwyddodd unwaith i'r bwystfilod fod mor ffol a dewis Epa yn frenin arnynt. Yr oedd ef wedi eu difyru hwynt â'i gastiau ac â'i gampiau digrifol, ac ni fynent ddim llai na'i eneinio yn frenin. Felly fu; coronwyd ef, ac yr oedd yn edrych yn dra doeth ac urddasol. Ond y Llwynog, yn ddig oblegid ynfydrwydd ei frodyr, ac yn ffeiddio rhyfyg hunandybus yr Epa, a benderfynodd ei ddarostwng ef y cyfle cyntaf. Felly, yn fuan wedi'n canfyddodd drap wedi ei osod mewn ffôs, a darn o gig yn abwyd arno; aeth yn union at yr Epa, a hysbysodd ef mai trysor wedi ei gael ar y maes ydoedd, ac mai i'r brenin yn unig y perthynai. Yr Epa, heb ddych'mygu am ddim dichell, a aeth yn ddioed i gymeryd meddiant o'r trysor; ond nid cynt yr oedd ei bawen ar yr abwyd, nac yr oedd yn dŷn yn y trap. Ar hyn, dechreuodd, mewn cywilydd a digter, ddwrddio y Llwynog, gan ei alw yn fradwr, &c. Chwarddai y Llwynog yn iawn, ac aeth ymaith, gan ddyweyd yn drahauslyd, "Brenin gwych yn wir, ac heb ddeall trap!"

Doethineb ac nid digrifwch sydd eisiau mewn llywodr-aethwr. Chwithig iawn yw os bydd y brenin yn ffolach na'r deiliaid.

Chwedl 22.—YR ASYN YN CARIO HALEN.

Rhyw ŵr, yr hwn oedd ganddo Asyn, yn clywed fod Halen yn rhad wrth fin y môr, a yrodd ei Asyn yno i brynu peth. Wedi llwytho yr anifail gymaint ag a allai, yr oedd yn ei yru gartref, pan wrth basio ymyl craig, darfu i'r Asyn lithro, a syrthio i'r afon oedd islaw iddo; yn y dwfr toddodd yr Halen, a'r Asyn wedi colli ei faich a ddaeth allan yn hawdd, ac aeth yn mlaen tua chartref yn ysgafnach mewn corph ac yspryd. Yn fuan wedy'n, cychwynodd y perchenog tua'r môr eilwaith i gyrchu Halen a llwythodd yr Asyn, os oedd bosibl yn drymach nac o'r blaen. Ar ei ddychweliad, fel yr oeddynt yn croesi y ffrwd i'r hon y syrthiasai o'r blaen, yr Asyn a syrthiodd i mewn o bwrpas, a thrwy doddiad yr Halen, fe'i rhyddhawyd oddiwrth ei faich drachefn. Y meistr yn ddig oblegid ei golled, ac yn dyfeisio pa fodd y gallai ei wella o'r càst, ar ei siwrnai nesaf at y môr a lwythodd yr anifail â baich o ysbwng. Pan y daethant at yr un ffrwd ag o'r blaen, aeth yr Asyn at ei hen gastiau drachefn, ac a roliodd i lawr i'r afon; ond gan fod yr ysbwng wedi yfed y dwfr, fe gafodd, er ei ofid, fel yr a'i yn mlaen tua chartref, ei fod yn lle ysgafnhau ei lwyth, wedi mwy na dyblu ei bwysau.

Ni wna yr un mesurau mo'r tro yn mhob amgylchiad. Gellir chwareu yr un cast unwaith yn rhy aml.



Chwedl 23.—YR AST A'R HWCH.

Cydrhwng Hwch a Gast a ddigwyddasant gyfarfod a'u gilydd, cyfododd dadl frwd yn nghylch eu ffrwythlonrwydd. Haerai yr Ast ei bod hi yn dwyn mwy o rai ieuainge ar y tro, ac yn eu dwyn yn amlach, nag un creadur pedwar-troediog arall. “Ydych,” atebai yr Hwch. “Yr ydych yn wir, ond yr ydych bob amser ar y fath frys gyda'r gwaith, fel yr ydych yn dwyn eich rhai bach i'r byd yn ddeillion.”

Gwell ychydig yn berffaith na llawer yn hanerog.

Chwedl 24.—YR HEFFER A'R YCH.

Heffer yr hon a redai yn rhydd yn y maesydd, ac ni theimlasai yr iau erioed, a wawdiai yr Ych wrth yr aradr am ymostwng i'r fath lafur a chaledwaith. Niddywedodd yr Ych ddim, ond aeth yn mlaen gyda'i waith. Yn mhen ychydig amser wedi hyn digwydd-

odd fod gwyl fawr. Cafodd yr Ych ei ddydd-gwyl i orphwys; ond dygwyd yr Heffer ymaith i'w haberthu ar yr allor. "Os hyn ydyw diwedd eich bywyd segur," ebai'r Ych, "yr wyf fi yn meddwl fod fy llafur i yn well na'ch chwareu chwi. Gwell genyf i'm gwddf deimlo yr iau na'r fwyall."

Y ffol a edrych ar yr amser presenol yn unig, ond y doeth a ystyria y diwedd.

Chwedl 25.—Y BECHGYN A'R LLYFFAINT.

Fel yr oedd nifer o fechgyn yn chwareu ar lan llyn, hwy a sylwasant ar luaws o Lyffaint yn y dwfr, ac a ddechreuasant daflu ceryg atynt. Yr oeddynt eisoes wedi lladd llawer o honynt, pan y darfu i un Llyffant mwy dewr na'r lleill, roddi ei ben uwch-law y dwfr, a'u ceryddu gan ddywedyd, "Rhoddwch heibio eich difyrwch creulon, fy mhlant; ystyriwch, y mae yr hyn sydd yn chwareu i chwi yn anghen i ni."

Anynol ydyw difyru ein hunain ar gost dolurio ereill.

Chwedl 26.—Y PYSGOD MAWR A'R RHAI BYCHAIN.

Yr oedd Pysgotwr yn tynu yn ol rwyd a daflasai i'r môr, yr hon oedd yn llawn o bob math o bysgod. Diangai y pysgod bychain trwy fescgau y rhwyd, ac aethant yn ol i'r môr, ond yr holl bysgod mawr a ddaliwyd ac a ddygwyd i'r llong.

Y mae distadledd weithiau yn achos o ddiogelwch.



Chwedl 27.—Y PAUN A'R BIODEN.

Cyfarfu yr adar i ddewis brenin. Daeth y Paun yn mlaen a chynygiodd ei hun fel ymgeisydd am yr orsedd, a dangosodd ei blyf hardd ac amlwiog gyda'r amcan o enill pleidleisiau y lliaws trwy brydferthwch ei wisg. Darfu i'r nifer mwyaf bleidleisio drosto, a churasant eu hadenydd fel arwydd o gymeradwyaeth. Ond pan yr oeddynt ar ei gyhoeddi yn frenin, daeth y Biden yn mlaen i ganol y dyrfa, a chyfarchodd y brenin newydd-etholedig fel hyn: "Rhynged bodd i'ch Mawrhydi etholedig ganiatau i un o'ch deiliaid anheilwng hysbysu i chwi ei amheuon a'i ofnau yn mhresenoldeb y dyrfa ymgynlledig? Yr ydym wedi eich dewis chwi yn frenin arnom, yr ydym ar roddi ein bywydau a'n meddianau yn eich dwylaw, a bydd ein holl obaith a'n dibyniaeth arnoch; o ganlyniad, os bydd i'r eryr, y fwltur, neu y barcut unrhyw adeg ymosod arnom, fel y mae yn debygol y gwnant, a fydd i'ch Mawrhydi fod mor dirion a chwalu ein hofnau a symud ein amheuon o berthynas i hyny trwy ein hysbysu pa fodd yr ydych yn bwriadu ein hamddiffyn


rhagddynt?" Darfu i'r cwestiwn priodol ac anateb-
adwy hwn ddwyn yr holl dorf i ystyried y pwngc gyda'r
fath ddifrifoldeb, fel y darfu iddynt ddadwneyd eu
penderfyniad, a gwrthod derbyn y Paun fel eu brenin.

Na ddilynwch y lliaws i wneuthur drwg.

Thwedl 28.—Y LLWYNOG A'R CHWIBAN.

Gwahoddodd Llwynog ryw dro Chwibon i giniawa
gydag ef, a chan feddwl difyru ei hun ar gost ei ym-
welydd, ni threfnodd ddim i'r wledd ond ychydig botes
teneu mewn dysgl fâs. Lleibiai y Llwynog hwn i
fyny yn hawdd, ond y Chwibon, o herwydd nad allai
gyda'i phig hiraen godi prin ddim o hono, oedd mor
newynog ar ddiwedd y ciniaw ag oedd yn y dechreu.
Cymerai y Llwynog ar yr un pryd arno gwyno iddi
oblegid ei bod wedi bwyta mor ychydig, ac ofnai nad
oedd y ddysgl ddim wedi ei choginio at ei harchwaeth.
Ni ddwyedodd y Chwibon fawr, ond deisyfodd ar y
Llwynog ei hanrhydeddu trwy ad-dalu yr ymweliad;
ac felly fe gytunodd i giniawa gyda hi dranoeth. Cyr-
haeddodd yn brydlon yn ol ei addewid, a dygwyd y
ciniaw ger bron yn ddioed; ond gwelodd y Llwynog,
er ei siomedigaeth, ei fod wedi ei ddodi mewn llestr
gyda gwddf hir a chul, i'r hwn y gallai y chwibon yn
hawdd roddi ei gwddf a'i phig hir, tra yr oedd yn
rhaid iddo ef ymfoddloni ar lyfu genau y llestr yn
unig. Yn analluog i dori ei newyn, fe aeth ym-
aith gan roddi y gwyneb goreu a allai arno ei hun,
a sylwi nad allai ef ddim beio ar ei letywr, yr hwn
ni wnaeth ddim ond talu yn ol iddo yn ei arian ei
hun.

*Ni ddylai y rhai a gellweiriant a theimladau ereill ddis-
gwyl cael arbed yr eiddynt hwy.*



Chwedl 29.—Y MARCH A'R LLEW.

Llew, yn gweled March ieuange graenus, a deimlodd duedd gref i'w fwyta, ond ni wyddai pa fodd i'w gael i'w afael. O'r diwedd meddylodd am y cynllun yma: rhoddodd allan ei fod yn feddyg, ag ydoedd wedi teithio llawer mewn gwledydd tramor, ac felly yn alluog trwy ei hir ymarferiad i wella unrhyw ddolur neu afiechyd ar bob math o greadur; gan obeithio trwy y ddyfais hon i gael cyfleusdra i gario ei gynllun i weithrediad. Y Ceffyl, yr hwn a amheuai ei amcan, a benderfynodd fod i fynu âg ef; ac felly, yn cymeryd arno ei fod yn credu y peth yn llawn, a dalodd ymweliad â'r Llew, a dymunodd gael ei gyngor o berthas i ddraen oedd yn ei droed, yr hon oedd wedi ei gloffi yn hollol, ac yn peri poen mawr iddo. Cydsyniodd y Llew yn rhwydd, a dymunodd gael gweled ei droed. Ar hyn cododd y Ceffyl un o'i draed ôl, a thra yr oedd y Llew yn cymeryd arno ei archwilio, rhoddodd iddo y fath droediad yn ei wyneb ag a'i llwyr syfrdanodd, a

gadawodd ef yn rholio ar y ddaear. Ar yr un pryd carlamodd y March ymaith, gan weryru a chwerthin yn braf o herwydd llwyddiant ei ddyfais, trwy ba un y dyrysodd amcan un ag oedd yn ceisio dwyn ei einioes ymaith.

Nid yn anaml y mae y drwg a fwriada y cyfrwys i arall yn disgyn ar ei ben ei hun.

Chwedl 30.—YR AFR A'R BUGAIL.


Yr oedd Gafr wedi crwydro oddiwrth y praid, a threiai y Bugail yn mhob modd i'w dwyn yn ol at ei chyfeillion. O'r diwedd, wedi llwyr fethu cael ganddi ddychwelyd trwy alw a chwibanu arni, fe gododd gareg, ac a'i tarawodd ar ei chorn gan ei dori. Wedi dychrynu wrth weled hyny, fe erfyniodd ar yr Afr i beidio dweyd wrth ei feistr, ond hi a atebodd, "O ffïolaf o fugeiliaid! fe ddywed fy nghorn yr hanes, pe na ddywedwn i un gair."

Y mae ffeithiau yn llefaru yn eglurach na geiriau.

Chwedl 31.—Y GOF A'I GI.

Yr oedd gan rhyw Of Gi bychan. Pan y byddai y Gôf yn curo ei haiarn, fe gysgai y Ci; ond y foment yr eisteddai i lawr i giniawa, fe ddeffroai y Ci. "Y corgi diog!" meddai y Gôf, gan daflu asgwrn iddo; "yr wyt yn cysgu trwy holl sŵn yr einion, ond yn deffro i fynu cyn gynted ag y clywi sŵn fy nanedd."

Y mae rhai dynion nad ydynt yn effro i ddim ond eu lles eu hunain.



Chwedl 32.—Y DYN IEUANGE A'I GATH.

Cath wedi syrthio mewn cariad â dyn ieuange, a erfyniodd ar Gwener ei chyfnwid i ferch, yn y gobaith o enill ei gariad. Trawsffurfiodd y Dduwies hi yn forwyn, a phriododd y dyn ieuange hi. Fel yr oeddynt yn eistedd yn eu hystafell, Gwener, yn dymuno gwybod a ydoedd wrth newid ei ffurf wedi newid ei natur hefyd, a osododd lygoden o'i blaen. Y Briodas-ferch, yn gwbl ddiystyr o'i gŵr, a ruthrodd o'i heisteddle, a erlidiodd y llygoden fel pe buasai am ei bwyta yn y fan; ar hynny y Dduwies, yn teimlo yn ddig o herwydd ei hymddygiad, a'i trawsffurfiodd yn ol yn Gath eilwaith, fel y byddai i'w hymarferion a'i pherson fod yn gyson â'u gilydd.

Y mae natur yn drech na dysg.

Chwedl 33.—Y GWRYCH A'R WINLLAN.

Etifedd ieuange ffol newydd ddod i feddiant o Winllan ei dad doeth, a barodd godi i fynu yr holl wrych oedd oddiamgylch i'w Winllan, oblegid nad oeddynt yn dwyn dim grawnwin. Darfu dinystriad yr holl wrychoedd hyn osod ei dir yn agored i ddyn ac anifail, ac yn bur fuan dinystriwyd ei holl winwydd. Felly fe ddysgodd y creadur gwirion, pan yn rhy ddiweddar, na ddylasai ddisgwyl grawnwin oddiar ddrain, a'i fod o gymaint pwys iddo i amddiffyn ei Winllan a'i meddianu.

Camp fawr ydyw cadw eiddo wedi eu cael. Y mae rhai yn trachwantu gormod a cholli y cwbl, neu yn arbed y geiniog a cholli y bunt.

Chwedl 34.—CYSGOD YR ASYN.

Darfu i ddyn ieuange, ar ddiwrnod tesog yn yr haf, hurio Asyn i'w gario ef o Athen i Megara. Ganol dydd yr oedd y gwres mor fawr, fel y disgynodd oddiar gefn yr Asyn, ac a fynai eistedd i lawr i orphwys yn nghysgod yr Asyn. Ond perchenog yr Asyn a'i gwrthsafodd, gan hawlio y lle hwnw iddo ei hun. "Beth," ebai y gŵr ieuange, "oni ddarfu i mi logi yr Asyn am yr holl daith?" "Do," ebai y llall, "chwi a logasoch yr Asyn, ond nid cysgod yr Asyn." Tra yr oeddent fel hyn yn ffraeo ac yn ymladd am y lle, cymerodd yr Asyn y coesau a diangodd ymaith.

Mae llawer yn ymdrechu am y cysgod nes colli y sylwedd.



Chwedl 35.—YR ASYN YN NGHROEN Y LLEW.

Asyn yn canfod croen Llew, a'i dododd am dano; ac yn myned yn y dwyllwsg yma i'r coed a'r caeau, a barodd ddychryn mawr i'r deadelloedd a'r anifeiliaid. O'r diwedd, cyfarfydda a'i berchenog, ceisiai ei ddychrynu yntau hefyd; ond y gŵr da, yn gweled ei glustiau hirion yn ymwithio allan, a'i hadnabu ar unwaith, a chyda'i ffon gref a'i gwnaeth yn ymwybodol nad ydoedd, er wedi ei wisgo mewn croen Llew, ond—Asyn.

Dylai dynion fod yr hyn yr ymddangosant eu bod. Y mae y rhai a geisiant ymddangos mewn cymeriadau na pherthyna iddynt yn sefyll mewn perygl o gael eu darganfod.

Chwedl 36.—Y SERYDDWR.


Seryddwr a arferai gerdded allan bob nos i syllu ar y sêr. Digwyddodd un noswaith, fel yr oedd efe yn crwydro o'r tu allan i'r ddinas, gyda'i holl feddylfryd wedi ei gloi i fyny yn y nefoedd, iâdo syrthio i mewn i ffynon. Ar ei waith yn gwaeddi allan am help, daeth rhywun a glywodd ei floeddiadau, at enau y ffynon, ac wedi clywed pa fodd y digwyddasai iddo, a sylwodd, "Wrda, tra yr ydych yn ymdrech chwilio i mewn i ddirgelion y nefoedd, yr ydych yn anghofio y pethau cyffredin sydd dan eich traed."

Gwaith doeth ydyw syllu ar bethau mawr y nefoedd; ond gwaith ffol yw esgeuluso pethau bychain y ddaear.

Chwedl 37.—Y MOCHYN A'R DEFAID.

Cymerodd Mochyn ieuange ei lety mewn corlan defaid. Rhyw ddiwrnod daeth y Bugail ac a gydiodd ynddo, pan y gwingodd ac y gwaeddodd yntau â'i holl egni. Y Defaid a'i beient ef am waeddi allan, gan ddweyd, "Y mae y Bugail yn fynych yn gafael ynom ni, ac ni byddwn ni yn gwaeddi." "Ië," ebai yntau, "ond nid yw ein hamgylchiadau yr un; efe afaela ynoch chwi er mwyn eich gwlan, ond ynof fi er mwyn fy nghig."

Nid oes un golled i'w chydmaru i golli bywyd.



Chwedl 38.—Y CEILIOG A'R LLWYNOG.

Llwynog, yn myned heibio i ffermdy un boreu yn yr haf, a ddaliwyd mewn magl, a osodwyd i'r pwrpas hwnnw. Canfyddodd y Ceiliog pa beth a ddigwyddodd; ac heb deimlo llawer o duedd i fyned yn rhy agos i'r fath elyn peryglus, a nesaodd ato yn ochelgar, ac a edrychodd arno, ond nid heb deimlo peth arswyd a chyffro meddwl. Nid cynt y gwelodd Madyn ef, nag y cyfarchodd ef yn ei ddull mwyaf cyfrwys a llwynogaidd. “Fy anwyl gefnder,” meddai, “yr ydych yn gweled y fath ddamwain anffortunus sydd wedi fy ngoddiweddyd i yma, a hyny i gyd o'ch achos chwi: oblegid, fel yr oeddwn yn ymwthio trwy y gwrych draw, ar fy ffordd gartref, clywais eich llais, a phenderfynais droi i ofyn i chwi pa fodd yr oeddych, cyn myned yn mhellach: ond ar y ffordd, cyfarfyddais a'r ddamwain yma; ac felly rhaid i mi yn ostyngedig ofyn i chwi am gylllell i dori y llinyn yma; neu, o'r hyn lleiaf, y bydd i chwi gelu fy anffawd hyd nes y caf amser i gnoi y llinyn â'm danedd.” Y Ceiliog, yn gweled sut y safai pethau, ni ddywedodd ddim mewn atebiad, ond hedodd ymaith cygynted ag y gallai, a rhoddodd yr holl hanes o flaen y ffermwr;

yr hwn, gan gymeryd arf i'w ganlyn, a ddaeth ac a laddodd y Llwynog cyn iddo gael amser i ddiange.

Gwnewch wahaniaeth wrth estyn eich cymwynasau. Y ffol a estyn gymwynas i bawb a'i gofyno, ond y call a ofala ar fod y gwrthddrych yn deilung.

Chwedl 39.—Y BUGAIL A'R MÔR.

Bugail a arweiniodd ei braidd i bori ar fin y traeth, ac wrth weled y Môr yn gorwedd mewn llonyddwch esmwyth a thawel, efe a feddianwyd a dymuniad cryf i hwylio drosto. Felly fe werthodd ei holl Ddefaid ac a brynodd lwyth o Balmffrwyth, ac a lanwodd lestri, ac a aeth ymaith. Nid oedd wedi morio yn mhell pan y cyfododd tymhestl; aeth ei long yn ddrylliau, collwyd ei Balmffrwyth a'r cwbl, ac ni chafodd efe ond diangfa fawr am ei fywyd. Ychydig amser wedi'n, yr oedd y Môr eto yn dawel, a daeth un o'i gyfeillion i fynu ato a dechreuodd ganmol ei dawelwch prydfarth. "A!" meddai, "gwyliwch fy anwyl gyfaill, rhag y gwyneb tawel yna; nid ydyw ond edrych am eich Palmffrwyth."

Os oes dau wyneb yn bosibl, ni ddylid ymddiried dim nes gweled y ddau. Ni ddylid ymddiried llawer i'r cyfnewidiol.

Chwedl 40.—Y CWN A'R CRWYN.

Rhyw Gŵn newynog, yn gweled nifer o Grwyn îr, y rhai yr oedd Crwynwr wedi eu gadael yn ngwaelod rhyw ffrwd, a hwythau yn analluog i'w cyrhaedd, a benderfynasant i yfed yr afon i fynu i gael at yr ysglyfaeth. Felly hwy a aethant ati o ddifrif, ond hwy oll a ymholltasant cyn erioed ddod yn agos at y crwyn.

Y rhai a ymdrechant i gyrhaedd yr hyn sydd anmhosibl iddynt, a thrwy foddion croes i reswm, ydynt dueddol i andwyo eu hunain yn yr ymdrech.



Chwedl 41.—Y BRIODAS ANGEUOL.

Llew, wedi derbyn cymwynas gan Lygoden, ac yn penderfynu ad-dalu ei charedigrwydd os gallai, a ddymunodd ar ei gymwynaswr i nodi ei thelerau ei hun, gan ei sicrhau y caffai ei dymuniad hyd eithaf ei allu. Y Llygoden, wedi ei thanio gan y cynyg hael-frydig, ni wnaeth ystyried yn gymaint pa beth fuasai yn briodol iddi ofyn, ond pa beth oedd yn ngallu y Tywysog i'w roddi iddi; ac felly yn rhyfygus a ofynodd am y Llewes ieuange yn wraig iddi. Cydsyniodd y Llew; ond pan yr oedd ar fedr rhoddi y Dywysoges ieuange yn ei meddiant, darfu iddi hi, yn ei diofalwch yn cerdded, ddodi ei phawen ar ei phriod anffortunos, a gwasgodd hi i farwolaeth.

Pwngc pwysig bywyd yw dewis gwraig; ar y dewisiad y dibyna cysur neu anghysur yr oes.

Chwedl 42.—Y BLAIDD A'R AFR.

Blaidd yn gweled Gafr yn pori ar ddibyn craig uchel, ac mewn lle nad allai efe fyned ati, a ddeisyfodd arni ddod yn îs i lawr, rhag i'w throed lithro ac iddi syrthio o'r fath uchder mawr; "ac heblaw hyny," meddai, "y mae y borfa yn llawer melusach a helaethach i lawr yma." Ond atebai yr Afr, "Esgusodwch fi; nid er mwyn fy nghiniaw i yr ydych yn fy ngwahodd, ond er mwyn yr eiddoch eich hun."

Os dechreuau gelyn maleisddrwg siarad yn rhy deg, gellir amheu ei ddibenion.

Chwedl 43.—Y GWLAW A'R TIR.

Aeth Cwmwl mawr dros wlad ag ydoedd wedi ei sychu i fyny gan wres yr haf, ond ni ollyngodd gymaint ag un diferyn i'w hadfywio. Yn fuan gollyngodd swm mawr o wlaw pan uwchben y môr, ac yna dechreuodd son am ei haelioni yn nglywedigaeth mynydd cyfagos. "Pa ddaioni wnaeth dy haelioni?" gofynai y mynydd. "Pe buaset wedi gollwng dy gynwys ar y tir, buaset wedi achub cymydogaeth rhag newyn. Am y môr, fy nghyfaill, y mae ganddo ddigonedd o ddwfr, heb i ti ychwanegu dim ato."

Cyfranwn ein cymwynasau i'r anghenus ac nid i rai a digonedd ganddynt.



Chwedl 44.—Y CARW WRTH Y LLYN.

Carw yn yfed o lyn ag oedd yn adlewyrchu ei gysgod yn ei ddyfroedd grisialaidd, a ddechreuodd edrych arno ei hun gyda boddhad mawr. “Wel yn wir! y fath bâr ardderchog o gyrn sydd yna! Mor delaid yr addurnir fy ael gan y corngangau hyn! Gwyn fyd na byddai fy nhraed mor brydferth a’m hael addurnol!” Tra yr ydoedd yn myfyrio fel hyn, brawychwyd ef gan swn helwyr a chŵn. Ymaith yr â, a thrwy ddefnyddio ei draed chwim, a adawodd ei erlidwyr yn bell ar ei ol. Ond yn fuan wedin, wrth ymwithio i mewn i ddyryslwyn tewfrig, aeth ei gyrn yn dŷn yn y cangau, goddiweddwyd ef gan y cŵn, a thynasant ef i lawr. “Y fath greadur anffortunos ydwyf!” gwaeddai; “yr wyf yn cael mai y cynn hyn, o’r rhai yr oeddwn mor falch, sydd wedi bod yn achos o’m dinystr; a gallasai yr aelodau a ddi-brisiwn gymaint sicrhau fy niogelwch.”

Y defnyddiol o flaen yr addurnol; rhinwedd sylweddol y meddwl o flaen swynion prydferthwch personol.

Chwedl 45.—YR AMAETHWR AI GEFFYL.


Fel yr oedd Amaethwr yn hau Ceirch un diwrnod, darfu i'w ymddygiad beri syndod mawr i geffyl ag ydoedd heb gyraedd oedran a synwyr, a ddigwyddai sefyll gerllaw. “Y fath ffolineb,” meddyliai y Ceffyl, “ydyw taflu y ceirch i'r pridd fel yna. Gymaint mwy o les wnelsai pe cawsw'n i ef!” Edrychai ar yr holl drafodaeth o'r dechreu i'r diwedd fel ynfydrwydd. Ond tyfodd y ceirch i fyny, a phan ddaeth yr haf, medwyd ac ystoriwyd ef gan yr Amaethwr, a chafodd y ceffyl a'i gwawdiai fyd da wrth ymborthi arnynt ar hyd y gauaf.

Yr ydym, fel y Ceffyl ynfyd, yn rhy barod i feio gweithrediadau Rhagluniaeth, er heb allu gweled y diwedd na'r amcan mewn golwg.

Chwedl 46.—Y TARW A'R AFR.

Tarw yn cael ei ymlid gan Lew, a ffodd i ogof yn yr hon yr oedd Gafr wyllt wedi gwneyd ei chartref. Ar hyny dechreuai yr Afr ymosod arno, gan ei bwtian a'i chyrn. “Na thybiwch,” meddai y Tarw, “os goddefaf hyn yn awr mai y chwi yr wyf yn ei ofai. Gadewch i'r Llew unwaith fyned o'r golwg, a mi a ddangosaf yn fuan i chwi y rhagor rhwng Tarw a Gafr.”

Dynion gwael a gymerant fantais ar brofedigaethau eu cymydogion i'w poeni; ond gall yr amser ddod pan yr edifarhant eu traha.



Chwedl 47.—Y LLWYNOG YN Y FFYNON.

Llwynog, ar ol syrthio i Ffynon, a lwyddodd, trwy wthio ei cwinedd i'r ochrau, i gadw ei ben uwchlaw y dwfr. Yn fuan wedi'n, daeth Blaidd ac a edrychodd dros yr ymyl, i'r hwn y gofynodd y Llwynog, gyda thaerineb, am gynorthwy, gan ofyn iddo estyn rhaff iddo fel y gallai ddianc o'r lle peryglus. Y Blaidd, yn teimlo drosto yn ei anhapus gyflwr, a'i cyfarchodd fel hyn: "Ah! Rinallt druan!" meddai; "y mae yn ddrwg genyf drosot yn fy nghalon. Pa fodd y daethost i'r fath sefyllfa beryglus?"—"Aros, gyfaill," atebai y Llwynog, "os wyt ti yn dymuno yn dda i mi, paid a sefyll i ofidio drosof, ond estyn rhyw gymorth i mi mor fuan ag y gelli; oblegid cy-sur oer yw cydymdeimlad pan y mae un at ei ên yn yn y dwfr, ac o fewn trwch blewyn i newynu neu foddi."


Profir cyfaill mewn adfyd. Mae geiriau teg yn dda, ond gweithredoedd da yn well.

Chwedl 48.—Y DDAU GI.

Un diwrnod y mae Carlo yr hen gi gwylio gweithgar a ffyddlon yn gweled ei hen gydymaith, y moethus a'r chwareus Tango, yn gorwedd ar glustog esmwyth wrth ffenestr. Bron a chael ei orchfygu gan deimlad, cyfarcha ei hen gydymaith, "Pa fodd y mae pethau, Tango, ar ol i'r meistr eich cymeryd i'w balas? Yr ydych yn cofio, yn ddiameu, ein bod yn aml bron a chael ein newynu i farwolaeth. Pa beth ydych yn wneyd yn awr?" "Byddai yn anheg pe bawn yn cwyno ar fy sefyllfa," atebai Tango, "y mae fy meistr yn bobpeth ag y dymunwn iddo fod. Yr wyf yn byw yn ddedwydd a moethus. Yr wyf yn bwyta fy mwyd o lestri arian, a phan yn flinedig y mae genyf le esmwyth i gysgu arno. Ond dywed di pa fodd yr wyt yn dyfod yn mlaen?" "O berthynas i mi," ebai Carlo, gyda phen gogwyddedig a chynffon lipa, "y mae fy mywyd yn debyg i'r hyn yr arferai fod. Yr wyf yn dyoddef oddiwrth oerni a newyn, a thra yn gwylio dros eiddo fy meistr gwlychir fi yn aml at fy nghroen, byddaf yn cysgu yn nghysgod y clawdd neu rywle y gallaf gael lle, ac os digwydd i mi gyfarth ar adeg anmhriodol fflangellir fi. Ond dywed wrthyf, Tango, pa fodd y buost mor ffodus, a thithau mor fychan a gwan, tra yr wyf fi yn gweithio fy hun i farwolaeth heb gael yr un wobwr. Pa beth wyt yn wneyd?" "Pa beth ydwyf yn wneyd?" atebai Tango; "cwestiwn braf i'w ofyn! gwneyd! Wel, yr wyf yn cerdded o amgylch ar fy nhraed ôl."

Y mae y diwerth a'r diog yn aml yn cael mwy o barch na'r gweithiwr ffyddlon.





Chwedl 49.—YR ASYN YN BWYTA'R YSGALL.

Yr oedd Asyn wedi ei lwytho â bwydydd rhagorol o wahanol fathau, y rhai, yn amser cynhauaf, a gariai i'r maes i'w feistr a'r medelwyr i giniawa arnynt. Ar y ffordd cyfarfyddodd â thwmpath o ysgall braf, a thrwy ei fod yn dra newynog, dechreuodd ei fwyta yn awchus; a thra wrth y gorchwyl, meddyliai fel hyn: "Pa sawl glwth fuasai yn teimlo ei hun yn ddedwydd pe cawsai afael yn y danteithion amrywiol sydd yn awr ar fy nghefn! Ond i mi y mae yr Ysgall chwerw a phigog hyn yn fwy blasus a hyfryd na'r wledd fwyaf cyfoethog a danteithiol."

*Yr hyn sydd yn fwyd i un sydd yn wenwyn i'r llall.
Pob un yn ol ei chwaeth.*

Chwedl 50.

Y DDAFAD A'R CARW.

Dymunodd Carw am gael benthyg bwsial o wenith gan y Ddafad, gan gynyg y Llwynog fel meichiau. Y Ddafad yn ofni yn mlaen llaw ei dwyll, a ddywedodd, "Y mae y Llwynog yn byw ar dwyllo a lladrata, a chwithau i ddiange ymaith pan y ceisir eich dal. Pa le y gallaf gael gafael arnoch pan ddaw dydd y talu?"

Gochelwch ddyn cyfrwys yn feichiau.

Chwedl 51.

Y DDAFAD, Y CI, A'R BLAIDD.

Camgyhuddid Dafad gan Gi o fenthyca torth o fara oddiarno, a hawliai ei chael yn ol. Pan ddaeth yr achos i gael ei brofi, galwyd ar y Llwynog yn dyst o du y Ci, yr hwn a sicrhaodd y llys fod yr oll a ddywedai y Ci yn wirionedd. Felly trodd yr achos yn erbyn y Ddafad, a gorfodwyd hi i dalu yr hyn nad ydoedd yn ddyledus arni. Yn mhen ychydig ddyddiau gwelodd y Ddafad y Llwynog yn gorwedd mewn ffau ddofn, yn ymyl marw, a dywedodd, "Y mae y duwiau yn dwyn arnat y gospedigaeth yna am dy dwyll."

Y mae cosbedigaeth yn aros y camgyhuddwr.



*Chwedl 52.*

YR AFANC A'I ERLIDWYR.

Dywedir fod gan yr Afanc (creadur ag sydd yn byw gan mwyaf yn y dwfr) ryw ran berthynol iddo ag a ystyrir yn dda fel meddyginiaeth, ac ar y cyfrif hwn erlidir a lleddir ef yn aml. Un tro, fel yr oedd un o'r creaduriaid hyn yn cael ei erlid yn dôt gan y cŵn, ac heb wybod pa fodd i ddianc, a feddylodd ynddo ei hun am y rheswm oedd gan yr erlidwyr dros geisio ei ddal, a chyda phenderfyniad a phresenoldeb meddwl mawr, torodd allan â'i ddanedd y dernyn ag a geisiai ei erlidwyr, a thaflodd ef tuag atynt, ac felly achubodd ei fywyd.

Pob peth ddyry dyn am ei einioes. Y mae y croen yn nes na'r wisg.



Chwedl 53.—Y WIWER A'R LLEW.

Gwasanaethwyd Llew mor ffyddlon gan Wiwer fel y cafodd addewid o lonaid trol o gnau yn wobwr. Mae amser yn myned heibio, ond nid yw y cnau yn cael eu rhoddi, ac y mae y Wiwer yn aml mor newynog fel y mae yn cael trafferth i edrych mor siriol ag y dylai yn mhresenoldeb ei meistr breiniol. Ambell waith wrth fyned heibio trwy y goedwig gwela ei chymdeithion yn y dyrysni, a chlywa hwy yn tori cnau, ac yn ymddangos wrth eu bodd. Y mae yn aml ar fin ailymuno â hwy, ond pan yn symud tua'r coed gelwir arno yn ol at rhyw orchwyl pwysig. O'r diwedd y mae y Wiwer yn myned yn hen, a theimla y Llew ei fod braidd ar y ffordd. Y mae yr amser wedi dyfod iddo ymneillduo oddiwrth orchwyllion ei swydd. Felly dodir y Wiwer o'r neilldu, a derbynia y gertiad gnau o'r diwedd. Cnau braf mewn gwirionedd, y fath ag na welir yn aml; ffrwyth dewisedig, pob cneuen yn berffaith. Y mae un peth, pa fodd bynag, yn anffortunus. Y mae y Wiwer wedi colli ei ddanedd er's tro.

Na adawer teilyngdod heb ei wobwr nes yr elo yn analluog i'w mwynhau.

Chwedl 54.—Y BACHGEN A'R CI.

“Keeper, yr ydwyf yn myned am dro i'r wlad, a ddeui di gyda fi,” ebai John wrth yr hen gi ffyddlon. “Caraswn ddyfod i'ch canlyn,” ebai y ci, “ond nis gallaf.” “Paham, Keeper?” “Y mae gofal y tŷ arnaf, a rhaid i mi aros yma rhag ofn y daw lladron i geisio tori i mewn iddo, a lladrata eiddo fy meistr.”

Dyledswydd o flaen pleser.

*Chwedl 55.*

Y BACHGEN YN YMDROCHI.

Bachgen yn ymdrochi mewn afon, a aeth i le rhyddwfn iddo, ac yr oedd ar suddo pan y gwelodd ŵr yn pasio heibio, ac fe waeddodd ar hwnw â'i holl egni am ymward. Dechreuodd y gŵr roddi gwrs i'r bachgen am ei ryfyg; ond gwaeddodd yr hogyn allan, "O! Syr, achubwch fi yrwan, a rhowch y wrs i mi wedi'n."

Mae llawer yn barotach i roi cyngor nag i roi help.



Chwedl 56.

Y MORGRUGYN YMFFROSTGAR.

Yr oedd Morgrugyn penodol yn hynod o gryf. Dywed tystion credadwy ei fod yn gallu codi dau ronyn o haidd ar unwaith. Heblaw hyny yr oedd yn enwog am ei wroldeb. Byddai yn ymosod ar bob pryf a welai, a llawer gwaith y mentrodd ymladd â phryf copyn. Yn ei gartref ni siariadid am ddim ond ei alluoedd anghyffredin, ac mor uchel a chyffredin y daeth y ganmoliaeth a dderbynai fel y trodd yn ei ben o'r diwedd. Yn awyddus am ogoniant newydd, penderfynodd ddangos ei hun yn y dref gyfagos, ac yno o ganlyniad y trodd ei wyneb, gan sefyll yn syth ar ben llwyth o wair. Ar ei ddyfodiad disgwyliai greu cyffro, ond er ei syndod nid oedd neb yn cymeryd y sylw lleiaf o hono. Yn ofer y cymerddeilen a'i throi o amgylch ei ben. Y mae hyny a gorchestion ereill yn pasio yn ddisylw. Nid oes neb yn ei gydnabod mewn modd yn y byd. Wedi blino o'r diwedd wrth geisio dangos allan ei alluoedd, sylwa, gyda gradd o siomedigaeth yn ei lais, wrth y ci a orweddai yn ymyl y drol, "Wel, yn wir, rhaid i ti gyfaddef nad oes gan bobl dy dref di na llygaid na synwyr cyffredin. Pwy byth fuasai yn breuddwydio na buasai neb yn gwneyd y sylw lleiaf o honof, er fy mod wedi ymdrechu a'm holl egni am awr gyfan? Ac ar yr un pryd y mae holl forgrug ein pentwr ni yn unllais yn fy nghlodfori ac yn cydnabod fy ngalluoedd." Ac y mae yn myned gartref yn ddigalon iawn.

Y mae dyn bychan yn mhlith rhai llai nag ef ei hun yn meddwl ei hun yn fwy na phawb, ond ar ol myned allan i'r byd yn darganfod ei gamgymeriad.

*Chwedl 57.***Y CI A'R DDAFAD.**

Darfu i Gi roddi cyfraith ar Ddafad am ddyled, a phenodwyd y Barcud a'r Llwynog i fod yn farnwyr. Darfu iddynt hwy, heb siarad llawer ar y mater, na sylwi fawr ar wendid y dystiolaeth, roddi dedfryd o blaid y Ci; yr hwn yn uniongyrchol a rwygodd y Ddafad druan, ac a ranodd yr ysgerbwd gyda'r barnwyr anghyfiawn.

Dylai barnwyr fod yn ddiduedd.



Chwedl 58.—Y WIWER FFW DANUS.

Ar ddiwrnod gwyl ymgasglodd holl drigolion pentref at dŷ eu meist'r, i edrych gyda syndod ar Wiwer ag ydoedd mewn *cage* y tu allan i'r drws. Yr oedd y *cage* wedi ei wneyd i gael ei droi o amgylch trwy lafur y Wiwer. Yr oedd yn gosod ei bawenau bychain ar risiau yr olwyn, ac yn troi y *cage* gyda chyflymder mawr. "Anwyl gymydog," ebai Bronfraith a safai gerllaw, "a fyddwch chwi cygystal a dweyd wrthyf pa beth ydych yn wneyd yn y fan yna?" "Ah, anwyl gyfaill," atebai y Wiwer, "y mae genyf i weithio yn ddiymaros trwy'r dydd. Mewn gwirionedd yr wyf yn negesydd i foneddwr urddasol. Nis gallaf byth aros am funud i fwyta nac yfed, na chymeryd fy anadl," ac â yn mlaen yn brysur gyda'i orchwyl o droi y *cage*. "Felly yn wir," ebai y Bronfraith fel yr eheda ymaith, "Yr wyf yn gweled yn amlwg dy fod yn rhedeg yn gyflym, ond eto yr wyt i'th gael yn wastad yn yr un man."

Aml i ddyn prysur ac ymyrgar yn dychmygu fod ei weithredoedd o bwys mawr, pan na bydd neb arall yn edrych arnynt felly.

Chwedl 59.—Y TARW A'R LLO.

Yr oedd Tarw yn ceisio gwthio yn mlaen trwy fynedfa gul i fyned i'r beudy, a darfu i Lo a safai gerllaw anturio ceisio dangos iddo pa fodd i gyraedd yr amcan, pan yr atebodd y Tarw,—“Dal dy dafod, yr wyf yn gwybod hyny cyn dy eni di.”

Na fydded i chwi byth anturio dysgu rhai doethach na chwi eich hunain.

*Chwedl 60.*

Y DRAENOG A'R NADROEDD.

Draenog yn chwilio am le i gysgodi, a ofynodd ganiatad i ryw Nadroedd am gael myned i'w twll. Gallodd eu perswadio, a chafodd, o ganlyniad, fyned i mewn; ond poenwyd hwy mor fawr gan ei bigau blaenllym, fel yr edifarhasant am fod mor barod i roddi caniatâd iddo, a dymunasant arno fyned ymaith, a gadael y twll iddynt hwy. "Na wnaf," ebe ynte, "gall y sawl nad ydynt yn hoffi y twll ei adael; am danaf fi, yr wyf yn eithaf dedwydd yn fy lle."

Byddwch ochelgar wrth ddewis eich cyfeillion, rhag y byddwch yn edifarhau pan y bydd yn rhy ddiweddar. Gwell bod eich hunan nac mewn cwmni drwg.

Chwedl 61.

Y CEILIOG TWRCI A'I BLANT.

“Gwrandewch fy mhlant,” ebai Ceiliog Twrci, “yr ydwyf am i chwi bob amser fod yn foesgar a gostyngedig; er dim peidiwch a chweryla a myned i dymherau drwg; gadewch ymladd i blant drwg. Os na thalwch sylw i'r cynghorion hyn bydd i mi eich ceryddu yn llym.” Ar hyny, dyma fachgen yn dyfod i'r buarth yn gwisgo cap coch, ac mewn munud yr oedd yr hen geiliog Twrci yn berwi mewn tymher ddrwg, a rhedodd ar ol y bachgen gan fygwth ei ddifetha.


Gwell esiamp! na chynghor.

Chwedl 62.

Y GIGFRAN A'R CI.

Trwy gyfrwysdra cafodd Cigfran gyfle i gipio tamaid o gig oedd gan Gi. Rhedodd y Ci ar ei hol, a dywedodd wrthi, “Yr hen Ladrones! A wyt ti am gymeryd fy nhamaid cig ymaith.” “Aros,” ebai y Gigfran, “a wyddost ti fy mod yn perthyn i'r Heddeidwaid, ac mai fy ngwaith yw edrych ar ol lladron.” Ar hyny gostyngodd y Ci ei glustiau, a rhedodd ymaith, oblegid gwyddai mai wedi lladrata y cig yr oedd.

Yr euog a ffy heb neb yn ei erlid.

*Chwedl 63.*

CYMERYD YR UDGANWR YN GARCHAROR.

Udganwr a gymerwyd yn garcharor mewn rhyfel, a erfyniodd yn daer am arbediad, gan dystio ei ddiniweidrwydd, a sicrhau na laddodd ac nad allai ladd yr un dyn; nad oedd ganddo arfogaeth, ond ei udgorn yn unig, yr hwn yr oedd yn rhaid iddo ei chwythu pan orchymynid iddo. “Am y rheswm yna,” ebai ei elynion, “yr ydym wedi penderfynu na bydd i ni dy arbed; oblegid er nad wyt ti byth yn ymladd dy hunan, eto gyda'r offeryn gwael yna yr wyt yn chwythu i fyny elyniaeth rhwng pobl ereill, ac felly yn dyfod yn achlysur tywallt llawer o waed.”

Mae'r cynorthwyr mor euog a'r gweithredwr.

Chwedl 64.—Y TAD A'I DDWY FERCH.

Yr oedd gan ŵr ddwy ferch, un o ba rai a briododd Arddwr, a'r llall Grochenydd. Yn mhen amser fe aeth i dalu ymweliad â'r Garddwr, a gofynodd i'w ferch pa fodd yr oedd arni. "Da iawn," atebai hithau, "y mae genym bob peth sydd arnom eu heisiau; nid oes genyf ond un dymuniad, sef ini gael cyflawnder o wlaw i ddwyfrydau ein llysiau." Wedi hyn aeth y Tad i ymweled â'r Grochenydd, a gofynodd i'r ferch arall pa fodd yr oedd pethau gyda hithau. "Nid oes arnom eisiau dim," meddai hi, "ond yn unig gobeithiaf y bydd i'r hîn deg a'r haul poeth yma barhau i grasu ein priddfeini." "Wel, wel!" meddai y Tad, "os ydych chi yn deisyfu hîn sych, a'ch chwaer hîn wlawog, am ba un y rhaid i mi weddio fy hun?"

Os nad ellir pleidio un cyfaill heb ddigio y llall, gwell bod yn ddistaw.

Chwedl 65.—Y CI A'R HWRDD.

CI.—Cymer ofal, Hwrdd bach, oblegid yr wyf am dy frathu.

HWRDD.—Cymer di ofal, Gi bach, neu mi a'th gorniaf.

CI.—Y mae genyf ddannedd miniog, cymer ofal!

HWRDD.—Y mae genyf finau ddau gorn. Edrych atat dy hun!

CI.—Na, paid Hwrdd bach, nid oeddwn ond cellwair; gad i ni fod yn gyfeillion, a chwareu yn ddedwydd a'n gilydd.

Llawer un yn rhoddi ei arfau i lawr, ac yn cyngy amodau heddwch, pan y gwel nas gall goncro ei wrthwynebydd.

*Chwedl 66.*

YR ARTH A'R CYCHOD GWENYN.

Arth, ar ol dringo dros glawdd i fan lle y cedwid Gwenyn, a ddechreuodd ysbeilio y Cychod, a lladrata y mêl o honynt. Ond darfu i'r Gwenyn, i ddial am y niwaid, ymosod arno yn un haid ar unwaith; ac er nad oeddynt yn alluog i drywanu trwy ei groen garw, eto, gyda'u colynau bychain, darfu iddynt ei boeni i'r fath raddau yn ei lygaid a'i ffroenau, fel, yn methu dyoddef y boen lymdost yn hwy, y darfu iddo yn ei wylltineb rwygo y croen dros ei glustiau a'i bawenau ei hun, a dyoddefodd ddigonedd o gospedigaeth am y niwaid a wnaeth i'r Gwenyn wrth ddryllio eu tai a lladrata eu heiddo.

Na ddiystyrer gelynion bychain a chlwylfau bychain.

Chwedl 67.—YR AFONYDD A'R MOR.

Digwyddodd ar dro i'r Afonydd gydfwriadu yn erbyn y Môr, a chan fyned gyda'u gilydd ato, hwy a'u cyhuddasant, gan ddweyd, "Paham, pan yr ydym ni yr Afonydd yn tywallt ein dyfroedd i chwi mor beraidd a melus, yr ydych chwi yn union yn eu gwneyd mor hallt a diflas?" Y Môr, yn gweled y dymher yr oeddynt ynddi, a atebodd yn gwta, "Os nad ydych yn dymuno myned yn hallt, gwelwch yn dda gadw draw oddiwrthyf yn hollol."

Nid oes fawr o gwyn i'r rhai a redant yn wirfoddol i brofedigaeth. Os mynwn ymgadw yn bur, ymgadwn oddiwrth bob peth croes i hyny.

Chwedl 68.—Y CROCODILE A'R CI.

Dywedir fod y Cŵn cyfrwys yn yfed tan redeg yn afon y Nile, rhag iddynt gael eu cipio a'u lladd gan y *Crocodiles*. Fel yr oedd un o'r Cwn yn gwneyd felly, dywedodd un *Crocodile* fel hyn wrtho: "Cymer bwyll fy nghyfaill; bydded i ti yn ddiofn yfed faint fynot ti o ddwfr." Dywedodd y Ci, "Gwnelswn hyny yn wir, oni bai fy mod yn gwybod am dy awydd i'm eig."

Ofer ceisio doddi magl i ddal y cyfrwys.





Chwedl 69.—Y DAIL A'R GWREIDDIAU.

Ar ddiwrnod neillduol, yr oedd Dail Coeden Fawr yn canu eu canmoliaeth eu hunain, gan alw sylw at eu prydferthwch a'u gwyrdd-der, a'r cysgod a roddent i'r Eos ac i'r Bugail. "Gallech fforddio dweyd gair am danom ninau hefyd," ebai llais mwyn o'r ddaear. "Pwy sydd yn meiddio ein hanerch yn y dull trahaus yna? Pwy ydych chwi, ag sydd yn rhyfygu ein galw i gyfrif?" ebai y Dail, gan daflu eu hunain yn ol ac yn mlaen ar y Cangau. "Nyni yw y rhai sydd yn y gwaelodion tywyll yma yn cyfranu maeth i chwi. Onid ydych yn ein hadnabod? Gwreiddiau y Goeden ar yr hon yr ydych yn tyfu ydym ni. Llawenychwch yn eich gogoniant tra y parhao eich dydd. Ond cofiwch ein bod yn gwahaniaethu oddiwrth ein gilydd yn hyn—y mae y pren yn cael ei wisgo â Dail newyddion bob gwanwyn; ond os bydd i'r gwreiddiau farw, nis gallwch chwi na'r Goeden fyw am foment awr."

Pob dosparth yn y Wladwriaeth yn angenrheidiol; ac ni ddylai yr uchel ddirmysgu yr isel, na'r isel sarhau yr uchel.

Chwedl 70.—Y DIAMWNT A'R GAREG.

Diamwnt wedi syrthio ar y ffordd a adawyd yno am beth amser. O'r diwedd pigwyd ef i fynu gan fasnachwr, a chymerwyd ef i'r farchnad i gael ei werthu. Mewn canlyniad daeth yn un o emau y goron frenhinol. Careg a ddigwyddai orwedd yn ei ymyl pan yr oedd ar y ffordd, yn clywed am ei ddyrchafiad, a grefodd ar un oedd yn myned heibio i'w chymeryd i'r dref gyfagos, gan ddweyd, "Paham y dylwn aros yma i ddyoddef oddiwrth wlaw, ac eira, ac ystormydd, tra y mae y Diamwnt yn mwynhau y fath anrhydedd? Pa fodd y mae wedi cyrhaedd y fath enwogrwydd nis gallaf ddyfalu. Am lawer o flwyddi bu yma yn gorwedd wrth fy ochr. Nid ydyw ond Careg wedi'r cwbl, yr un fath yn gywir a minau. Yr wyf yn dymuno arnoch fy nghymeryd! Pwy all ddweyd? Mor fuan ag y'm gwelir yno, bydd i minau, efallai, gael fy ystyried o rhyw werth neu gilydd." Felly y mae y teithiwr yn ei chymeryd i fynu ac yn ei doddi yn ei gert. Y mae y Gareg yn rollo i mewn gyda chryn fawredd, a meddylia y ca ei doddi ar unwaith wrth ochr y Diamwnt. Y mae tynged hollol wahanol yn ei haros. Gwir ei bod yn cael ei gwneyd yn ddefnyddiol, ond ni wasanaetha ond i wella twll yn y ffordd.

Pob un ei le ei hun.

Chwedl 71.—PEN YR EPA.

Darfu i ddyn, yn mhlith nwyddau ereill, weled Pen Epa ar fwrdd y Cigydd, a gofynodd iddo pa flas oedd arno, pan yr atebodd y Cigydd, "Y mae ei flas yn dda, er fod golwg anymunol arno."

Na fernwch ddyn wrth ei olwg ond wrth ei gyrhaeddiadau.

*Chwedl 72.*

Y PAUN A'R CRYCHYDD.

Yn ddigwyddiadol cyfarfu y Paun a'r Crychydd a'u gilydd. Y Paun, gan drefnu ei gynffon, a wnaeth arddangosiad o'i blyf prydf berth, ac edrychodd gyda dirmyg ar y Crychydd, fel rhyw berson dinod a chyffredin. Y Crychydd, yn penderfynu ei dalu am ei drahausder, a sylwodd fod y Paunod yn adar rhagorol, os gallai plyf hardd eu gwneyd hwy felly; ond yr oedd ef yn meddwl ei fod yn beth mwy urddasol bod yn alluog i godi uwchlaw y cymylau na hopian ar hyd y ddaear, i gael llygadrythu arno gan blant.

Y mae ymddangosiadau yn dwyllodrus.

Y mae llawer calon dda a breiniol yn curo o dan bŵg-an digon llwyd.

Chwedl 73.—Y MYN A'R BLAIDD.


Myn, yr hwn a grwydrasai oddiwrth y praid, a ymlidiwyd gan Flaidd. Pan y gwelodd fod pob go-baith i ddiange wedi darfod, fe drodd at y Blaidd ac a ddywedodd, "Rhaid i mi addef fy mod yn eich gafael yn ddiffael, ond gan nad yw fy mywyd yn awr ond o fyr barhad, gadewch iddo fod yn llawen. Gwnewch chwi ganu tipyn i mi, a minau a ddawnsiaf." Tra yr oedd y Blaidd yn canu a'r Myn yn dawnio, y cŵn yn clywed y sŵn a ddaethant i edrych pa beth oedd yn myned yn mlaen; ac yr oedd yn dda gan y Blaidd ddiange ymaith gan gynted ag y medrai ei draed ei gario.

Yr hwn a â o'i ffordd i chwareu cyn cyrhaedd ei nôd, na ryfedded os cyll yr yspail.

Chwedl 74.—Y FRONWEN A'R DYN.

Bronwen a ddaliwyd gan Ddyn, mewn trefn i geisio osgoi marwolaeth a ddywedodd, "Yr wyf yn dymuno arnoch fy arbed, gan fy mod yn clirio y llygod o'ch tŷ, y rhai sydd yn hynod boenus i chwi." Atebodd y Dyn, "Pe gwnaethet hyny er fy mwyn i, buaswn yn ddiolchgar i ti am y gymwynas, a buaswn yn gwrando ar dy gais am faddeuant. Ond gan dy fod nid yn unig yn gorphen bwyta y bwydydd ag nad yw y llygod ond yn eu crafu, ac yn ychwanegol at hyny yn bwyta y llygod eu hunain, paid a son am faddeuant." Ar hyny lladdodd hi.

Ni ddylai yr hwn a wasanaethodd arall er ei fwyn ei hun ddisgwyl cael dim am ei drafferth.

*Chwedl 75.*

Y LLYFFANT YN GRACHFEDDYG.

Llyffant yn dyfod o'r llaid rhyw ddiwrnod, a ddringodd i ben rhyw dorlan, ac a gyhoeddodd i'r holl fyd ei fod wedi dyfod i iachau pob math o glefydau. "Deuwch," meddai, "a gwelwch feddyg yr hwn y mae ganddo y fath feddyginiaethau ag na chlybu dyn am eu cyffelyb erioed; naddo, hyd yn nod Esculepius, meddyg personol Iau ei hun." "A phafodd," sylwai y Llwynog, "y meiddiwch chwi osodeich hun i fynu i iachau ereill, yr hwn nid ellwch wellhau eich cerddediad anystwyth eich hun, na'ch croen brych a chrebachlyd?"

Profir honiadau dyn wrth ei weithredoedd.

"Y meddyg iacha dy hun."

Chwedl 76.—Y CŴD.


Yr oedd Cŵd yn cael ei adael yn ddisywl mewn congl, a'r unig ddefnydd wnelid o hono oedd gan y gwas i sychu ei draed arno. Ond un diwrnod cafodd ei hun wedi ei lanw a darnau aur, a chyfnewidiwyd ei sefyllfa yn hollol ar unwaith. Telid y sylw manylaf iddo. Cyn hir ymfalchiodd y Cŵd yn fawr. Daeth yn dra siaradus ac yn hoff o weled beiau, a rhoddai ei farn gydag awdurdod ar bob peth, gan ddweyd, "Ni ddylid gwneyd hyn fel yma," neu, "Dyn ynyd yw hwn-a-hwn," neu, "Y mae y peth a'r peth yn sier o droi allan yn ddrwg." Gwrandawai pawb arno gyda'r astudrwydd mwyaf, er ei fod yn siarad dylni perffaith. Yn anffortunos, y mae y nifer luosocaf o ddynion yn ystyried pobpeth a ddywedir gan gydaid o arian yn bwysig. Parhaodd y Cŵd am hir amser i gael ei foli, ei barchu, a'i ganmol. Ond ar ol i'r deryn olaf o aur gael ei gymeryd o hono, taffwyd ef ymaith, ac ni chlywodd neb byth son am dano mwy.

Molir aml i un yn unig am fod ganddo arian.

Chwedl 77.—Y DYN DU.

Rhyw ŵr wedi prynu Caethwas du, gan feddwl mai yr achos o liw ei groen oedd diofalwch ei feistr blaenorol, cyn gynted ag y dygwyd ef gartref, a'i rhoddodd mewn twb o ddwfr poeth, ac a gymerodd sebon, a brwsiau, a thywod, ac aeth ef a'i weision ati i'w ysgwrio yn wyn yn ol. Hwyl a'i golchasant ac a'i rhwbiasant am oriau lawer, ond yr oll yn ofer; arosodd ei groen gan ddued ag erioed; a bu y truan yn bur agos i farw gan anwyd oblegid y driniaeth a gafodd.

Nis gall dim moddion dynol newid natur sydd yn wreiddiol ddrwg.



Chwedl 78.—Y MARCH A'R ASYN.

Rhyfel-farch wedi ei wisgo yn orwych, a ddaeth gan garlamu ar hyd y ffordd nes dyfod o hyd i Asyn yn llafurio yn mlaen gyda baich trwm iawn ar ei gefn. “Dos allan o fy ffordd,” ebe y Ceffyl balch, “neu mi a'th sathraf dan fy nhraed.” Ni ddywedodd yr Asyn ddim, ond ciliodd o'r neilldu gael i'r March fyned heibio. Heb fod yn hir wedi'n, digwyddodd i'r March gael ei glwyfo mor dost mewn brwydr, fel nad oedd mwyach ddim yn gymhwys i'r gwasanaeth hwnw. Felly cymerwyd ei addurniadau ymaith, a gwerthwyd ef i gariwr. Yr Asyn, yn ei gyfarfod ef yn tynu llwyth mawr mewn gwagen, a feddyliondd mai ei dro ef oedd bod yn sarhaus yn awr, ac a ddywedodd, “Halo! gyfaill! Ai y chwi sydd yma? Wel, yr oeddwn i bob amser yn credu y caffai eich balchder chwi gwmp.”

Ni cha y rhai ffroen-uchel a thrahaus-falch mewn llwyddiant nemawr gwyn a chydymdeimlad mewn adfyd. Nid oes neb yn ddigon distadl i'w ddiystyru gyda diogelwch.

Chwedl 79.—Y GAREG A'R GWLAW.

“Y fath dwrw y mae pawb yn wneyd! Y fath ffyliaid!” dywedai Careg a orweddaï mewn cae ar ol disgyniad cawod o Wlaw un diwrnod. “Byddwch cystal a sylwi mor falch yr ymddengys pawb o herwydd y gwlaw yma. Y maent wedi bod yn dymuno am dano fel pe buasai y goraf o gyfeillion, ac yn awr pa beth sydd yn rhyfeddol yn yr hyn a wnaeth? Parhaodd am oddeutu dwy awr, a dim yn hwy. Ond byddwch mor fwyn a gwneyd ychydig ymofyniadau am danaf fi, Wel, yr wyf wedi bod yn gorwedd yma er’s canrifoedd; yn ostyngedig a gwylaidd yr wyf wedi aros yn dawel yn y lle y dodwyd fi yn y dechreu. Ac eto nid wyf wedi clywed gan neb gymaint a “Diolch i chwi!” Nid heb reswm y mae y byd wedi cael gair drwg. Nid wyf yn gallu gweled gronyn o gyfiawnder yn un man o’i fewn.” “Dal dy dafod!” ebai pryfyn oedd yn agos iddi. “Y mae y gawod wlaw, er o fyr barhad, wedi mwydo y ddaear, ag oedd wedi myned yn ddiffrwyth o herwydd y sychder, ac wedi adfywio gobaith yr amaethwr. Ond nid wyt ti wedi cyfranu dim erioed i’r llesiant cyffredin ond pwysau diwerth.”

Fel hyn y mae llawer dyn yn ymffrostio ei fod wedi gwasanaethu ei wlad am ddeugain mlynedd; ond heb fod erioed o fwy o ddefnyddioldeb na’r gareg.

Chwedl 80.—Y LLYFFANT.

“Y mae y dwfr yma yn oer iawn,” ebai Llyffant un diwrnod, “yr wyf wedi cael digon arno. Y mae yr haul yn tywynu yn braf ar y ceryg sydd ar lan yr afon, ac amgylchir hwy gan flodeu prydferth. Af i orwedd ar un o honynt i fwynhau fy hun.” Ond prin yr oedd wedi cyraedd y gareg, a dechreu mwynhau ei hun, nag y dechreuodd Bachgen a safai ar y bont luchio ceryg ato, a bu raid iddo ymsuddo yn ei ol ar frys.

Rhyw anghyfleusdra yn mhob man.



Chwedl 81.—YR EPA A'R LLWYNOG.

Epa yn cyfarfod Llwynog un diwrnod, a ofynodd iddo yn ostyngedig am ychydig flew o'i gynffon hir i wneyd gorchudd i'w dafu drosto, gan ei fod yn agored i holl oerni a gerwindeb y tywydd. "Oblegid Mr. Cadnaw," ebe efe, "y mae genych chwi fwy o gynffon nag sydd arnoch angen am dani, ac y mae rhan fawr o honi hyd yn nod yn llusgo yn y baw." Atebodd y Llwynog, "O berthynas i'r cwestiwn o fod genyf ormod o gynffon, y mae hyny yn fwy nag a wyddost ti; ond sut bynag am hyny, byddai yn well genyf ysgubo y llawr a'm cynffon holl ddyddiau fy mywyd nac amddifadu fy hun o un blewyn i foddhau Epa."

Y mae yr hwn a elo i chwilio am fenthigg yn lled debyg ogael ei siomi, ac yn aml ei sarhau yn y fargen.

Chwedl 82.—Y GWLADWR A'R MÔR.

Gwladwr yn gweled llong lawn o forwyr yn cael ei lluchio gan y tonau, a waeddodd allan, "O! fôr twyllodrus a didrugaredd, yr hwn sydd yn difetha pawb a anturiant ar dy wyneb." Y Môr a'i clybu, a chan lefaru mewn llais tyner, a atebodd, "Na feia fi, nid myfi yw yr achos o'r cyffro hwn, ond y Gwynt-oedd, pa rai pan syrthiant arnaf ni oddefant ddim tawelwch. Ond os digwydd i chwi hwylio droswyf pan y byddant hwy ymaith, chwi a ddywedwch fy mod I yn fwy tawel a haws fy nhrin na'r tir sych ei hun."

Chwareu teg i'r gwaetha! Ni ddylid rhoddi ar neb fwy nag y mae yn ei haeddu. Mae yr achos gwreiddiol yn aml o'r golwg.

Chwedl 83.—Y GOLOMEN.

Yr oedd Colomen ar ben tŷ un diwrnod yn ymddangos wrth ei bodd yn yr haul melyn cynhes a dywynai arni. Yr oedd ei cŵ, cŵ, cŵ yn aml ac uchel. O dani yr oedd Bachgen bychan yn neidio ac yn campio o herwydd fod y gwlaw wedi myn'd drosodd a'r haul yn tywynu arno, ac yn llanw ei galon â llawenydd. Gofynnodd y Bachgen i'r Golomen paham yr oedd yn ymddangos mor ddedwydd, "Am yr un rheswm a tithau, fy nghyfaill caredig," ebai'r Golomen; "y Duw da sydd yn peri i'w Haul dywynu arnat ti a minau nes llanw ein calon â llawenvdd ac â diolchgarwch."


Daionus yw yr Arglwydd i bawb.



Chwedl 84.—YR ASYN MEWN CROEN LLEW.

Asyn wedi ymwisgo mewn croen Llew, a aeth oddiamgylch, gan ddychrynu yr holl greaduriaid gwirion a gyfarfyddai, a chan weled Llwynog, fe geisiodd ei ddychrynu yntau hefyd. Ond y Llwynog, wedi clywed ei lais, a ddywedodd, “Wel, yn wir! Buaswn inau wedi dychrynu hefyd, oni buasai i mi dy glywed yn brefu.”

Gall dyn trwy gymeryd arno gymeriad nad yw yn perthyn iddo, dwyllo ffyliaid am dymhor; ond y call a welant drwyddo ac a'i ffieiddiant.



Chwedl 85.—Y QUARTETTE.

Asyn, Gafr, Epa, ac Arth a benderfynasant berfformio *Quartette*, felly ceisiasant lyfrau ac offerynau, a pharotoisant i swyno clustiau eu gwrandawyr. Tarawant y dôn yn eofn, a chynyrchant ddigonedd o swn, ond yn anffortunus y mae yn bobpeth ond cydgordiol. “Aroswech, gyfeillion, aroswech!” ebai yr Epa. “Y mae yn amlwg y rhaid ein gosod yn wahanol. Eistedd i lawr fy nghyfaill, Mr. Asyn, gyferbyn a’r *alto*; bydd i minau symud yma gyferbyn a’r ail grwth. Bydd i’n canu wedy’n fod yn dra gwahanol. Sier y gyrwn y mynyddoedd yma i ddawnsio.” Felly newidiant eu lleoedd ac ail ddechreuant, ond y mae y canu lawn mor anghydgordiol ag o’r blaen. “Aroswech ychydig,” ebai yr Asyn; “Yr wyf wedi cael allan y dirgelwech. Byddwn yn siwr o ganu yn iawn ond i ni eistedd yn rhes.” Dilynant ei gyngor, ac eisteddant yn rhes daclus. Ond y mae y canu mor aflafar ag erioed. Ar hyn dechreuant ymddadleu yn uchel o barth y drefn y dylent fod ynddi. Y mae yr Eos, yn ddamweiniol, yn hedfan heibio iddynt, a dymunasant arni eu tynu o’u dyrswch. “Byddwch fwyned,” meddant, “a rhoddi i ni ychydig o’ch amser mewn trefn i ni allu dyfod yn llwyddianus trwy ein gorchwyl. Y mae genym y gerddoriaeth, y mae genym offerynau. Yr oll sydd arnom eisiau ydyw i chwi ein gosod ni yn ein lleoedd priodol.” Ond y mae yr Eos yn ateb—

“*I fod yn gerddor, rhaid i un feddu deall cyflymach a chlust dra gwahanol i’r eiddo chwi; gellwch chwi, fy nghyfeillion, osod eich hunain yn y drefn a fynoch, ond ni ddeuwch byth yn gerddorion.*”

*Chwedl 86.*

Y LLWYNOG A'R FRAN.

Brân, wedi dwyn darn o gaws o ffenestr tŷ, a ehedodd i bren uchel, i fwynhau ei hysbail. Gwelodd Llwynog y darn blasus ganddi, a dechreuodd gynllunio pa fodd i gael gafael ynddo. Felly fe ddechreuodd ganmol prydferthwch y Frân. “O Frân,” ebe fe, “mor hardd yw dy adenydd! mor luniaidd dy gorph! mor gryfion yw dy ewinedd! mor ddisglaer dy lygaidd! Os yw dy lais yn cyfateb, nid oes un aderyn i’w gystadlu â thydi.” Y Frân wedi ei boddhau gan y gweniaeth, ac yn dymuno synu y Llwynog a’i llais, a agorodd ei phig i ganu, pan — i lawr y syrthiodd y caws, a chipiodd y Llwynog ef i fynu, ac a gerddodd ymaith gan sylwi, “Pa beth bynag a ddywedais am dy harddwch, ni ddywedais I ddim eto am dy synwyr.”

Nid yw dynion yn gwenieithio yn gyffredin heb fod rhyw ddiben ganddynt mewn golwg; a rhaid i'r neb sydd yn ddigon gwan i wrando y fath beroriaeth dalu yn ddrud am dano.

Chwedl 87.

Y BACHGEN A'R YCH.

Gorweddai Ych boddlon ar ganol y cae, yn cnoi ei gîl yn ddedwydd, pryd yr aeth Bachgen bychan ato, a gofynodd iddo, "Am ba beth yr wyt yn myfyrio wrth orwedd yma yr hen Ych diniwed?" "Rhaid i mi adael y meddwl a'r dysgu i ti, fy nghyfaill," ebai'r Ych; "fy ngwaith yma yw cnoi fy mwyd ac nid meddwl," Ar ol iddo gael amser i gnoi ei gîl am beth amser, dodwyd ef i dynu y fên, a gwnaeth hyny yn rhwydd a didrafferth, ond buasai meddwl tuhwnt i'w allu.

Pob un ei le ei hun a'i waith ei hun.

Chwedl 88.

Y CEFFYL A'R ADERYN TÔ.

Yr oedd Ceffyl un diwrnod yn mwynhau ei hun uwchben ei geirch, pryd y daeth Aderyn Tô ato, ac a ofynodd yn ostyngedig am geirchen neu ddwy i dori ei newyn. "Cei, fy nghyfaill," ebai y Ceffyl, "faint a fynot. Tyr'd yn mlaen a helpa dy hun, y mae yma ddigon i ti a minau." Fel hyn buont yn byw yn gytun â'u gilydd am amser maith: y Ceffyl yn rhoddi rhan o'i ymborth i'r Aderyn, ac yntau yn gwasanaethu y Ceffyl trwy gadwy pryfaid rhag disgyn ar ei gefn a'i frathu.

Un gymwynas yn teilyngu un arall.

*Chwedl 89.*

Y PYSGODYN-HEDEGOG A'R DOLFFYN.

Pysgodyn-hedegog yn cael ei ymlid gan y Dolffyn, yn ei awyddfryd i ddiange, a ehedodd yn rhy bell, ac a syrthiodd ar graig, lle yr oedd ei farwolaeth yn anocheladwy. Y Dolffyn, yn ei awyddfryd i ddal ei ysglyfaeth, a redodd ei hun i dir sych yn ymyl yr un graig, a gadawyd ef gan y tonau i wingo am ei anadl ac yn agored i'r un dynged. "Wel," ebai y Pysgodyn-hedegog, "rhaid i mi farw, y mae yn wir; ond yr wyf yn marw yn ddedwydd wrth weled yr un a geisiodd fy mywyd yn ngafael yr un dynged."

Melus yw dial.

Chwedl 90.

YR AMAETHWR A'I FUWCH

Darfu i Amaethwr bychan brynu Buwch a llestr godro yn y ffair, ac yr ydoedd yn myned gartref yn hamddenol ar hyd llwybr unig a arweiniai trwy y goedwig, pan y syrthiodd yn ddisymwth i ddwylaw lleidr. Cymerodd y lleidr oddiaro bobpeth a feddai. "Cymerwch drugaredd!" gwaeddai yr Amaethwr, "Yr wyf wedi fy llwyr ddifetha: yr ydych wedi fy ngwneyd yn gardotyn! yr wyf wedi gweithio yn galed am flwyddyn i allu prynu y Fuwch fechan hon." "O'r goreu," atebai y lleidr, wedi ei gyffwrdd gan dosturi; "ni bydd genych achos i gwyno o'm plegid i. Hwidiwch; ni bydd arnaf eisiau godro eich Buwch, felly dyma i chwi eich llestr godro yn ol."

Y mae trugaredd yr annuwiol yn greulon

Chwedl 91.

Y BLAIDD A'R BUGEILIAID.

Blaidd yn digwydd edrych i mewn i gaban, a gwel-
ed cwmni o Fugeiliaid yn gwledda yn gysurus ar gig
dafad, a ddywedodd, "Wel! y fath helynt fawr y
buasai y dynion hyn yn ei godi pe gwelent fi yn
mwynhau y fath swper."

*Y mae dynion yn rhy dueddol i gondemnio mewn ereill
yr hyn y maent yn euog o'i wneyd eu hunain.*



*Chwedl 92.*

Y MORGRUGYN A'R GOLOMEN.

Aeth Morgrugyn at ffynon o ddwfr i dori ei syched, a chan syrthio i mewn, yr oedd yn mron boddi. Ond Colomen oedd yn eistedd ar bren gerllaw a welodd berygl y Morgrugyn, a chan dynu deilen o'r pren, fe'i gollyngodd i'r dwfr o'i flaen, a'r Morgrugyn a ddringodd arni, ac a ddaeth yn fuan i'r lan yn ddiogel. Yn fuan wedi hyn, Heliwr yn taenu ei rwyd, oedd wrth y weithred o gymeryd y Golomen, pan y darfu i'r Morgrugyn wrth weled ei amcan, ei frathu yn ei sawdl. Neidiodd yr Heliwr i fyny yn ddisymwth gan y boen, a gollyngodd y rhwyd o'i law, a'r Golomen wedi ei chynhyrfu gan y sŵn i weled ei pherygl, a ehedodd ymaith yn ddiogel.

Y mae un gymwynas yn teilyngu y llall.

Chwedl 93.

Y BACHGEN A'R AFR.

“Wel, dywed wrthyf yr hen Afr,” ebai bachgenyn bychan direidus, “i ba beth y mae dy farf a'th gyrn da?” “Y mae fy marf yn dda i ti chwareu â hi pan y byddi yn teimlo tuedd, a'm cyrn yn ddefnyddiol i'th wthio draw os digwyddi gario dy chwareu yn rhy bell.” Bu yr Afr a'r Bachgen am ddarn o foreu tesog yn chwareu â'u gilydd yn hyfryd odiaeth, ond o'r diwedd aeth y bachgen braidd yn hyf ar ei gydymaith, pryd y cododd yr hen Afr ar ei thraed ôl, a dechreuodd ei gornio, a da oedd ganddo gael cyfle i ddiangc am ei fywyd.

Y chwareu yn troi yn chwerw.

Chwedl 94.

Y TEITHWYR AR FIN Y MOR.

Fel yr oedd rhyw deithwyr yn ymlwybro yn mlaen ar hyd y Traeth, hwy a ddaethant at graig uchel, ac wrth edrych allan tua'r Môr hwy a welsant fflagoden o goed yn nofio ar y wyneb o bell, a thybiasant yn y dechreu mai llong fawr ydoedd; felly fe arosasant, gan ddisgwyl ei gweled yn dod i'r hafan. Fel y deuai y fflagoden yn nes i'r làn, hwy a dybiasant nad llong oedd, ond cwch. Ond pan o'r diwedd y taffwyd hi i'r làn, hwy a welsant nad oedd yn ddim ond fflagoden ddiwerth.

Mae llawer peth sydd yn ymddangos yn fawr i'n dy-muniad neu i'n hofnau, o bell, yn myned yn llai, ac weithiau yn ddim, pan ddel i'n hymyl.

*Chwedl 95.*

Y BAEDD GWYLLT A'R LLWYNOG.

Yr oedd Baedd gwyllt yn hogi ei ddanedd ar ryw goeden, pan y daeth Llwynog heibio, ac a ofynodd iddo paham yr oedd yn gwneyd hyny; "Canys," meddai, "nid wyf fi yn gweled un achos i hyny: nid oes na heliwr na chi, nag un perygl arall ar a allaf ei weled yn y golwg." "Gwir," atebai y Baedd, "ond pan y cyfyd y perygl, bydd genyf fi rywbeth arall i'w wneyd heblaw hogi fy arfau."

Y mae yn rhy hwyr i hogi y cleddyf, pan seinio yr udgorn i'r frwydr.



Chwedl 96.—YR EWYTHR A'I NAI.

“Tyr'd yma fy Nai: yn mha le yr wyt wedi bod yn ymguddio? Tyr'd yma cygynted ag y gelli, a rhyfedda at gyfrwysder dy Ewythr. Gwna fel yr wyf fi yn gwneyd, ac ni bydd i ti byth ddioddef colled.” Fel hyn, yn y siop, y siaradai Ewythr wrth ei Nai. “Yr wyt yn gwybod am y darn brethyn glas hwnw: yr un ag oedd wedi bod ar ein dwylaw am gyhyd o amser, am ei fod yn hen, yn wael, a phydredig? Wel, yr wyf newydd ei werthu am bris brethyn da. Dyma sofran felan a gefais am dano. Rhaid fod y prynwr wedi colli ei synwyr, a ffawd wedi ei anfon i'n siop.” “Felly yn wir, F'ewythr, felly yn wir,” atebai y Nai, “ond nid wyf yn eithaf siwr pwy oedd y ffwl. Edrychweh dipyn yn nes, a chewch mai sofran ddrwg a gawsoch.”

A dwyllo a dwyllir.

Chwedl 97.—YR ERYR, Y FRAN, A'R CRWBAN.

Cafodd Eryr afael ar Grwban (*Tortoise*), a chymerodd ef i fyny i'r awyr; ond nid allai ei niweidio trwy ei fod yn llechu yn ddiogel yn ei dŷ corniog. Daeth Brân heibio y ffordd hono, a dywedodd, “Yr ydych wedi sicrhau tamaid da o ymborth, ond os na bydd i mi ddangos i chwi pa fodd i gael gafael ynddo, bydd i chwi flino eich hun yn ofer wrth geisio tori ei dŷ.” Ar ol cael addewid am ran o'r danteithfwyd, dywedodd y Frân am i'r Eryr ei ollwng i lawr o uchder mawr ar graig; gwnaeth felly; a drylliwyd y Crwban yn erbyn y graig galed, a bu y ddau yn gwledda yn ddifyr ar y blasus-fwyd.

Pwy all wrthsefyll nerth wedi ei uno â chyfruydsdra?

*Chwedl 98.***Y BARCUD A'R FFERMWYR.**

Barcut, yn ymlid Colomen ar draws cae gwenith gyda phrysurdeb mawr, a ddaliwyd ei hunan mewn magl. Ffermwr ag oedd yn gweithio heb fod nepell o'r lle, yn gweled y Barcud yn y magl, a ddaeth ato ac a'i cymerodd yn garcharor; ond fel yr oedd ar fedr ei ladd, dymunodd y Barcud yn daer arno ei ollwng yn rhydd, gan ei sicrhau nad ydoedd ond yn erlid Colomen, ac heb fwriadu na gwneuthur unrhyw niwaid iddo ef. Atebodd y Ffermwr: "A pha niwaid a wnaeth y Golomen i chwi?" Ar hyn rhoddodd dro ar ei wddf heb ychwaneg o siarad.

Gwnewch i ereill fel yr ewyllysiech i ereill wneuthur i chwithau.

Chwedl 99.—YR EWIG A'R LLWYNGGOD.


Ewig ieuange, wedi ei hamddifadu o'i llydnod, ond yn para i feddu digonedd o laeth, a gafodd afael mewn dau Lwynog ieuaingc wedi eu gadael yn y goedwig, ac ymgwymerodd ar unwaith â cheisio llanw lle mam iddynt, gan eu porthi â'i llaeth. Meudwy, yn byw yn yr un goedwig, yn synedig at ei hymddygiad, a waeddodd allan, "Y fath greadur difeddwl wyt! i ba fath greadur yr wyt yn rhoddi dy laeth; ar bwy yr wyt yn gwastraffu dy serch a'th ofal? A wyt ti yn disgwyl cael diolch gan y creaduriaid yna? Efallai mai dy waed di a yfir ganddynt ryw ddiwrnod." "Efallai hyny, yn wir," atebai yr Ewig, "ond ni feddyliais, ac nid wyf yn hoffi meddwl, am hyny. Nid wyf yn gofalu am deimlo ond fel mam ar hyn o bryd, a buasai fy llaeth yn faich i mi pe na buaswn wedi ei roddi i'r rhai hyn."

Nid yw y gwir haelionus yn meddwl am dâl; i'r haelionus byddai eu digonolrwydd yn faich pe na baent yn cael rhoddi o hono i'r anghenus.

Chwedl 100.—Y BYCHOD GEIFR A'R GEIFR.

Pan y cafodd y Geifr farf gan Jupiter, teimlodd y Bychod Geifr yn dra digofus ac anfoddlon am fod y Geifr wedi cael yr un anrhydedd a hwythau. Dywedodd Jupiter, "Gadewch iddynt i fwynhau gwag-ogoniant, a gwneyd defnydd o arwyddion parch, gan nad ydynt yn gyfatebol i chwi mewn nerth."

Nid eu tebygolrwydd allanol ond eu rhinwedd sydd yn gwneyd dynion yn gyffelyb.



Chwedl 101.—YR HEN LEW.

Hen Lew wedi ei lwyrr lethu gan henaint, a orweddaï ar ei hyd ar y ddaear, yn hollol ddigynorthwy, ac ar dynu ei anadl olaf. Daeth Baedd yn mlaen, ac i ddial arno am ryw hen gweryl, a'i brathodd â'i ysgythr-ddannedd mawrion. Yna daeth Tarw yn mlaen, ac i dalu i'w hen elyn fe'i rhwygodd â'i gyrn. Ar hyn, Asyn, yn gweled y gellid trin yr hen Lew fel hyny yn ddiberygl, a fynai ddangos ei atgasedd yntau, ac a giciodd ei draed yn ei wyneb. Ar hyn gruddfanai yr hen ormesdeyrn. "Yr oedd sarhad y bwystfilod galluog yn ddigon drwg, ond gallaswn ddioddef hyny; ond i gael fy sarhau gan y fath greadur distadl a thydi—gwartknod y greadigaeth, y mae yn waeth na marw ddengwaith."

Gall yr uchelfrydig ddioddef pobpeth yn well nag ergyd i'w falchder.

Chwedl 102.—YR ASYN, Y CEILIOG, A'R LLEW.

Yr oedd Asyn a Cheiliog yn digwydd bod yn cydfyw ar yr un fferm. Rhyw ddiwrnod digwyddodd i Lew newynog basio heibio, ac wrth sylwi fod yr Asyn yn bur raenus, fe benderfynodd wneyd pryd o hono. Ond, fe ddywedir nad oes dim ag y mae y Llew yn ei gasau yn fwy na chaniad y Ceiliog; ac yn y foment hono fe ddigwyddodd i'r Ceiliog ganu, a chyn gynted ag y clywodd y Llew ef fe redodd ymaith cyn gynted fyth ag y gallai. Yr Asyn, yn malchder ei galon a dybiodd mai diange rhag ei ofn ef yr ydoedd, ac a ganlynodd ar ei ol, yn chwyddedig iawn wrth feddwl ei fod yn gyru brenin y goedwig o'i flaen. Nid cynt yr aethant allan o gyraedd sŵn y Ceiliog, nag y trodd y llew arno ar unwaith, ac a'i llyngcodd bron yn gyfan.

Y mae balchder yn dechreu mewn anwybodaeth ac yn diberu mewn dinystr.

Chwedl 103.—ÆSOP A'R GŴR SARHAUS.

Darfu i ddyn sarhaus daflu càreg at Æsop un diwrnod. Dywedodd y Doethwr wrtho, "Yr wyt yn ddyn gwrol yn wir; hwda, dyma i ti ddernyn o arian, nid oes genyf ychwaneg, ond dangosaf i ti y ffordd i gael swm mawr. Edrych, daew foneddwr cyfoethog yn dyfod, tafl gareg ato ef, a digon tebyg y bydd i ti gael gwobr." Gwnaeth y dyn y cyngor; ond siomwyd ef am ei wobr, oblegid cymerwyd ef i fyny, a thafwyd ef i garchar.

Y mae dynion sarhaus yn gorfod talu yn ddrud am eu rhyfgyg.



Chwedl 104.—Y CEILIOG RHEDYN A'R DDALLHUAN.

Yr oedd Ceiliog Rhedyn yn gwneyd sŵn ag ydoedd yn aflonyddu y Ddallhuan, yr hon a chwiliai am ei hymborth yn y nŵs, a chysgu y dydd yn ei cheubren. Pan ofynwyd i'r Ceiliog Rhedyn fod yn ddistaw, gwnaeth fwy o sŵn nag erioed. Gwnaeth y Ddallhuan gais drachefn, ond aeth y Ceiliog Rhedyn i dymer ddrwg iawn. Ar ol i'r Ddallhuan gael allan nad oedd siarad o un dyben, a benderfynodd roddi terfyn ar ei sŵn trwy ddyfais, a dywedodd, "Gan nas gallaf gysgu yn sŵn dy ganu melodaid yr ydwyf wedi penderfynu yfed y neithdar a roddwyd i mi gan Pollas, mewn trefn i allu cadw yn effro i wrandŵ ar dy lais a'th gân hyfrydol, ac os nad ydwyf ti yn rhy falch, tyred, gad i ni ei yfed yn nghyd." Y Ceiliog Rhedyn yn dioddef oddiwrth syched mawr, ac yn hoffi clywed ei lais yn cael ei ganmol, a neidiodd ati. Cygynted ag y daeth yn agos ati, rhuthrodd y Ddallhuan arno, a lladdodd ef yn y fan.

Mae bod yn foesgar yn ddiogel a chymwynasgar.

Chwedl 105.—Y LLYGODEN A'R FRONWEN.


Llygoden fechan salw a weithiodd ei ffordd trwy ymdrech i mewn i lestraid o yd, ac yno, yn nghanol y fath gyflawnder o ddanteithfwyd, hi a fwytaodd ac a ymlenwodd i'r fath raddau, fel pan y mynasai fyned allan yn ol, y cafodd fod y twll yn rhy fychan i ollwng ei chorff chwyddedig allan. Fel yr eisteddai wrth y twll yn gruddfan oblegid ei thynged, Bronwen, yr hon a ddygwyd yno gan ei llefain, a ddywedodd wrthi, "Aroswech yna, gyfaill, ac ymprydiwech nes dod yn deneu yn ol; canys ni ddeuwch byth allan nes y deloch i'r un cyflwr ag yr oeddych ynddo pan yr aethoch i mewn."

Yr unig feddyginiaeth i cffeithiau glythineb a meddw-dod, ydyw cymedroldeb a llwrymwrthodiad.

Chwedl 106.—Y FFERMWWR A'I GŴN.

Ffermwr, ar ryw auaf pur galed, oedd wedi ei gau i fynu yn ei dŷ gan yr eira; a chan ei fod yn newynog, ac heb allu myned allan i gyrchu bwyd, fe ddechreuodd fwyta ei ddefaid ei hun. Gan fod yr hîn galed yn parhau, efe yn nesaf a fwytaodd ei eifr; ac o'r diwedd, gan nad oedd yr hîn yn gwella, fe ddechreuodd fwyta ei ychain. Ar hyny, meddai y naill Gi wrth y llall, "Gadewch i ni ddiange; canys gan nad oes gan y Meistr, fel y gwelwn, ddim trugaredd ar yr ychain sydd yn llafurio, pa sut y mae yn debyg yr arbed efe ni?"

Pan y byddo tŷ ein cymydog ar dân, y mae yn bryd i ni edrych at yr eiddom ein hunain. Y mae y call yn cymeryd rhybudd oddiwrth anffodion rhai ereill.



Chwedl 107.—Y GWENYN A'R GWENYN SEGUR.

Yr oedd y Gwenyn wedi llanw eu cychod â mêl, a daeth y Gwenyn Segur gan ei hawlio fel yr eiddo hwynt. Dygwyd y peth i'r llys, a gosodwyd y Gacynen ar y gadair farnol. Ar ol ystyried yr holl achos dywedodd y barnwr, "Nid yw eich cyrph yn anhebyg, ac y mae eich lliw yn gyffelyb, gan hyny y mae penderfynu y pwngc yn orchwyl anhawdd; felly, rhag i mi wneuthur anghyfiawnder, yr ydwyf yn gorchymyn i chwi dywallt y mêl i'r cŵyr, fel y byddo i ni gael allan pwy a wnaeth y mêl oddiwrth ei arogl a ffurf y cribau." Gwrthoda y Gwenyn Segur hyny, ond y mae y Gwenyn Gweithgar yn falch o'r penderfyniad. Ar ol gwneyd fel y gorchymynodd y barnwr, cyhoeddodd y rheithfarn ganlynol, "Y mae yn amlwg pwy nad allant wneyd y cribau yma, ac mor amlwg a hyny, pwy a'u gwnaeth; felly yr wyf yn adfer y Mêl i'r Gwenyn."

Hawdd adnabod y gweithiwr wrth ei waith

Chwedl 108.

YR ASYN A'R EOS.

Y mae Asyn un diwrnod yn dymuno ar yr Eos fod mor fwyn a'i ffafrio â chân. Cydsynia yr Eos, ac arllwysa y fath ffrwd o seiniau melusion nes y distawa yr adar i wrando arni, a phedia pob creadur â'i sŵn mewn trefn i glywed ei cân. O'r diwedd y mae y gân yn peidio, a rhodda yr Asyn ei farn ar ei galluoedd. "Y mae yn lled dda," meddai; "gall un wrando arnoch heb ddiflasu; ond gresyn na baech yn adnabod y ceiliog sydd yn ein buarth ni. Byddai ychydig wersi ganddo ef o anrhaethol werth i chwi." Y mae yr Eos yn diystyru ei sylwadau, ac eheda ymaith yn sydyn.

Gwareder ni rhag beirniaid anghymrys.

Chwedl 109.

YR EPA A'R DRYCHAU.

Epa yn teimlo ei olygon yn pallu a geisiodd bâr o Ddrychau (*Spectacles*) i'w gynorthwyo i weled, ond yn anffortunos nid ydoedd yn gwybod pa fodd i'w defnyddio. Doda hwy ar ei ben, a cheisia brofi eu heffeithiau trwy eu doddi ar flaen ei gynffon; anadla arnynt a gwlycha hwy â'i dafod; ond gan nad ydyw yn gweld yn well trwy hyn oll, y mae yn gyntaf yn eu difrio fel pethau twyllodrus, ac yn eu taro yn erbyn y llawr.

Diystyra yr ynydd wybodaeth.

*Chwedl 110.***Y BRAWD A'R CHWAER.**

Yr oedd gan foueddwr Ferch hagr neillduol, a mab hynod o luniaidd a phrydferth. Darfu iddynt yn ddamweiniol wrth chwareu edrych mewn drych, ag oedd yn crogi uwchben cadair eu tad. Y mae y Brawd yn ymffrostio yn ei brydferthwch, yr hyn a barodd i'w Chwaer chwerwi ac ymddigo wrtho; cymerai ei holl eiriau fel sarhad arni hi. Rheda at ei thad i gwyno o herwydd geiriau ei Brawd, gan obeithio y buasai yn cael ei geryddu. Y mae y Tad yn en cofleidio ill dau, ac ar ol eu cusanu yn dyner, dyweda, "Yr ydwyf am i chwi ddefnyddio y drych bob dydd, fel na byddo i ti, fy Mab, ddinystrio dy brydferthwch gyda moesau drwg, ac fel y byddo i tithau, fy Merch, wneyd i fyn ym dy hagrwrch gyda moesau da."

*Y mae prydfferthwch cymeriad yn harddych na llun-
ieidd-dra corphorol.*

Chwedl 111.

Y FFERMWR A'R LLEW.

Aeth Llew unwaith i mewn i fuarth fferm, a'r Ffermwr yn dymuno ei ddâl ef, a gauodd y llidiart. Pan ddeallodd y Llew nad allai ddim myned allan, fe ddechreuodd ar unwaith ymosod ar y defaid, ac ar ol hyny fe ddifaodd yr ychain. Ar hyny y Ffermwr, yn dechreu dychrynu drosto ei hun, a agorodd y llidiart, ac aeth y Llew ymaith cyn gyflymed ag y gallai. Gwraig y Ffermwr, yr hon a welsai y ewbl, pan welodd ei gŵr mewn tristwch mawr oblegid colli ei dda, a ddywedodd,—“Chwi a gawsoch yr hyn a haeddech; canys pa beth a allai eich gwneyd mor ynyfyd ag i ddymuno dâl creadur, yr hwn pe gwelsech ef o bell, y dymunech ef yn mhellach fyth.”

Mae ambell i leidr y byddai yn well ei ddychrynu ymaith na'i ddâl.

Chwedl 112.

YR ASYN A'R GWYBEDYN.

Yr oedd Gwybedyn yn eistedd ar un o lerpiau cerbyd, a dechreuodd geryddu yr Asyn a'i tynai, “Mor araf yr wyt yn myned yn mlaen? onid elli fyned yn gyflymach? gofala rhag i mi dy golynu yn dy ochr gyda'm cleddyf.” “Nid yw dy eiriau di,” ebai yr Asyn, “yn werth fy sylw; ond yr wyf yn ofni yr hwn sydd yn eistedd yn y cerbyd, yn fy arwain gyda'r awenau, ac yn dâl y chwip flaensain yn ei law. Yn ol ei ewylly sef yr wyf i gerdded neu i redeg. Felly taw di a'th siarad gwael.”

Poenus clywed dynion bychain yn ymfrostio pethau mawrion.



Chwedl 113.—Y LLEWPARD A'R BUGEILIAID.

Yn ddamweiniol syrthiodd Llewpard i ffynon ddofn. Gwelwyd ef gan y Bugeiliaid, a lluchiodd rhai geryg ato, ereill ffyn; ond darfu i ereill deimlo tosturi tuag ato, a thafu bara iddo. Trwy fod y nos yn dynesu, maent yn myned gartref yn hyderus y byddai iddynt ei gael boreu dranoeth wedi marw. Ond y Llewpard, wedi iddo adfeddianu ei nerth ar ol bwyta y bara, a roddodd naid o'r ffynon, a rheda yn gyflym tua'i ffau. Yn mhen ychydig ddyddiau y mae yn myned allan, gan ladd y defaid a'r bugeiliaid hefyd, a distrywia bob peth yn ei gynddaredd. Y mae y trigolion, gan faint eu dychryn, yn boddloni colli eu defaid, ni cheisiant ond eu bywydau eu hunain yn unig. Y mae y Llewpard yn ateb, "Yr wyf yn cofio am y rhai hyny a dafasant geryg ataf, a'r rhai a roddasant fwyd i mi; na fydded i'm cymwynaswyr ofni, ni chospaf ond y rhai a fwriadasant ddrwg i mi."

Gwneyd cymwynas yw y ffordd i gael un.

Chwedl 114.

Y CAWRFIL A'R CORGI.

Yr oedd Cawrfil yn cael ei ddangos un diwrnod yn y ffair, a pha le bynag yr elai dilynid ef gan Gorgi, yr hwn a gyfarthai ac a geisiai frathu ei sodlau. Darfu i un o gyfeillion y Corgi alw ei sylw at y ffaith nad oedd y Cawrfil yn cymeryd yr un sylw o'i ymosodiadau eiddil, ond yn myned yn mlaen mor dawel a phe na buasai ei elyn yn meddu bodolaeth. "Dyna'r unig reswm paham yr wyf yn cyfarth," atebai y Corgi. "Y mae arnaf eisiau i'r cŵn mawr ddweyd, 'Rhaid fod y Corgi yna yn anferthol gryf, neu ni fuasai yn meddu yr haerllugrwydd o gyfarth ar Gawrfil.'"

Y mae aml i ddyn bach yn difrio dyn mawr yn unig er mwyn tynu sylw.

Chwedl 115.

Y TEITHWYR A'R CORGWN.

Yr oedd dau Deithiwr un tro yn myned trwy bentref, a dilynwyd hwy gan nifer o Gorgwn, y rhai a gyfarthent yn uchel. Yr oedd un o'r ddau yn myned i godi careg i fyny, pan yr ataliwyd ef gan y llall, gan ddweyd wrtho i adael i'r Corgwn gyfarth faint a fynont, gan y byddai iddynt beidio yn fuan os gadewid hwynt yn llonydd. Yn mhen ychydig funudau peidiodd y cyfarth.

Y ffordd effeithiolaf i ddistewi crachfeirniaid yw peidio gwneyd sylw o honynt.



Chwedl 116.—CÆSAR A'I WAS.

Yr oedd gan Cæsar, yn ei balasdy, Was yn edrych ar ol ei rodfeydd. Pan yr elai Cæsar allan i rodio, byddai y gwas hwn yn gofalu am fod yn agos ato yn barhaus, ac ymddangosai yn neillduol weithgar: rhodai o flaen ei feistr, gan luchio dwfr ar y rhodfa, gan deimlo ei fod yn cyflawni gwasanaeth pwysig. Os symudai Cæsar i rodfa arall, byddai ei Was prysur yno o'i flaen, yn lluchio dwfr ar eaisio gostwng y llwch a thynu sylw ei feistr ato. Y mae Cæsar yn deall ei ddyn, ac yn gwybod mai ei amcan ydyw cael ei ryddhad (oblegid caethwas ydoedd), a dywedodd, "Yr wyt yn rhedeg o amgylch yn barhaus ac yn ymddangos fel yn gwneyd gwaith mawr, ond nid yw yr oll yn ateb yr un pwrpas da. Nis gall neb brynu ei ryddhad heb gyflawni rhyw weithred bwysig a gwir lesiol."

Y mae Hawer, heblaw gwas Cæsar, yn brysur yn gwneyd dim.

Chwedl 117.—YR YMSUDDWYR.

Darfu i frenin yn yr hen amser goleddu amheuon cryf o berthynas i Wyddoniaeth, a pha un a ydoedd yn gwneyd da ynte drwg i'r rhai a'i proffesai, a pha un a ydoedd gwybodaeth yn cryfhau calonau a dwylaw y rhai a'i ceisient ai peidio. Galwodd yn nghyd holl ddoethion ei deyrnas i ystyried y pwage, ond ni ddarfu iddynt ond ymddadleu a'u gilydd, gan adael y brenin mor amheus ag erioed. O'r diwedd digwyddodd iddo gyfarfod â Doethwr parchedig, i'r hwn yr adroddodd ei ddyrswch, a'r hwn a adroddodd iddo yr hyn a ganlyn:—"Yr oedd yn byw unwaith yn yr India, meddai, bysgotwr a thri o feibion ganddo. Dygodd hwy i fyny yn y fath dlodi fel pan fu farw penderfynasant ddilyn rhyw orchwyl arall er enill eu cynhaliaeth. Trwy eu bod oll yn nofiedwyr da, penderfynasant fyned i bysgota perlau, ac felly prysurasant i gario allan eu hamcanion. Ond ymddygodd Ffawd yn dra gwahanol tuag at bob un o honynt. Y cyntaf, yr hwn oedd y diocaf o'r tri, a arferai gerdded ar hyd glân y môr, gan obeithio y buasai i'r tonau gario perlau at ei draed. Ond ni ddigwyddodd iddo erioed y fath ffawd dda, a chafodd drafferth fawr i gadw ei hun rhag newynu. Nid oedd yr ail yn ofni caledwaith, ond cymerai ofal rhag suddo i leoedd rhy ddwfn, ac felly gwobrwywyd ef am ei lafur a daeth yn gyfoethog. Ond diystyrai y trydydd y fath ffordd araf i gasglu cyfoeth, a phenderfynodd suddo i'r lleoedd dyfnaf a mwyaf anadnabyddus, gan obeithio cael yno drysorau anmhrisiadwy. Gyda'r syniad yma aeth allan i'r môr agored, a suddodd i'r lle dyfnaf allai weled—ond ni ddaeth byth i fyny."

"O Frenin," ebai y Doethwr, "er y gallwn ganfod mewn dysgeidiaeth ffynhonell llawer o gysuron, eto y mae yr yspryd gorfeiddgar yn cyfarfod a dinystr yn ei waelodion, ac, yn fwy anffortunos na'r ymsuddwr, yn aml yn tynnu ereill i'w ganlyn i ddinystr."



Chwedl 118.—YR ERYR, Y GATH, A'R BAEDD.

Yr oedd Eryr wedi adeiladu ei nyth ar gangen mewn derwen fawr ; Cath hefyd wedi cael twll yn ughanol y pren oedd wedi ymddwyn ei rhai bach yno ; ac wrth waelod y pren yr oedd y Baedd wedi cael lle pwrpasol i'w dorllwyth. Y mae y Gath trwy ei chyfrwystra a'i dichell yn gallu creu anghydfod a diffyg ymddiried rhwng ei chymydogion. Dringa i fynu i nyth yr Eryr, a dywed, "Yr ydych chiwi, a minau hefyd, mewn perygl o gael ein goddiweddyd gan ddinystr ; oblegid yr ydych yn gweled fel y mae y Baedd yn tyrehio o dan y dderwen yn barhaus gyda'r amcan o'i chael i lawr mewn trefn i gael ein rhai bach yn ysglyfaeth." Ar ol dychrynu yr Eryr, a'i wneyd yn anesmwyth am ddiogelwch ei gywion, ymlithra i lawr at y Baedd, a dyweda, "Y mae ein rhai bach mewn perygl mawr ; oblegid mor fuan ag yr ewch allan i chwilio am ymborth, y mae yr Eryr yn barod i gymeryd ymaith eich moch." Ar ol eu llanw fel hyn â dychryn, y mae mewn modd cyfrwys yn myned i ymguddio i'w nyth.

Yna cerdda allan y nos yn ddistaw i gael bwyd ei hun ac i'w rhai bach, gwyllia trwy'r dydd, gan ffugio dychryn mawr. Y mae yr Eryr, er osgoi trychineb, yn eistedd o hyd ar ei nyth; a'r Baedd, er osgoi ysbeiliad, ni symuda gam o'r lle. Beth fu y canlyniad? Bu y naill n'r llall o honynt feirw o herwydd newyn, a chafodd y Gath a'i rhai bach wleddoedd blasus ar yr yspail.

Rhagrith sydd gyfuniad o bob drwg.

Chwedl 119.—YR EPA A'R PYSGOTWYR.

Fel yr oedd Epa yn eistedd mewn pren uchel, fe welai Bysgotwyr yn gosod eu rhwydau mewn afon, ac a sylwodd arnynt yn fanwl. Cygynted ag yr oedd y dynion wedi gosod eu rhwydau, ac wedi myned ymaith i'w ciniaw, daeth yr Epa i lawr o'r pren, gan feddwl y gwnelai yntau dreio ei law yn yr un modd. Ond wrth geisio gosod y rhwydau, fe faglodd ynddynt i'r fath raddau, fel yr oedd yn mron tagu, ac yna gwaeddaï allan, "Wel! wel! dyma hi! ond pa beth allwn ddisgwyl? Pa achos oedd i mi, yr hwn ni wn ddim am bysgota, i ymyryd â rhyw gelfi fel hyn?"

Y mae y rhai a ymaflant mewn peth nad ydynt yn ei ddeall, yn lled sier o fyned i brofedigaeth a magl.

Chwedl 120.—SOCRATES A'I DY.

Adeiladodd Socrates Dŷ hynod fychan i fyw ynddo, a phan y gofynwyd iddo paham y darfu i ddyn mor fawr a phwysig ag ef adeiladu y fath Dŷ bychan, a atebodd, "Byddai yn dda genyf allu llanw hwn â gwir gyfeillion."

Yn mha le y ceir gafael ar wir gyfaill?

*Chwedl 121.***YR IAR A'R WENOL.**

Iâr, wedi cael o hyd i wyau neidr mewn tomen, a eisteddodd arnynt, i'r dyben o'u deor. Gwenol, yn gweled hyny, a ehedodd ati, ac yn dra chyffrous a ddywedodd, "A ydych chi yn orphwyllog, i geisio eistedd ar, a deor y fath haid o greaduriaid peryglus a hynyna? Gallwch fod yn siwr, y foment y dygwch hwynt allan i oleuni, mai chi fydd y cyntaf y troant ac y tywalltant eu malais a'u gwenwyn arni."

Rhaid lladd egwyddorion drwg yn yr eginyn. Os maethir hwynt yn eu cychwyniad, bydd yn anhawdd osgoi eu heffeithiau chwerw, wedi iddynt dyfu i addfedrwydd.



Chwedl 122.

YR YSPEILLIEDIG A'I GYFEILLION.

Un noswaith yn yr Hydref aeth lleidr i dŷ Amaethydd bychan, ac ar ol cyraedd yr ystafell y cedwid y meddianau ynddi, a ladrataodd yr oll y gallodd ddodi ei ddwyllaw arno. Felly, darfu i'r Amaethydd druan, yr hwn a aeth i gysgu y noson hono yn lled dda arno, ddeffroi boreu dranoeth wedi colli y cwbl, heb ddim yn ei aros ond cŵd y cardotyn. Y Nef a'n gwaredo rhag byth ddeffroi yn yr un fath gyflwr! Y mae yr Amaethwr yn wylo ac yn ochain, ac yn galw yn nghyd ei holl gyfeillion a'i gymydogion. "Onid ellwch chwi gynorthwyo ychydig arnaf yn fy nghyfyngder presenol?" gofynai. Yna y mae pob un yn dechreu ei anerch, gan fod yn hael odiaethol o'u cynghorion. Ebai Brown, "Ah! fy nghyfaill, ni ddylasech chwi ymffrostio yn eich cyfoeth wrth bawb." Ebai Jones, "Rhaid i chwi o hyn allan gysgu yn yr ystafell nesaf i'r un y byddwch yn cadw eich eiddo ynddi." "Wel, gyfeillion," ebai Robinson. "Nid yn mhelllder yr ystafell yr oedd y diffyg. Y peth raid i chwi wneyd ydyw cadw cŵn daneddog a chyflym oddeutu eich tŷ. Cymerwch a fynoch o'r cŵn bychain sydd gan fy ngâst Juno. Byddai lawer yn well genyf eu rhoddi yn anrheg i gyfaill na'u boddi." Ac fel hyn, cynbelled ag yr oedd geiriau yn myned, rhoddodd ei gyfeillion a'i gymydogion cynghorion buddiol iddo, ond pan y deuyd at weithredoedd, ni wnelai un o honynt gynorthwyo dim ar y truan.

Llawer yn barod i roddi cynghorion i gymydog mewn helbul, ond ychydig fydd yn barod i estyn cynorthwy gwirioneddol.



Chwedl 123.—YR ASYN A'R BAEDD.

Asyn gwirion yn cyfarfod Baedd un diwrnod, a ddechreuodd chwerthin am ei ben, gan ei gyfarch, "Eich gostyngedig was, fy mrawd." Cythruddodd hyny y Baedd yn fawr, a gofynodd pahan y dywedai y fath gelwydd, gan nað oedd yr un berthynas rhyngddynt. Dywedodd yr Asyn, gyda gwên wawdlyd, "Onid ydym yn frodyr? Edrychweh, mor debyg ydym i'n gilydd!" Cynhyrfodd hyny y Baedd i'r fath raddau, fel y rhuthrodd arno ac a'i lladdodd yn y fan.

Y mae llawer yn talu yn ddrud am eu cellwair.

Chwedl 124.—Y LLEWPARD A'R LLWYNOG.

Bu dadl rhwng y Llewpard a Llwynog, pa un o'r ddau oedd y creadur harddaf. Cyfeiriai y Llewpard at brydferthwch yr ysmotiau lluosog ar ei groen; ond

atebai y Llwynog, “Y mae meddwl galluog yn well na chorph tlws.”

Y meddwl yw safon y dyn.

Chwedl 125.—Y CI A'R CEFFYL.

Un diwrnod yr oedd Ci a cheffyl rhyw Amaethwr yn dadleu eu gwahanol ragoriaethau. “Fel yr wyt yn siarad yn wir, Mr. Ceffyl! Ni byddai yn ddrwg genyf pe baent yn dy droi di allan o'r buarth yma. Tynu yr aradr a llusgo y drol yn wasanaeth anrhyddus, ai ê! Nid wyf erioed wedi clywed dim i'w gydmaru a'th haerllugrwydd. Pa fodd y meiddi gydmaru dy hun â mi? Nid wyf fi yn gorphwys ddydd na nos. Yn y dydd yr wyf yn gwylied y gwartheg yn y weirglodd; yn y nos yr wyf yn gwylio y tŷ.” “Eithaf gwir,” atebai y Ceffyl; “y mae yr hyn a ddywedi yn hollol wir. Ond cofia hyn, fy nghyfaill, oni bai fy aredig i, ni byddai genyt ddim i'w wyllo.”

Pob un yn bwysig yn ei le ei hun.

Chwedl 126.—ÆSOP YN CHWAREU.

Fel yr oedd Æsop un diwrnod yn chwareu â nifer o blant, daeth un o'r Atheniaid heibio, a phan y'i gwelodd, a chwarddodd am ei ben, gan dybied ei fod wedi colli ei synwyr. Wrth weled hyny, cymerodd Æsop ei fwa a phlygodd ef gymaint ag a allai, a daliodd ef yn ngwyneb y dyn. Methai a deall beth a olygai Æsop wrth hyny; safodd yn synedig am beth amser gan geisio dyfalu, ond yn gwbl ofer; o'r diwedd dywedodd Æsop, “Bydd i'r bwa dori os delir ef yn rhy dŷn; ond os llaciwch ef, bydd yn ddefnyddiol i chwi pan fo arnoch angen am dano.”

Gweithio o hyd heb ddim chwareu a wna Jack yn fachgen dwl.



Chwedl 127.—YR AST A'I CHŴN.

Gâst, yn ymyl dyfod a Chwn bach, a ofynodd i Ast arall a fuasai hi mor garedig a chaniatau iddi fenthyg ei thŷ hyd nes y rhoddai enedigaeth i'w thorllwyth, a chafodd ganiatâd uniongyrchol. Bu yno am hir amser yn magu ei chwn; o'r diwedd daeth yr Ast a berchenogai y lle yn mlaen i geisio cael ei thŷ yn ôl, pan yr atebwyd hi gan yr un y gwraethai gymwynas â hi yn awr ei chalsdi, "Os gellwch fy ngyru i a'm cwn allan, gellwch gael eich tŷ yn ôl."

Cadwch dwyllwr yn ddigon pell oddiwrthych.

Chwedl 128.—Y DDAU GI.

Un diwrnod yr oedd dau Gi yn gorwedd yn yr haul, tu allan i gegin eu meistr, ac mewn ffordd o dreulio yr amser yn ddedwydd, aethant i ymddiddan am

ffaeleddau a rhagoriaethau eu cydgreaduriaid. O'r diwedd aethant ar draws y pwngc o gyfeillgarwch. "Pa beth all fod mor ddymunol," ebai Carlo, "na byw mewn heddwch â chyfaill hoff? Paham nad allem ni fod yn gyfeillion?" Ac ateba Tango, "Yr wyf wedi sylwi a gofidio er's llawer dydd o herwydd na allwn ni, er ein bod yn aelodau o'r un teulu, dreulio cymaint a diwrnod heb gweryla â'n gilydd. A phaham y mae felly? Diolch i'n meist'r, nid ydym heb ddigonedd o le, a chyflawnder o fwyd. Y mae yn warthus yn wir. Y mae y Ci er's oesoedd wedi ei ddefnyddio yn arwyddlun cyfeillgarwch, ac eto ni chewch yn mhlith cŵn gymaint o gyfeillgarwch ag a geir yn mhlith dynion." "Bydd i ni roddi esiampldda yn hyn i'r oes," ebai Carlo. "Eich pawen!" "Dyma hi." Ar hyn y mae y cyfeillion yn myned i gofleidio a chusanu eu gilydd; maent yn methu gwybod, yn eu llawenydd, pa beth i ddweyd wrth eu gilydd. "Fy Ngharlo anwyl," ebai un. "Tango hoff!" ebai y llall. "Ymaith â phob cwerylon, pok eiddigedd, pob malais!" meddant gyda'u gilydd. Ar yr adeg yma, yn anffortunos, y mae y gogyddes yn taflu asgwrn allan trwy ffenestr y gegin. Rhuthra ein cyfeillion iddo, gan gnoi a chwyrnu. Pa beth sydd wedi dyfod o'u cytundeb a'u cyfeillgarwch? Rhuthrant i yddfau eu gilydd, a gafaelant mor dŷn fel y bu raid eu taflu i'r llyn cyn y gollyngasant eu gafaelion.

Llawer o gyfeillion fel y Ddau Gi. Os gurandewch ar eu siarad, tueddir chwi i gredu fod eu mynwesau yn llawn serch y naill tuag at y llall. Ond tafwch asgwrn iddynt, ac ymddygant yn gymwys fel y cŵn.



*Chwedl 129.*

Y BLAIDD, Y LLWYNOG, A'R EPA.

Cyhuddodd y Blaidd y Llwynog o ladrad, yr hwn a wadai bob cysylltiad â'r hyn y cyhuddid ef o'i blegid. Gelwir ar yr Epa i eistedd yn farnwr ar yr achos,—ac ar ol i bob un o'r ddau adrodd yr hanes, dywedodd, “Nid ymddengys eich bod chwi, Mr. Blaidd, wedi colli yr hyn y gofynwch am dano; ac yr wyf yn credu eich bod chwi, Mr. Llwynog, wedi lladrata yr hyn wadwch mor benderfynol.”

Ni chredir y Celwyddog pan fyddo yn dweyd y gwir



Chwedl 130.

YR AMAETHWR CYBYDDLID.

Darfu i Amaethwr Cybyddlid gymeryd yn ei ben i orchymyn i'w gi i gyflawni tair o ddyledswyddau tra gwahanol—gwylio y tŷ, pobi y bara, a chario dwfr i'r ardd. Ni wnaeth y ci wrthwynebiad, gan ei fod yn cael addewid o drebliad ei gyflog, ac felly yr oedd y fargen yn foddhaol i'r ddau. Pan y daeth yr Amaethwr gartref o'r ffair dranoeth, cafodd nad oedd yr ardd wedi ei dyfrhau, y bara wedi ei bobi, na'r tŷ wedi ei wyllo, oblegid yr oedd lladron wedi bod yno a lladrata y pethau goreu. Wrth gwrs, ceryddodd y ci, ond profodd, er ei foddhad, nad allai fod yn yr ardd tra yn myned o amgylch y tŷ, a thra yn cario dwfr nad allai hefyd bobi y bara.

Y neb a ddisgwylio i'w was wneyd dau waith ar unwaith a gaiff golled.

Chwedl 131.—YR HWCH.

Un boreu braf galwodd yr Hwch ei thorllwyth ati, a rhoddodd iddynt y cynghor priodol a ganlyn, “Fy anwyl blant, yr wyf yn dymuno arnoch fod yn foesgar bob amser, a gofalu am gadw eich hunain yn lân, a pheidio ymdreiglo yn y ffosydd a'r pyllau.” Ond fel yr oedd yr Hwch yn *gwneyd* ac nid fel yr oedd yn *dweyd* y gwnelai ei phlant.

Ofer dweyd, Gwnewch fel yr wyf yn DWEYD ac nid fel yr wyf yn GWNEYD.





Chwedl 132.—Y GŴR A'I DDWY WRAIG.

Yn y dyddiau pan yr oedd yn rhydd i ddyn briodi mwy o wragedd nag un, darfu i ddyn canol oed, gwallt yr hwn oedd yn dechreu troi yn llwyd, syrthio mewn cariad â dwy ferch ar unwaith, a phriododd y ddwy. Yr oedd un o honynt yn ieuange ac iraidd, a dymunai i'w gŵr ymddangos mor ieuange a hi ei hun; yr oedd y llall mewn gwth o oedran, a dymunai fod ei gŵr rywbeth yn agos i'w hoed hithau. Felly cymerai y Wraig Ieuange bob cyfle i dynu pob gwelltyn gwŷn o ben y gŵr da; a'r Hen Wraig oedd lawn mor âdiwyd yn ceisio tynu pob gwelltyn du i ffordd. Am dymhor teimlai y gŵr yn dra dedwydd oblegid eu gofal a'u serch, hyd nes ar ryw foreu y cafodd nad oedd ganddo, rhwng y naill a'r llall, un blewyn o fath yn y byd wedi ei adael ar ei ben.

Anaml y mae priodasau, lle mae anghyfartaledd mawr mewn oedran, yn ddedwydd. Yr hwn a ildia ei egwyddorion i ddylanwad a mympwyon pleidiau gwrthwynebol, a ddiwedda mewn bod heb egwyddorion oll.

Chwedl 133.

YR ASYNOD A'R LLADRON.

Yr oedd dau Asyn llwythog ar y ffordd; un yn cario basgedi llawn o arian, y llall sachau o haidd. Yr oedd yr Asyn a gariai yr arian yn myned yn hynod benuchel gan ysgwyd y gloch a grogai wrth ei wddf nes y tinciai yn uchel; y mae yr Asyn arall yn ei ddilyn yn araf a phen isel. Rhuthra ysbeilwyr yn sydyn o'r gwrych, ac y maent wrth ymosod ar yr Asynod, yn gwthio cleddyf trwy yr Asyn a gariai yr arian. Maent yn cymeryd yr arian ond yn gadael yr haidd fel peth diwerth. Pan yr oedd yr Asyn clwyfedig yn gruddfan wrth farw, dywedodd y llall, "Y mae yn dda i mi fy mod wedi fy esgeuluso, oblegid nid ydwyf wedi colli dim, na derbyn yr un niwaid."


Mwyaf o gyfoeth mwyaf o ofal a pherygl.

Chwedl 134.

Y BARCUTAN PAPYR A'R ADAR.

Dychrynwyd yr Adar yn anghyffredin un diwrnod wrth weled rhywbeth a dybient hwy yn aderyn anferth o faint yn hedfan yn yr awyr. Yr oedd yr olwg arno yn ofnadwy! Credent yn sicr y byddai iddo eu difetha oll. Ond wedi i'r Barcutan Papyr fod i fyny am ychydig amser, peidiodd y gwynt, a syrthiodd yntau i lawr i'r baw.

Gall dyn ymgodi yn sydyn trwy rhyw nerth estronol, ond y mae yn sicr o ddyfod i lawr; yr unig ddyrchafiad gwirioneddol yw pan fyddo dyn yn graddol godi yn ei nerth ei hun a chyd a'i adenydd ei hun.

*Chwedl 135.*

ADERYN Y TÔ A'R YSGYFARNOG.

Aderyn y Tô a edliwiai i Ysgyfarnog a ddaliwyd gan Eryr, am fod mor ffîol a chymeryd ei dâl a gwneyd y fath leisiau anfwyn, "Beth am y cyflymder yr ymffrosti ynddo?" ebai. "Sut y bu dy gerddediad mor arafaidd?" Tra yr oedd yn siarad, y mae Barcud yn disgyn arno, ac yn ei ddâl yn ddiarwybod, ac yn ei ladd er gwaethaf ei ysgrechfeydd. Yr Ysgyfarnog, er ei bod yn haner marw, a ddywedodd mewn ffordd o gysur wrth farw, "Yr wyt ti, ag oeddit ychydig funudau yn ol yn ddiogel, ac yn gwneyd gwawd o'r trychineb a'm goddiweddodd, wedi cael dy ddal dy hunan gan anffawd gyffelyb."

Na fydded i chwi sarhau personau mewn blinfyd.

Chwedl 136.—Y GWLADWR A'I HUGAN.


Yr oedd penelin Dafydd trwy ei hugan. Paham y dylai sefyll yn hir uwchben y ffaith? Cymerodd ei nodwydd; torodd ddarn o flaen y llewis, a thrwsiodd y ddau benelin. Yr oedd yr hugan yn gyfan eto, ond yr oedd ei freichiau yn noethion am chwarter eu hyd. Pa beth a wneir? Y mae pawb yn chwerthin am ben Dafydd. Dywed yntau, "Gan nad ydwyf yn ffwl, bydd i mi wneyd y diffyg yma i fyny fel y gwnaethum y llall. Nid dyn cyffredin yw Dafydd." Felly torodd gynffonau ei hugan i helaethu y llewis. Yna yr oedd Dafydd yn ddedwydd, er nad oedd ei hugan ond ychydig iawn yn hwy na'i wasgod.

Felly y mae llawer mewn amgylchiadau dyryslyd yn ceisio eu gwella trwy fenthycu mewn un man i dalu eu dyled mewn man arall.

Chwedl 137.—YR ATHEISTIAID.

Yr oedd llwyth anystyriol unwaith wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn y duwiau. Darfu i'r terfysgwyr arfogi eu hunain â ffyn tafl, a saethau, a dechreuasant ymosod ar Olympus. Darfu i nifer o'r duwiau brysuro i geisio gan Jupiter i hyrddio ei daranfoltau yn erbyn eu gelynion, neu i'w dihanfodi trwy rhyw foddion goruwch-naturiol. "Gadewch i ni aros ychydig," ebai Jupiter. "Os na fyddant yn llonydd, heb ofni y duwiau, bydd iddynt gael eu cospi trwy eu dwylaw eu hunain." Yr adeg hono, gyda bloedd, dyma gawod o geryg ac ystorm o saethau, yn cael eu gollwng gan y terfysgwyr—ond dychwelodd y ceryg a'r saethau, yn cael eu gyru gan nerth goruwch-naturiol, ar benau y terfysgwyr, gan eu lladd bob un."

Pob saeth a anelir at Dduw, a ddychwela, yn cael ei dilyn gan farwolaeth, ar ben yr hwn a'i gollynga.



Chwedl 138.—Y LLYFFANTOD A'R HAUL.

Yn y dechreu, pan y soniodd yr Haul am briodi, cododd y Llyffantod eu llef hyd yn nod i'r sêr. Trwy fod Jupiter yn cael ei aflonyddu gan eu crawcian, gofynodd iddynt yr achos o'u cwynfan. Ac atebwyd ef gan Lyffant a safai ar ymyl ffynon o ddwfr: "Er nad yw yr Haul yn awr ond un, y mae yn sychu i fyny y ffynonau a'r llynoedd, ac yn ein gorfodi ninau, greaduriaid truenus, i farw o herwydd prinder dwfr; ond pa beth ddaw o honom os prioda a chael plant?" Hynny yw, mwy o Heuliau.

Fel y tad felly y mab.



Chwedl 139.—Y COED A'R DUWIAU.


Yn yr hen amser darfu i'r Duwiau ddewis y coed a gymerent o dan eu nawdd. Boddheid Jupiter gan y dderwen, Venus gan y myrtwydd, Phœbus gan y lawrwydden, Cybele gan y binwydden, a Hercules gan y boplysen uchel. Minerva yn synu eu bod oll wedi dewis coed diffwrth, a ofynodd iddynt am reswm dros eu hymddygiad. Dywedodd Jupiter, "Yr ydym wedi gwneyd fel hyn rhag i ddynion feddwl ein bod wedi eu dewis er mwyn y ffrwyth ac nid er mwyn anrhydedd." Ond ateba Minerva, "Bydded i bawb wneyd fel y myno, y mae yr Olew-wydden yn fwy gwerthfawr genyf fi, a hyny o herwydd ei ffrwyth." Yna dywedodd tad y Duwiau, "O ferch! tydi yw y doethaf o'm holl blant. Os na fydd i'r hyn a wnawn ddwyn elw, y mae gogoniant yn beth diwerth iawn."

Gwerthfawroger pren er mwyn ei ffrwyth ac nid er mwyn ei ddail.

Chwedl 140.—YR ASYN A'I BERCHENOGION.

Yr oedd cwmni o Fasnachwyr yn arfer arwain Asyn oddiamgylch i gario eu nwyddau. Ar ol iddo arwain bywyd o galedi ac aml gernodiau, bu farw; tynasant ei groen oddiam dano, a gwnaethant dabyrddau o hono. Yn mhen ychydig amser, pan ofynwyd iddynt pa beth oedd wedi dyfod o'u Hasyn, a atebasant, "Meddylodd y buasai yn ddiogel ar ol marw, ond gwelwch, gwnaethom dabyrddau o'i groen, a churir mwy arno nag erioed."

Y mwyaf anedwydd yw yr hwn sydd yn anedwydd tra fyddo byw ac yn fwy anedwydd ar ol marw.



Chwedl 141.—Y GWR CYFOETHOG TLAWD.

Y mae Ffawd yn clywed Cardotyn yn myfyrio ar y pleserau sydd o fewn cyraedd y cyfoethog, ac yn eu beio am beidio mwynhau eu hunain. Meddyliai yr ymddygai ef yn dra gwahanol pe caffai gyfleusdra. Ar hynny y mae Ffawd yn ei anrhegu â phwrs. Dywed wrtho pa bryd bynag y byddai iddo ddodi ei law ynddo y caffai ddarn o aur. Mor fuan ag y tyno un allan, bydd arall yn cael ei ollwng i fewn, ac felly y gallai y Cardotyn lanw ei goffrau âg aur. Ond nid ydyw i wario cymaint ag un o'r darnau aur hyd nes y bydd iddo daflu y pwrs hynod i'r afon a redai gerllaw. Diflana Ffawd, a dechreua y Cardotyn dynu darn ar ol darn allan o'r Pwrs. Wrth gwrs, nid ydyw yn meddwl ei daflu ymaith yn fuan. "Bydd i mi gymeryd allan bentwr o aur," meddai, "ac yfory dechreuaf fyw mewn llawnder." Ond erbyn dranoeth, y mae wedi cyfnewid ei feddlwl. "Y mae yn wir," meddai, "fy mod yn awr yn gyfoethog. Ond pwy sydd heb ymhyfrydu mewn cyfoeth! A phaham na fyddai i mi ddyblu fy nghyfoeth? Nid gwaith ofer fydd i mi dreulio un diwrnod eto gyda'm Pwrs.

Dyma ddigon i brynu tŷ, cerbydau a meirch. Ond os gallaf gael digon i brynu etifeddiaeth, onid ffolineb fyddai i mi daflu ymaith y cyfleusdra? Wrth gwrs, cadwaf y Pwrs. Bydd i mi ymprydio un diwrnod yn ychwaneg. Bydd genyf ddigon o amser i fwynhau fy hunan wedi hyny." Felly y meddylia, ond y mae dyddiau, wythnosau, misoedd, a blynnyddoedd yn myned heibio, ac eto y mae y Cardodyn yn para i ychwanegu ei drysor. Unwaith cychwyna tua'r afon, gan fwriadu taflu y Pwrs iddi, a dechreu mwynhau ei hun. Ond y mae yn methu cael ar ei galon i wneyd hyny, a dychwela eilwaith at ei hoff orchwyl. Dechreua yn foreu bob dydd ar ei orchwyl o bentyrn arian; ac ni rodda heibio i'w waith hyd nes y bydd yn hwyr o'r nos. Y mae yn myned i edrych yn hen cyn ei amser, diflana ei gnawd oddiam ei esgyrn, a gwyna ei ben yn anamserol. A yn fwy egwan y naill ddydd ar ol y llall. Y mae iechyd ei gorff a'i heddwch yn cael eu dinystrio. Ond parha, gyda dwylaw crynedig, i gymeryd deryn ar ol deryn allan o'r pwrs. Cymera a chymera,—a pha fodd y diwedda y cwbl? Ar y fainge lle yr arferai eistedd, y ceir ef o'r diwedd wedi marw, yn y weithred o gyfrif ei nawfed miliwn.

A gaffo arian ni ddigonir âg arian.

Chwedl 142.—JUNO A'R PAUN.

Daeth Paun at Juno i gwyno am nad ydoedd wedi rhoddi iddo lais yr Eos; a dywedai ei fod yn cael ei edmygu gan yr holl adar, ond yn cael ei ddiystyru cygynted ag y rhoddai allan ei lais. Yna dywedodd y dduwies, mewn trefn i geisio ei foddloni, "Yr wyt yn rhagori arnynt mewn prydferthwch, ac mewn maintioli, y mae dy wddf yn hardd, a phlyf dy gynffon yn ogoneddus." Dywedodd y Paun, "Paham y'm gwisgir yn y plyf hardd hyn os ydwyf i gael fy narostwng yn fy llais?" Ateba Juno, "Y mae rhanau wedi eu rhoddi i chwi yr adar trwy ewylllys y duwiau: i chwi brydferthwch, i'r eryr nerth, i'r eos cân, ac y mae pob un yn foddlon ar yr hyn sydd ganddo."

Byddwch foddlon ar yr hyn sydd genych, ac na chwenychwch yr hyn a berthyn i ereill.



Chwedl 143.—Y CARDOTYN A'I GŴD.

Y mae Ffawd un diwrnod yn clywed Cardotyn yn siarad wrtho ei hun. Y mae yn gwawdio ffolineb y rhai nad ydynt byth yn foddlon ar yr hyn sydd ganddynt, y rhai nad ydynt byth yn gweled eu digon, ac yn y diwedd a andwyant eu hunain wrth geisio ychwaneg. Yn nghanol ei fyfyrddod y mae yn cael ei aflonyddu gan y dduwies Ffawd, yr hon a'i hysbysa ei bod er's amser wedi meddwl ei gynorthwyo, ac y byddai iddi ollwng i'w Gŵd y darnau aur oedd ganddi yn ei meddiant ar y pryd. Ond ni wna hyny ond ar delerau neillduol, sef, "Fod yr oll a ddaliai y Cŵd i fod yn aur; ond fod y cwbl a syrthiai i'r llawr i gael ei droi yn llwch." Ac y mae yn ei rybuddio fod ei Gŵd yn hen a braenllyd, a byddai yn well iddo beidio rhoddi gormod o bwysau arno. Y mae y Cardotyn yn methu anadlu bron gan lawenydd. Prin y mae yn teimlo y llawr o dan ei draed. Agora ei Gŵd, ac y mae y dduwies gyda llaw agored yn goll-

wng cawod o ddarnau aur iddo. Mae y Cŵd yn fuan yn myned braidd yn drwm. “A yw hynyna yn ddigon?” “Nag ydyw yn hollol.” “Onid yw y Cŵd yn eracio?” “Dim perygl.” “Ystyria yr wyt mor gyfoethog a Cræsus.” “Ychydig bach eto—un dyrnaid yn ychwaneg.” “Dyna, y mae yn llawn! Cymer ofal y mae y Cŵd ar rwygo.” “Dim ond ychydig bach eto.” Ond ar hyn y mae y Cŵd yn ymagor, a syrthia y trysor i'r llawr a throa yn llwch, a diflana Ffawd. Nid oedd gan y Cardotyn ond ei Gŵd gwag, ac aeth ymaith mor dlawd ag erioed.

A gaffo arian ni ddigonir ag arian. A grafango am ormod, a golla yr hyn fo ganddo.

Chwedl 144.—Y SIWG BRIDD A'R LLESTR COED.

Siwg bridd hardd yn sefyll yn fawreddog ar y bwrdd, a edrychai gyda dirmyg ar y Llestr coed a ddefnyddid i olchi y llawr, a dywedodd, “Yr wyf lawer yn brydferthach na thydi yr hen Lestr coed hyll. Dos allan trwy y drws yna, neu mi a ddeuaf i lawr ac a'th fwriaf i'r ffordd.” “Aros funud,” ebai'r Llestr coed, “paid ag ymffrostio gormod. Cofia fod Llestri pridd yn hawdd iawn eu tori.” Chwarddai y Siwg hardd yn braf am ben rhybudd y Llestr coed, a sythai yn fwy nag erioed, ond och! rhyw ddiwrnod torwyd y Siwg falc, a thafwyd hi allan i'r domen, ond parhaodd y Llestr pridd i wneyd gwasanaeth am flynyddoedd wedi hyny.

Defnyddioldeb yn para yn hwy na phrydferthwch.





Chwedl 145.—Y LLWYNOG A'R LLYGODEN.

Cafodd Llwynog ei benodi yn Farnwr ar fuarth lle y cedwid llawer o ieir a gwyddau, a chyflawna ei waith gyda sel a phenderfyniad. Ond y mae yna rhyw si yn y gwynt ag sydd yn anffafriol i'w anrhyddedd, ac y mae yn cael ei ddiswyddo ar yr amheuaeth o ladd rhai o'r adar ddodwyd dan ei otal. "A welsoch chwi fi erioed yn cyflawni trosedd o unrhyw fath?" gofynai i'w gymydoges y Llygoden. "Naddo," oedd yr ateb; "ond gwelais fân-blu o amgylch eich geneu." Dyma y Cymhwysiad—

Ceir gweled aml i swyddog bychan, yn derbyn cyflog gweddol, yn byw yn dda; ac yn araf deg adeilada dŷ, a thŷ wedi hyny, ac yna pryna etifeddiaeth. Ond pa fodd y gellir cysoni ei dreulion gyda'i dderbyniadau? Er nas gellir profi dim yn ei erbyn mewn llys cyfreithiol, eto ni byddwch yn cyflawni pechod os dywedwch, "Y mae mân-blu o amgylch geneu y dyn yna."

Chwedl 146.—Y CAWRFIL MEWN SWYDD.

Apwyntiwyd Cawrfil yn llywodraethwr coedwig fawr. Ni fynai er dim niweidio gymaint a gwibedyn

yn fwriadol, ond nid yw yn ddigon gwybodus i ganfod y gorthrwm a weinyddid gan ereill. Dygir cwyn ger ei fron fod y Bleiddiaid yn difetha y Defaid. "Ladron," ebai y Cawrfil, "pwy roddodd ganiatâd i chwi gyflawni y fath weithredoedd anfad?" I'r hyn yr ateba y Bleiddiaid, "Oni ddarfu i chwi ganiatau i ni gael codi treth fechan oddiar y Defaid, digon i'n cadw yn gynnes yn y gauaf? Ac y mae yn rhaid i'r Defaid dŵl gwyno! Nid ydym yn cymeryd ond un enu oddiar bob un. Ond y maent yn gwrthwynebu talu hyd yn nod hyny." "O, wel, wel!" ebai y Cawrfil, "byddwch yn ofalus. Ni bydd i mi ganiatau dim tebyg i anghyfiawnder. Gellwch gymeryd un enu oddiarnynt fel o'r blaen; ond gofalam beidio cymeryd yr un blewyn ond hyny."

Gofaler am beidio rhoddi personau anwybodus mewn swyddi, neu gwae i'r gwan.

Chwedl 147.—Y FRONWEN A'R LLYGOD.

Bronwen wedi ei llwyr weithio allan gan flynyddoedd a henaint, gan nad allai yn hwy ddilyn y Llygod cyflymdroed fel yr arferai, a guddiodd ei hun yn y bawd, mewn congl dywyll. Daeth Llygoden ddi-brofiad i'r lle, a chan dybied mai rhywbeth i'w fwyta oedd y Fronwen, a nesaodd ati, ac nid hir y bu cyn myn'd yn aberth i'w ffolineb; nesaodd un arall, ac un arall ar ol hono, ac amryw wed'yn, a chyfarfyddasant â'r un dynged chwerw. O'r diwedd nesaodd hen Lygoden gall, ddifrifol, a gochelgar yn mlaen, ag oedd lawer gwaith wedi diange o beryglon y trap a'i gyffelyb, a gwelodd y perygl o bell, a dywedodd, gyda gradd o wawdiaith yn ei llais, "Felly yn siwr! A oes genych wely esmwyth yn y bawd yna, Meistres Bronwen? Boreu da."

Nid ag us y mae dal hen Adar.



Chwedl 148.—Y TRI BRAWD.

Un adeg yr oedd Tri Brawd yn arwain bywyd tlodaidd, ac yn byw mewn tŷ truenus, ac yn cael trafferth i gael digon o fwyd. Yn ol eu barn hwy, ar Ffawd yr oedd y bai i gyd. O'r diwedd y mae Ffawd yn cymeryd trugaredd arnynt, yn dyfod i'w plith heb yn wybod iddynt, yn gwneyd yr oll a allai i'w cynorthwyo, ac yn aros gyda hwynt am flwyddyn. Yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn hwylus. Un o honynt, a ystyrid yn fasnachwr diamcan, a gafodd ei hunan yn gwneyd elw o bob peth a brynai ac a werthai, a daeth yn fuan yn farsiantwr cyfoethog. Aeth un i wasanaeth y llywodraeth, a chododd yn fuan i fri, anrhydedd, a chyfoeth. Mewn ychydig amser yr oedd ganddo dŷ yn y dref a thŷ yn y wlad, a darn helaeth o dir firwythlon. Ond pa beth ddaeth o'r trydydd brawd. Gellwch fod yn sier fod Ffawd wedi ei gynorthwyo yntau hefyd. Gwir iddi ei wneyd yn weithgar ar hyd y flwyddyn; ond treuliodd yr holl amser i ddal pryfaid, ac y


oedd yn llwyddianus iawn gyda'r gorchwyl hwnw. Nid wyf yn gwybod a oedd ganddo dalent naturiol at hyny ai peidio; pa un bynag am hyny nid oedd yn awr byth yn methu ei nôd, diolch i'w Ffawd dda. O'r diwedd darfu i'r ymwelydd, a arosodd cyhyd gyda'r brodyr, eu gadael. Yr oedd dau o'r brodyr wedi enill yn fawr ar ei hymweliad. Yr oedd un o'honynt yn gyfoethog, a'r llall mewn swydd uchel. Ond bu gorfod i'r trydydd, a dreuliodd ei holl amser i ddal pryfaid, fyned oddiamgylch i gardota ei fara.

Y neb na chymer fantais ar gyfleustra a rare ddioddef tlodi.

Chwedl 149.—Y CRIB A'R PLENTYN.

Rhoddodd boneddiges Grib prydferth i'w mhab, yr hwn a'i boddhaodd mor fawr fel nad oll yngai ef byth o'i ddwy-law. Pa un bynag ai yn chwareu ai ynte yn dysgu ei wers, yr oedd yn parhaus wthio y Crib trwy ei wallt melyn modrwyog. "Y fath Grib ydoedd! Nid oedd byth yn cydio yn y gwallt, nac yn tynu dim o hono ymaith, ond bob amser yn myned trwyddo yn esmwyth a diboen." Ond un diwrnod dododd y Crib yn rhywle o'i law, a methodd gael gafael ynddo pan aeth i chwilio am dano. Aeth y bachgen i redeg a chwareu nes yr oedd ei wallt yn ddyrswch i gyd. Nid cynt y cyffyrddwyd ef gan y forwyn nag y dechreuodd gwyno a gwaeddi, "Pa le y mae fy Nghrib i?" Cafwyd ef o'r diwedd; ond pan y ceisiodd y bachgen ei wthio trwy ei wallt ni symudai yn mlaen nac yn ol. Y bachgen, yn teimlo ei wallt yn cael ei dynu o'r gwraidd, a dorodd allan i wylo a gwaeddi, "Y fath Grib drwg wyt ti!" Ond y mae y Crib yn ateb, "Fy nghyfaill, yr wyf yr hyn oeddwn bob amser; y mae y bai yn eich gwallt chwi, yr hwn sydd wedi dyrwsu." Ar hyny y mae y plentyn yn myned i dymer ddrwg, ac yn taflu y Crib i'r afon.

Cyhyd ag y byddo y gydwylbod yn ddirwyst, y mae gwirionedd yn foddhaol i'r dyn, ystyrir ef fel rhywbeth cysegredig, gwrandewir arno ac ufuddheir iddo; ond y foment y dechreua weithredu yn groes i'w gydwylbod, edrychir ar y gwirionedd fel gelyn.

*Chwedl 150.*

Y CEFFYL A'R ASYN LLWYTHOG.

Dyn yr hwn a gadwai Geffyl ac Asyn, a arferai yn ei deithiau i arbed y Ceffyl, a rhoi yr holl faich ar gefn yr Asyn. Yr Asyn, yr hwn oedd wedi bod yn wael ei iechyd am dymhor, a erfyniodd ar y Ceffyl i'w ysgafnhau o ran o'i lwyth. "Canys," ebe efe, "os symudwch ran o'm llwyth, mi a ddeuaf yn iach yn fuan eto; ond os gwrthodwch fy helpu, y llwyth hwn a'm lladd I." Ond y Ceffyl, yn ddideimlad, a barai i'r Asyn fyn'd yn mlaen, a phaidio ei flino ef a'i gwynion. Aeth yr Asyn yn mlaen yn ddistaw, ond yn fuan, wedi ei lethu gan ei faich, fe syrthiodd i lawr yn farw, fel y rhagddywedasai. Ar hyn daeth y meist'r i fynu, a chan ryddhau y baich oddiar gefn yr Asyn marw, a'i osod ar gefn y Ceffyl, fe wnaeth iddo gario ysgerbwd yr Asyn yn ychwanegol at hyny. "Och fi! am fy angharedigrwydd!" ebe y Ceffyl; "am wrthod dwyn fy rhan ddeg o'r baich, rhaid i mi yn

awr ddwyn y cwbl o hono, gyda baich marw yn y fargen."

Y mae tymher anghymwynasgar yn fynych yn dwyn ei gosb arno ei hun.

Chwedl 151.—Y BLEIDDIAID A'R DEFAID.

Darfu i Gynghorfa gyffredinol yr anifeiliaid apwyntio dirprwyaeth i'r dyben o roddi atalfa ar an-rheithiadau y Bleiddiaid yn mhlith y Defaid. Y mae y dirprwywyr yn cyfarfod, ac yn pasio deddf ragorol, i'r dyben fod i unrhyw Flaidd a aflonyddo ar Ddafad, i gael ei ddwyn ger eu bron i'r goedwig i gael ei gospi. Yn anffortunus, pa fodd bynag, y mae y Bleiddiaid yn ffurfio mwyafrif yn y pwyllgor. Y mae y gyfraith yn ddifai, ond nid felly y rhai a'i gweinyddant. Y canlyniad yw, pa un bynag ai achwynydd ynte amddiffynydd fyddo y Ddafad, y mae y ddedfryd yr un fath yn mhob achos. Y mae y Bleiddiaid yn sicr o afael yn y Ddafad a'i llusgo i'r goedwig. A sut bynag byddo y tystiolaethau, y mae y Ddafad yn siwr o ddioddef.

Er cael cyfraith dda, gwae i'r gwan, os personau cyfranog fyddant yn ei gweinyddu.

Chwedl 152.—Y DEFAID A'R CŴN.

Mewn diadell neillduol penderfynwyd ychwanegu rhifedi y Cŵn, mewn trefn i gadw y Bleiddiaid draw. Beth ddigwyddodd? Wel, cynyddodd eu rhifedi mor gyflym, fel, o'r diwedd, yr oeddynt yn alluog i gadw y Bleiddiaid draw, mae yn wir. Ond y mae yn rhaid i Gŵn, hefyd, fyw. Felly, yn gyntaf, cymerasant gnuoedd y Defaid, yna rhwygasant eu erwyn oddiam eu hasenau. O'r diwedd nid oedd ond pump neu chwech o'r Defaid yn aros, a darfu i'r Cŵn gwancus fwyta y rhai hyny i fyny yn gorfforol.

Waeth gormod o Fleiddiaid na gormod o Gwn.



Chwedl 153.—YR ASYN A JUPITER.

Dywedir nad oedd yr Asyn ar y cyntaf yn fwy o faintioli na'r Wiwer. Yr oedd yn awyddus i dynu sylw ac enill parch, oblegid yr oedd ei enaid yn fawr, er fod ei gorph yn fychan; ond yr oedd ei fychander yn peri iddo fyned yn ddisylw o hyd. O'r diwedd aeth at Jupiter, ac erfyniodd arno ei wneyd yn fwy, gan ddweyd fod y dirmyg a dderbyniai yn ddyledus hollol i'w fychander; ac os gwnelid ef gymaint o faint a'r llo y byddai yr holl fyd yn fuan yn siarad am dano. Yr oedd yr Asyn bob dydd yn poeni Jupiter gyda'r erfyniad yma; ac o'r diwedd gwrandawodd y duw ar ei weddi, a daeth yn anifail mawr. Ond ar yr un pryd daeth ei lais mor gryf fel yr oedd y cawr hir-glustiog yn dychrynu yr holl goedwig. "Pa greadur yw hwn-yna?" oedd y cwestiwn a ofynid yn aml. "I ba deulu y perthyna? Y mae ganddo ddannedd hirion, pa fodd bynag; a chyrn heb rifedi arnynt!" Yr oedd digon o siarad o'r diwedd am yr Asyn. Ond beth oedd diwedd y cwbl. Cyn bod blwyddyn wedi myned heibio cafodd pawb allan pa beth ydoedd mewn gwirionedd; aeth ei ddyluni yn ddihareb; a byth er hyny y mae wedi ei ddefnyddio i gario neu lusgo.

Os bydd dyn o feddwl bach nis gall neb na dim ei wneyd yn wir fawr.

Chwedl 154.—YR ARTH A'R GWENYN.


Cyfarfyddodd y bwystfilod mewn pwyllgor un gwanwyn i ddewis Arolygydd ar y Cychod Gwenyn. Y mae yno lawer o ymgeiswyr am y swydd, ond yr Arth, trwy fod ganddi ddylanwad mawr, a ddewisir i'w llanw, er fod pawb yn ddigon hysbys ei bod yn dra hoff o fêl. Yn mhen ychydig amser y mae swn mawr yn codi. Darganfyddir fod yr Arth yn arfer cario i'w ffau yr holl fêl y gall ddodi ei phawenau arno. Ar hynny, gwneir ymchwiliad manwl i'r achos, ac o'r diwedd y mae y llys yn dedfrydu yr Arth i gael ei diswyddo, a'i hanfon i dreulio y gauaf yn ei ffau. Chwiliasant, profasant, arwyddasant, a chondemniasant, ond ni ddarfu iddynt adfer y Mêl. Am yr Arth nid ydoedd hi yn gofalu dim. Ffarweliodd a'r byd, ac ymneillduodd i'w ffau gynes. Yno y sugna ei phawen felus, ac arosa hyd nes y ca adeg i fyned allan i chwilio am lwc newydd.

Waeth gan swyddog anonest gael ei droi o'i swydd na pheidio, os caiff fyned gartraf i fwynhau y Mael a gasglodd.

Chwedl 155.—Y CADBEN A'R MORWYR.

Llong ar y môr a oddiweddwyd gan ystorm ofnadwy; lluchid hi fel pluen gan y tônau cynhyrfus, ac ofnai yr holl ddwyllaw mai yn y gwaelod y byddent mewn ychydig amser. Yr oedd eu calonau yn curo, a'r dagrau yn llifo dros eu gruddiau. Gellid darllen anobaith yn mhob gwyneb. Yn sydyn, pa fodd bynag, gostegodd y gwynt a llonyddodd y tônau, a dechreuodd y morwyr fyned o eithafion tristwch i eithafion llawenydd. Dawnsient, bloeddient, crechwenent gan faint eu balchder. Galwodd y Cadben hwy ato, a dywedodd, "Gweddus yw i'ch llawenydd fod yn gynil, a'ch tristwch yn gymedrol, oblegid y mae llawenydd a thristwch yn gymysgedig â'n holl fywyd."

Mewn hwyddiant ofnwech y gwaethaf, mewn trallod gobeithiwch a goreu.



Chwedl 156.—Y FRONFRAITH A'R IAR.

Y FRONFRAITH.—Yr hen Iâr lwyd y mae dy lais yn aflafar a chras, nid wyf yn gwybod sut y mae y meistr yn dy ddioddef.

YR IAR.—Cyfaddefaf nad oes genyf dalent at ganu, a gall fod y sŵn yn ddigon aflafar, ond y mae fy wyau yn dda, ac yn cael eu gwerthfawrogi gan dlawd a chyfoethog.

Wyau gan un, can gan y llall; pob un yn ol ei allu ei hun, a phob un yn dda yn ei le.

Chwedl 157.—Y MEDDWON.

Cyfarfyddodd dau gymydog a'u gilydd, pob un o'r ddau mewn trafferthion at eu clustiau, ac y maent yn doddi eu penau yn nghyd i adolygu eu hanffodion. Dywed un o honynt: "Y mae Rhagluniaeth wedi ymddwyn yn galed tuag ataf fi. Y Nadolig diweddfaf cawsom dipyn o wledd. Aethum allan i roddi ymborth i'r ceffylau, gan gario canwyll yn fy llaw. Rhaid i mi gyfaddef fod rhywbeth yn gwneyd rhyw swn yn fy mhen, a rhaid fy mod wedi gadael gwreichionen i fyned i'r gwellt. Llwyddais i ddiange fy hun-

an, ond llosgwyd pob gwerth ceiniog oedd genyf gan y tân." "Y mae Rhagluniaeth wedi bod yn ddig wrthyf finau," ebai y llall, yr hwn oedd wrth ei ffyn baglau; "Y mae yn syndod fy mod i yn fyw. Aethum i'r seler i ymofyn ychydig gwrw. Yr oeddwn inau hefyd yn cadw y Nadolig, a rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi yfed ar y mwyaf o frandi gyda'm cyfeillion. Felly i osgoi y perygl o rod-di y tŷ ar dân, aethum heb ganwyll. Ond syrthiais i lawr y grisiau yn y tywyllwch, torais rai o'm hesgyrn, a dyma fi, byddaf yn gloff tra byddaf byw."

Mae'r Meddwyn mewn perygl gwastadol; mae mewn perygl os caria ganwyll i'w ganlyn, ac mewn mwy o berygl os a heb yr un.

Chwedl 158.—Y TEITHWYR A'R YSBEILIWR.

Aeth dau ddyn ar daith gyda'u gilydd, un yn ŵr llwfr a'r llall yn wrol fel llew. Y mae ysbeilydd yn eu cyfarfod, ac yn hawlio eu haur neu eu bywyd. Y mae y gwrolddyn yn rhuthro arno ac yn ei daflu i lawr, ac yn ei ladd â'i gleddyf. Yr oedd ei gydymaith ofnus wedi rhedeg ymaith ar adeg y perygl, ond y mae yn awr yn dychwelyd yn ol, ac ar ol dadweinio ei gleddyf, y mae yn dweyd, mewn llais gwrol, "Rhoddwch ef i mi, fy nghyfaill, cymeraf ei ofal, a gwnaf iddo deimlo o herwydd ei haerllugrwydd yn ymosod ar y fath ddynion a ni." Ond dywed y gŵr a ymladdodd ac a goncrodd, "Buasai yn dda genyf pe buasech wedi fy nghynorthwyo ychydig amser yn ol hyd yn nod â'r geiriau yna, oblegid buasent yn codi fy nghalon ac yn fy nerthu; ond yn awr rhoddwch eich cleddyf yn y wain, a pheidiwch â'ch siarad gwag. Gellwch eu defnyddio i dwyllo ereill, ond yr wyf fi wedi cael prawf arnoch, ac yn gwybod nad oes ynoch nerth i ddim ond i ddiange ymaith."

Arfau y llwfr ydynt ei dafod a'i draed.



Chwedl 159.—YR HELIWR A'R GOLOMEN.

Aeth Heliwr i'r coed i saethu. Gwelodd Golomen yn mhlith cangau derwen, a chynygiodd ei saethu hi. Rhoddodd saeth ar ei fwa, ac yr oedd ar ei ollwng ef ymaith, pan y darfu i neidr, a sathrodd dan ei droed yn y gwellt, ei golynu yn ei goes, fel y gorfodwyd ef i roddi i fyny ei fwriad. Darfu i'r gwenwyn yn uniongyrchol gydio yn y gwaed, a dechreuodd ei gorff chwyddo yn ofnadwy; pan y canfyddodd hyny, nid allai lai na chydabod cyfiawnder y gopedigaeth. "Daeth Ffawd," meddai, "a dinystr ar fy ngwarthaf tra yr oeddwn yn cynllunio dinystr un arall."

Mae yr hwn a gynllunio ddinystr arall yn cyflawn haeddu cael ei ddinystrio ei hun.

Chwedl 160.—Y LLAFURWYR A'R AFON.

Cymerodd gorlifiad le mewn dyffryn; chwyddodd a chynhyrfodd y ffrydiau, anrheithiasant y maesydd, gan gario ymaith holl feddianau y Llafurwyr, a boddi eu deadelloedd. Penderfyna y Llafurwyr apelio at yr Afon, i'r hon y mae y Ffrydiau yn ddarostyngedig.

Dywedant fod yr Afon fawr yn llifo yn dawel yn ei blaen, heb wneyd niwaid i neb. Bydd iddi roddi iawn iddynt am eu colled. Ond beth oedd y canlyniad? Ar ol iddynt ddyfod yn agos i lan yr afon, ac edrych ar ei gwyneb, gwelsant ei bod yn cario ymaith eu meddianau. Nid yw y Llafurwyr yn symud gam yn mhellach, ond edrychant am beth amser ar yr afon. Yna, ar ol edrych yn ngwynebau eu gilydd, ac ysgwyd eu penau, maent yn cychwyn gartef; ac ar y ffordd maent yn dweyd—

“Paham y treulïwn ein hamser yn ofer! Ni bydd i ni byth gael iawn am yr hyn a ladratawyd gan y plant tra y byddo y rhieni yn gyfranog â hwy am yr yspail.”

Chwedl 161.—Y LLWYNOG A'R DDRAIG

Darfu i Lwynog wrth wneyd ogof iddo ei hun ddyfod ar draws ymguddfan hen ddraig dorchog ddaneddog, gan yr hon yr oedd llawer o drysor yn cael ei gadw. Cygynted ag y gwelodd y Ddraig, dywedodd, “Erfyniaf arnoch yn y lle cyntaf am faddeu i mi am fy mod yn fy anwybodaeth wedi aflonyddu ar eich heddwch, ac yn yr ail le, ddweyd wrthyf pa lesad sydd i chwi o'r trysor yma sydd yn eich meddiant, yr hwn sydd yn eich amddifadu o'ch ewsg ac o'ch rhyddid, ac yn eich gorfodi i arwain bywyd trallodus yma yn y tywyllwch?” “Nid wyf yn cael yr un wobwr,” ebai y Ddraig; “ond rhoddwyd hwn i mi gan Jupiter.” “Onid ydych yn gwneyd defnydd o hono eich hun, nac yn ei roddi i ereill?” “Nag ydwyf; dyna ewyllys y duwiau,” ebai y Ddraig. “Na ddigiwch wrthyf,” ebai y Llwynog, “am siarad fy meddwl a dweyd y rhaid fod un yn eich cyflwr chwi wedi ei eni pan oedd y duwiau mewn tymherau drwg a digofus. Dyma chwi, er fod genych gyfoeth lawer, nid ydych yn mwynhau bywyd na'i bleserau; a byddwch yn fuan wedi myned, gan adael yr oll ar eich ol.”

Nid yw y Cybydd ond ceidwad ei arian, ac nid meistr arnynt.



Chwedl 162.—Y GATH A'R LLWYNOG.

Fel yr oedd y Gath a'r Llwynog yn siarad a'n gilydd un diwrnod, yn nghanol coedwig, dywedodd Rinallt,—
 “Bydded i bethau droi allan mor ddrwg ag y mynent, nid oedd ef yn gofalu, oblegid yr oedd ganddo ef fil o driciau y gallai eu hymarferyd, cyn y byddai i neb ei niweidio. Ac atolwg Meistres Pws,” meddai, “a chaniatau y gallech chwi fod mewn perygl oddiwrth eich gelynion, pa gwrs a gymerech chwi?” “Wel,” ebai y Gath, “nid allwn i ond gwneyd un peth, os ffaelai hyny ni byddai gobaith am danaf.” “Y mae yn ddrwg genyf drosoch,” atebai Rinallt; “ydyw yn wir, a byddai yn hyfrydwch genyf ddysgu rhai o'm triciau I i chwi; ond yn siwr, gymydoges, fel y mae pethau yn bod, nid da ydyw ymddiried dirgelion i ereill; rhaid i bob un fod drosto ei hun, fel y dywed yr hen air.—ac felly eich gostyngeddias was.” Prin yr oedd y geiriau hyn dros ei wefusau, nag y dychrynwyd hwy gan lais nifer o gŵa, ag oeddynt yn dyfod tuag atynt yn gyflym. Y Gath, trwy gymhorth yr un ddyfais ag oedd yn ei meddiant, a ddringodd i fyny i ben coeden, ac eisteddodd yn ddiogel yn mhlith ei changau, o'r lle y gwelodd Rinallt, yr hwn nad allodd ddiange o'r golwg, yn cael ei oddiweddyd er gwaethaf y mil o

driciau yr ymffrostiai ynddynt, ac yn cael ei rwygo i gy-nifer o ddarnau gan y cwn a'u hamgylchent.

Ni lwydda y dyn ansefydlog. Y mae dyn a llawer o gyn-lluniau yn gyffredin yn methu.

Chwedl 163.—Y TEITHWYR.

Daeth tri o Deithwyr i bentref i dreulio noswai h. Yr oeddynt wedi bod yn gweithio am dymor yn y ddinas, ac yn awr yn dychwelyd gartref at eu teuluoedd. Gan nad oeddynt yn teimlo tuedd i fyned i'w gwelyau heb fwyd, y maent yn galw am swper. Ond ychydig o fwyd oedd yn y tŷ. Rhoddwyd yr ychydig weddill swper ar y bwrdd o flaen y teithwyr newynog. Nid oedd, wrth gwrs, yn deilwng o'i gyffelybu â'r ymborth a arferent gael yn y ddinas—ond dim dyben siarad am hyny. Gwell rhywbeth na myned i'r gwely yn newynog. Felly y maent yn eistedd wrth y bwrdd. Yna, y mae un o honynt, y cyfrwysaf o'r tri, yn gweled nad oedd yno haner digon iddynt oll, yn dechreu meddwl pa fodd y gallasai sicrhau digon iddo ei hun. “Gyfeillion,” meddai, “yr ydych yn adnabod Thomas; wel, y mae yn debygol o gael ei gymeryd yn filwr.” “Ei gymeryd yn filwr! Pa beth sydd yn bod yn bresenol,” ebai y ddau ar unwaith. “A glywsoch chwi ddim fod rhyfel yn debyg o dori allan rhyngom a China. Y mae ein hymerawdwr wedi gorchymyn iddynt dalu treth ar dê.” Ar hyny y mae y ddau yn myned yn selog at y gorchwyl o ddadleu y pwngc, ac i geisio dyfalu pa fodd y cerid y rhyfel yn mlaen, a phwy a gaffai lywyddu. Poethasant gyda'r pwngc, ac aethant mor bell i yspryd y rhyfel nes bron fyned i ymladd eu hunain. Dyna yn union a garai ac a ddymunai eu cydymaith cyfrwys. Tra buont hwy yn dadleu ac yn croesdynu, bwytaodd yntau y bwyd yn dawel, a gadawodd lestri gweigion iddynt hwythau.

Os na byddi gryf bydd gyfrwys.





Chwedl 164.—Y CYBYDD A'I DRYSOR.

Cybydd, er mwyn diogelu ei gyfoeth, a werthodd yr oll o'i eiddo, ac a'u trôdd yn un darn o aur, yr hwn a guddiodd mewn twll yn y ddaear, ac a elai yn barhaus i ymweled âg ef, ac i edrych arno. Sylwodd un o'i lafurwyr ar hyn, a chan ammeu fod yno drysor, pan oedd ei Feistr wedi troi ei gefn, fe aeth i'r lle, ac a'i dygodd. Pan ddaeth y Cybydd yno drachefn, a chael y twll yn wâg, efe a wylodd, ac a rwygodd ei wallt. Ond cymmydog, yr hwn a'i gwelodd yn ei dristwch truenus hwn, wedi deall yr achos o hono, a ddywedodd, "Na ofidia ddim yn hwy; ond cymmer gareg, a dôd hi yn yr un lle, a dychymyga mai dy ddarn aur ydyw; canys gan nad oeddyt byth yn bwriadu ei ddefnyddio, gwna y naill gymmaint o lês i ti a'r llall."

Nid yw gwerth arian yn gynnwysedig yn y meddiant, ond yn y defnyddiad o hono.

Chwedl 165.—Y GŴR MOEL A'R GWIBEDYN.

Daeth Pryf ar ei hynt, ac o herwydd ei fod yn llawn dichell ac awyddus am waed, a bigodd ben Gŵr Moel oedd yn eistedd yn ei dŷ; yr hwn, wrth geisio cael gafael ynddo i'w wasgu i farwolaeth, a roddodd ddynod iddo ei hun ag a barai boen fawr iddo. Ar hyny chwarddodd y Pryf a dywedodd, "Gan eich bod wedi amcanu cospi pigiad Pryf bach â marwolaeth, pa gospedigaeth roddwch arnoch eich hun am y fath ddynod a roddasoch i'ch llaw?" Atebodd y Gŵr Moel: "Hawdd genyf gymodi â mi fy hun gan mai yn anfwriadol y rhoddais y dynod i'm llaw, ond ymdrechaf dy ladd di, y Gwibedyn iselwael a gwaedlyd, am dy fod wedi fy mhigo yn fwriadol."

Nid oes maddeuant i'r troseddur gwirfoddol.

Chwedl 166.—Y LLEW, YR ARTH, A'R LLWYNOG.

Digwyddodd i Lew ac Arth dd'od ar draws ysgerbwd carw, a bu brwydr hir rhyngddynt am dano: yr oedd yr ymdrechfa mor galed, nes o'r diwedd fod y ddau yn hanner dall, a hanner marw, wedi gorwedd ar y ddaear, heb nerth i ymladd mwy, nac i wneuthur dim â'r ysglyfaeth oedd yn gorwedd rhyngddynt. Llwynog, yn digwydd dyfod heibio, ac yn gweled eu cyflwr llethedig, a lithrodd i mewn rhwng yr ymdrechwyr, ac a gariodd y carw ymaith. "Druain oeddem ni," meddynt hwythau, "wedi bod yn gwas-traffu ein nerth, ac yn llarpio ein gilydd, yn unig i roi ciniaw i'r chwiwig yna."

Y ffol a ymglyfreithiant nes dyfetha eu gilydd, a'r cyfrwys a gânt yr ysglyfaeth.

*Chwedl 167.*

Y BUGAIL A'I GI.

Yr oedd Bugail wedi digio yn fawr wrth ei Gi am ryw drosedd dibwys a gyflawnodd, a phenderfynodd ei grogi; ond yr oedd ei gymydogion yn ei feio yn fawr am fwriadu lladd Ci mor werthfawr am drosedd mor fychan, os gellid galw y peth yn drosedd o gwbl. Nid oedd y Bugail yn hoffi i'w gymydogion feddwl yn galed am dano, ac ar yr un pryd yr oedd wedi penderfynu myn'd a bywyd y Ci. Felly, er gallu cyraedd ei amcan, taenodd chwedl ar hyd y wlad fod ei Gi yn gynddeiriog; ac erbyn i'r chwedl gyraedd clustiau ei gymydogion, yr oeddynt oll mewn cyffro, a daethant at y Bugail i grefu arno er mwyn pob peth i roddi y fath aelod peryglus o gymdeithas allan o'r ffordd. Felly cafodd esgus, a chrogodd y Ci.

Os bydd dyn drwg wedi penderfynu aflwydd yn erbyn ei gymydog, ceisia godi rhyw chwedl arno er cyfreithloni ei ymddygiad. Cyn y croga ei gi, dyweda ei fod yn gynddeiriog.

Chwedl 168.

Y GWYDDAU A'R GARANOD.

Yr oedd nifer o Wyddau a Garanod yn ymborthi yn yr un maes. Rhyw ddiwrnod, daeth yr helwyr yn ddisymwth arnynt. Y Garanod, gan eu bod yn ysgeifn o gorph, a ehedasant ymaith, ac a ddiangasant; ond y Gwyddau, gan eu bod yn frâs a thrwm, a gymerwyd yn garcharorion.

Mewn amser heddychlawn y mae cyfoeth yn gyfleusdra; ond mewn amser o helynt gwladol, neu ryfel, gall fod yn fagl.

Chwedl 169.

YR HYDD A'R WINWYDDEN.

Hydd, yn cael ei ymlid gan yr helwyr, a ymguddiodd yn mhlith canghenau Gwinwydden. Aeth y dynion heibio heb sylwi arno; ac yntau, gan feddwl fod y perygl drosodd, a ddechreuodd gnoi a bwyta y dail oedd yn ei orchuddio. Ond un o'r helwyr, yn clywed ysgydwad y dail, a drodd, a chan ammeu fod yr Hydd yno, a saethodd i'r berth, ac a'i lladdodd. Fel yr oedd yn marw, efe a ruddfanodd allan y geiriau canlynol:—"Yr wyf yn dyoddef yn gyfiawn am fy anniolchgarwch, gan nad allwn ymgadw rhag niweidio y Winwydden, yr hon â'm cysgododd yn amser perygl."

Nid yw anniolchgarwch yn llwyddo. Y gwaelf yn unig a anghofia gymwynas.



Chwedl 170.—Y NEIDR A'R GÔG.

“Ffarwel, gymydoges,” ebai Neidr wrth y Gôg. “Yr wyf yn ofer wedi ceisio cael heddwach yn y fan yma. Mae dynion ac anifeiliaid yn fy erbyn. Anmhosibl byw yma.” “A ydyw fy nghymydoges yn myned yn mhell?” gofynai y Gôg; “ac yn mha le y disgwyli gael gafael yn y bobl rinweddol hyny a fyddant byw mewn heddwach a thi?” “Yr wyf yn myned yn syth i goedwigoedd dedwydd Arcadia. Ah! gymydoges, dyna i ti wlad! Dywedir fod rhyfeloedd yn anadnabyddus yno; mae y dynion mor ddi-niwed a defaid, a rheda llaeth yn lle dwfr yn yr afonydd yno. Yn wir, y mae yr oes euraidd heb ddarfod yno eto. Ymddyga y trigolion at eu gilydd yn y modd mwyaf car-edig, fel pe byddent oll yn frodyr, a dywedir nad yw y cŵn byth yn cyfarth yno: ac nid ydynt byth yn meddwl am frathu. Yno yr wyf yn meddwl treulio fy oes yn nghanol llawnder, heddwach, a chariad; yn lle fel yma yn gorfod bod ar fy ngwyliadwriaeth o hyd rhag i rywun fy lladd.” “Yr wyf yn dymuno i ti daith bleserus, fy nghymydoges,” ebai y Gôg. “Ond a wyt ti yn meddwl gadael dy golyn a’th wenwyn a’th gymeriad ar ol, ynte eu

cymeryd gyda thi?" "Eu gadael ar ol? Y fath ffolin-eb!" ebai y Neidr. "Wel, os felly, cofia nad arbedi dy groen yno mwy nag yma."

Waeth yn y byd i ba le yr elo y dyn drwg ei gymeriad, y mae yn sicr o'i gael allan a'i gopsi. Mae natur ryfelgar a gwenwynllyd yn sicr o fagu gelynion yn mhob man.

Chwedl 171.

Y NEIDR A'R ENLLIBIWR.

Un tro bu cryn ddadl yn uffern cydrhwng y Neidr a'r Enllibiwr am y flaenoriaeth mewn gorymdaith a ffurfid. O radd i radd daeth y ddadl i wisgo agweddion difrifol a phoethlyd. Dangosa yr Enllibiwr ei dafod, a hawlia fod ar y blaen. Ymffrostia y Neidr yn ei cholyn, ac ymlusga i flaenori yr orymdaith. Yr oedd yr Enllibiwr yn ymyl cael ei adael ar ol, pan yr ymyra penaeth y cythreuliaid, ac anfona y Neidr yn ol gyda'r geiriau hyn—"Er fy mod yn rhwydd gyfaddef dy rinweddau lluosog di, eto rhaid i mi ddweyd mai efe bia y flaenoriaeth. Y mae yn wir dy fod yn llawn gelyniaeth, fod dy golyn yn angeuol, ac fod perygl i neb agosau atat, a'th fod yn colynu heb i neb dy gyffroi, yr hyn a ystyriwyf yn rhinwedd canmoladwy. Ond a elli di wenwyno a cholynu o bell fel y gall yr enllibiwr, oddiwrth yr hwn y mae yn anmhosibl diangc, hyd yn nod pe yn cael ei wahanu gan fynyddoedd a moroedd? Amlwg ei fod yn fwy gwenwynig na thydi, gad iddo fyned yn gyntaf yn yr orymdaith, a cheisiwch fyw o hyn allan yn fwy heddychol a'ch gilydd."

Nid oes dim mor wenwynig a thafod yr Enllibiwr.



Chwedl 172.—YR EHEDYDD A'I FAB.

“Nhad! nhad!” ebai Ehedydd ieuange wrth ei Dad, “yr ydwyf wedi gweled dyn yn y fan draw yn taflu dyrneidiau o ŷd braf i'r llawr, ac yr oeddwn ar fyned i'w fwyta, ond meddyliais y buaswn yn dyfod i'ch gwahodd chwi yn gyntaf i'r wledd. Dewch ar unwaith, rhag i rywun arall fyned yno o'n blaenau.” “Gwelais inau ef hefyd, fy mab, a gwelais fod ganddo rwyd adar hefyd wedi ei gosod i fyny. Nid af yn agos ato, oblegid ei amcan yw ein dâl.” “Rhwyd yn wir! Perygl! na choelia i. Cawn y bwyd yn rhwydd, ac nid oes perygl iddo ein dâl ond i ni fod yn ofalus. Dewch fy nhad.” “Na ddeuaf yn wir; ac yr wyf yn dy gynghori yn ddifrifol i beidio myned. Os bydd i ti fyn'd, yr wyt yn siwr o golli dy fywyd neu dy ryddid.” Ond myn'd a wnaeth yr Ehedydd ieuange, er gwaethaf pob cyngor, a chyn iddo bigo ond ychydig o'r grawn yr oedd yn y rhwyd, a chadwyd ef yn garcharor hyd ddiwedd ei oes.

Yr hen a wyr, a'r ieuange a dybia. Diystyra y dibrofiad bob cyngor a rhybudd, a rhed i brofedigaeth.

Chwedl 173.—Y DALLHUANOD A'R HAUL.

Yn yr hen amser—yn bell bell yn ol—darfu i rai Dallhuanod a ystyrient eu hunain yn gallach na'r cyffredin, gyhoeddi cynadledd o'u brodyr a'u chwiorydd drwy'r holl fyd, i gyfarfod mewn cwm cul a thywyll, i'r dyben o ymgynghori pa lwybr a fuasai oreu i'w gymeryd er diffoddi eu gelyn yr Haul. Erbyn yr amser apwyntiedig yr oedd cwmni lluosog o honynt wedi dyfod yn nghyd; a wedi ethol un o'u nifer i lywyddu—

“Cytunai'r Dylluanod o un fryd
Fod goleu'r Haul yn ormes arnynt hwy,
Yn dallu eu llygaid, ac mai gwell heb ddydd;
Mai nefoedd Dylluanod oedd y nôs,
Ac mai'n t'w'llwch carent hwy gael byw;
Na chaffent byth na rhyddid na mwynhad
Tra byddai Haul yn t'w'nu yn y nef;
Cynygiai un Ddylluan, eiliai'r llall,
Na byddai Haul o hyny allan byth!
Mai nos dragwyddol bellach oedd i fod,
Er gwaredigaeth lawn a llwyr ryddhad
I'r Dylluanod deulu yn mhob oes.
Cytuno wnaethant oll i basio'r act;
A chredai'r Dylluanod yn ddiau
Bod gallu ac awdurdod fawr eu deddf
Ar unwaith wedi llwyr ddiffoddi'r haul,
Crechwenent mewn gorfoledd a mwynhad.
“Tw hw!” ‘Tw hw!’ adseiniai dros y fro
Trwy gydol faith y nos—‘Tw hw!’ ‘Tw hw!’
Dychrynai'r adar eraill gan y sŵn,
Gan amheu beth allasai hyny fod—
Pa beth a barai'r cynhwrf dirfawr hwn
Trwy'r gwersyll Dylluanaid ar y pryd.
Yn nghanol sŵn ‘Tw hw!’ eu crechwen oer,
Cyfodai'r Haul!”

Mae Anffyddwyr fel y Dallhuanod yn ceisio difodi Duw, ac fel lwythau yn methu. “Yr Arglwydd sy'n teyrnasu!”




Cnwedd 174.—ADDYSG Y LLW I UANGC.

Yr oedd brenin y goedwig yn bryderus hynod yn nghyleh addysgiad ei fab a'i etifedd; a bu am hir amser yn methu penderfynu pwy a ddewisid yn athraw iddo. Un adeg meddylia am y Llwynog, mor hynod am ei gyfrwysdra. "Ond na," meddyliai y Brenin; "y mae yn hynod am ddweyd celwyddau, ac y mae celwyddwr yn siwr o ddwyn pawb fo'n agos ato i ddyrswch. Ni ddylai tywysog ddysgu y gelfyddyd o ddweyd celwydd." Meddylia nesaf am y Twrch. Y mae iddo enw da am reoleiddiwrch a threfn, ac yn cael ei gydnabod fel un enwog am feistroli manylion pethau; ond yn anffortunus y mae mor fyr ei olwg fel ag i fod yn agos a bod yn ddall. "Mae cyrhaeddiadau Tyrchaid yn rhagorol yn nyth y Twrch," meddyliai y Llew, "ond i ymerodraeth eang ei therfynau, ni wna y tro mewn modd yn y byd." Yn nesaf meddylia am y Dywalgi. "Mae y bwystfil hwnw yn gryf a gwrol, ac heblaw hyny, medda chwaeth at symudiadau milwrol. Ond y mae er hyny yn hollol amddifad o wybodaeth wleidyddol, ac ni wyr ddim am faterion cyfreithiol a gwladol. Felly, pa fodd y gall ddysgu ei ddyledswydd i'r brenin dyfo dol? Rhaid i frenin fod yn farnwr a gweinidog yn ogystal a chadfridog. Nis gall y Dywalgi ddysgu dim ond pa fodd i ddyfetha gelyn." I fod yn fyr, yr oedd y brenin o'r farn fod pob un o'i ddeiliaid, y bwystfilod, yn ddwl ac anwy

bodus, heb wneyd eithriad o'r Cawrfil, yr hwn yr edrychid arno yn gyffredin yn fath o "Plato y Goedwig." O'r diwedd cynygia yr Eryr ymgymeryd ag addysgu y brenin ieuange. Derbynia y brenin gynygiad Brenin yr Adar gyda diolchgarwch, a gosoda ei fab o dan ei addysg a chysgod ei aden. Nis gall Athraw breiniol, meddylia, lai na gwneyd chwareu teg âg ysgolor breiniol. Blynnyddoedd aânt heibio, a phob tro y gofyna y tad am helynt ei fab, hysbysir ef ei fod yn dyfod yn mlaen yn rhagorol. Nid oes yr un aderyn nad ydyw yn son am ei gyrhaeddiadau fel rhywbeth hynod iawn—maent oll yn rhyfeddu ato. O'r diwedd, pa fodd bynag, pan y meddylir fod ei addysg wedi ei gwblhau, gelwir am i'r Tywysog ieuange ymddangos yn llys ei dad, ac y mae mawrion y llywodraeth yn ymgasgl-edig yn y lle, er cael gwybod pa beth fo ganddo i'w ddweyd drosto ei hun. Mae yr hen frenin yn gwneyd araeth deimladwy, gan ddweyd ei fod yn teimlo ei hun yn myned yn hen, ac y byddai yn dda ganddo ymneillduo o'r frenhiniaeth yn ffafr ei fab anwyl, a diwedda trwy alw ar ei fab i'w hysbysu pa beth a ddysgodd pan oddicartref, ac i ddangos pa mor bell mae addysg wedi ei gyfaddasu i wneyd ei ddoiliaid yn ddedwydd. "Fy nhad," ebai y Tywysog, "yr wyf yn gwybod yr hyn na wyr neb ond y fi yn yr holl gynulleidfa yma—yr wyf yn hysbys o holl gartrefleoedd yr adar o'r Eryr at y Dryw; nid yw dull o fyw pob un o honynt yn ddirgelwch i mi; gwn hefyd pa nifer o wyau a ddodwyant, a pha ymborth neillduol a garant, a mil o bethau ereill am arferion ac anghenion adar. Dyma y llythyr canmoliaeth a gefais gan fy athraw. A gallaf ddweyd fod yr adar oll yn tystio na welsant well dysgwr na mi yn eu bywydau. Mor fuan ag y rhoddwch y deyrn-wialen yn fy llaw, byddaf yn barod i ymgymeryd â'r gorchwyl o ddysgu y bwystfilod pa fodd i wneyd nythod adar." Wrth glywed y geiriau hyn, gruddfanodd yr hen frenin a'r holl lys yn uchel. Gostyngodd pawb eu penau, a darganfyddodd y Brenin, ychydig yn rhy ddiweddar, fod ei fab heb ddysgu dim o'r hyn oedd yn wir angenrheidiol, gan nad oedd yn gyfarwydd ond âg adar yn unig, heb wybod dim am neillduolion ac anghenion bwystfilod, er ei fod wedi ei fwriadu i lywodraethu drostynt.

Dylai yr addysg a gyfrenir i bob ysgolor fod yn gyfaddasol at y cylchoedd neillduol y bwriedir iddynt droi ynddynt mewn bywyd. Dylai pob llywodraethwr wybod anghenion eu pobl eu hunain, a'r hyn fydd er llesiant eu gwlad eu hunain.



Chwedl 175.—Y TEITHWYR A’U CYSGOD.

Yr oedd dau gymydog un noswaith oleu leuad yn dychwelyd o'r farchnad yn lled hwyr—a dywedir eu bod wedi yfed ar y mwyaf o ffrwyth Syr John Heidden. Pa fodd bynag am hyny, dychrynwyd hwy yn fawr wrth weled dau ddyn o'u blaenau: dechreuasant gilio yn ol yn wisg eu cefnau mewn braw, ac er eu dychryn erlidid hwy gan y gwyr. Dechreuasant waeddi yn uchel, a chlywwyd hwy gan ddyn a ddigwyddai gerdded y ffordd hono, yr hwn pan gyrhaeddodd atynt, a gweled sut yr oedd pethau yn sefyll, a ddywedodd, “Y ffyliaid gwirion, aroswech!” Gwnaethant hyny, a safodd eu herlidwyr tybiedig. “Ewch rhagoch,” ebai eu cymwynaswr eilwaith, dan wenu. Gwnaethant hyny, ac er syndod gwelsant eu herlidwyr yn diange o'u blaenau, ac yn fuan, wedi sobri tipyn wrth redeg, deallasant nad oedd yr achos o'u holl ofn yn ddim amgen na'u cysgod hwy eu hunain.

Llawer gelyn yn erlyn yn ffyrnig tra y cilir o'i ffordd, ond yn diange yn ebrwydd y troir arno.

Chwedl 176.—Y MAGNELAU A'R HWYLIAU.

Un adeg aeth Magnelau llong ryfel i deimlo cenfigen cryf yn erbyn Hwyliau y llong, a dymunasant yn daer am i'r gwyntoedd ddyfod a'u rhwygo yn gareiai. Gwrandawyd eu gweddi—cyfododd ystorm ofnadwy—a rhwygwyd hwy mor llwyr fel nad oedd dim o honynt yn ngweddill, a gadawyd y llong i ymdaro goreu gallai yn y môr. Ar y foment hono y mae llong elyniaethus yn tanio ar y llong ddigymorth, a thrwy nad oedd yn ateb i'r llyw, a yn fuan i'r gwaelod—y Magnelau a'r cwbl.

Mae pob gwlad yn gryf cyhyd ag y byddo ei holl ranau yn cael eu eybwyso yn gyfiawn. Trwy ei Magnelau y mae yn ofnadwy i'w gelynyon; ond ei Chyfreithiau yw yr hyn yw Hwyliau i'r Llong.

Chwedl 177.—Y LLWYNOG FEL ADEILADYDD.

Darfu i Lew, yr hwn oedd yn dra hoff o Wyddau, gael ei boeni yn fawr trwy golli amryw o honynt, a phenododd Lwynog i adeiladu lle a fuasai yn eu diogelu rhag ymosodiadau lladron. Pan y gorphenwyd yr adeilad, yr oedd pawb yn ei ganmol o ran ei gynlluniad a'i gryfder. Rhoddir gorchymyn i symud y gwyddau i'w preswylfod newydd. Ond a ydyw y cyfnewidiad o unrhyw ddefnydd? Dim mewn un modd. Gwir fod yr adeilad yn ymddangos yn gryf a'r muriau yn uchel. Ond y mae y gwyddau yn myned yn llai o rifedi o hyd. Nid oes neb yn gallu dirnad yr achos o hyny. Felly gosoda y Llew wyl-iadwriaeth ar y lle; a phwy feddylicch chwi a ddaliwyd? Y Llwynog ei hun. Yr oedd wedi adeiladu y tŷ yn y fath fodd nad allasai neb arall dori i mewn a lladrata, ond wedi gofalu gadael twll bychan trwy yr hwn yr oedd yn myned i mewn ei hunan.

Nid oes terfyn ar ddichell a chyfrwysdra dyn drwg.



Chwedl 178.—Y CYBYDD A'R TYLWYTH TEG.

Yr oedd Tylwyth Teg yn arfer gwylio dros drysor oedd yn guddiedig o dan goeden. Yn sydyn y mae Brenin y Tylwyth Teg yn gorchymyn iddo fyned ar neges yr ochr arall i'r byd. Rhaid oedd myned, hoffi neu beidio. Mewn canlyniad yr oedd y Tylwyth Teg mewn petrusder yn nghylch pa beth a wnelai â'i drysor. Buasai adeiladu trysordy a gosod gwyliwr i edrych ar ei ol, yn gostus iawn; buasai ei adael yno yn beryglus, gan y gwyddai yr Ysbryd fod dynion yn llwyddianus neillduol i gael gafael mewn pethau felly. O'r diwedd y mae drychfeddwl hapus iawn yn croesi ei feddwl. Yr oedd yn adnabod Cybydd anniwall yn y gymydogaeth. A tuag ato ar unwaith, a dyweda wrtho, "Syr, y mae genyf i ffoi ymaith; ond trwy fy mod yn teimlo serch tuag atoch, na fydded i chwi wrthod y trysor sydd genyf yn nghadw o dan goeden a ddangosaf i chwi. Bwyteuach, yfwch, a byddwch lawen; a gwariwch y trysor fel y byddwch yn dewis. Ond yn unig gadewch i mi fod eich etifedd pan y

byddoch farw. Nid wyf yn gofyn ychwaneg. Byddwch wych, a gwylied Tynged drosoch." Yna diflanodd y Tylwyth Teg. Aeth ugain mlynedd heibio. Ar ol cwblhau ei amser o wasanaeth yn y wlad bell, heda yr Ysbryd yn ol i'w wlad enedigol. Pa beth a wela. O! olygfa ddymunol iddo ef. Y Cybydd wrth y goeden, wedi marw o newyn, ac agoriad y blwch gwerthfawr yn ei law. Mae y trysor i gyd yno, a cha y Tylwyth Teg ef yn ol heb fod yn ddim llai; a llawenycha yn fawr o herwydd iddo gael ceidwad i'w wylio, yr hwn ni chostiodd yr un ddimeu iddo.

Nid yw arian o un gwerth yn nwyllaw y Cybydd.

Chwedl 179.

Y MELINYDD A'R AGEN YN Y FFOS.

Collai llawer o ddwfr trwy Agen oedd yn y Ffos a gariai y dwfr at olwyn y felin; ond trwy ddiogi y Melinydd cafodd ei esgeuluso, ac o'r diwedd y mae y felin yn sefyll yn segur. Ar hynny, a y Melinydd i dymer nwydwyllt iawn, a lluchiodd a lladdodd ei ieir a'i hwyaid am ei fod wedi eu dal yn yfed ychydig ddiferion o'r dwfr.

Mae llawer gŵr gwastraffus yn treulio ei dda ar bob math o ffolineb, ac yn ceisio gwneyd ei golled i fyny trwy newynu ei deulu.



*Chwedl 180.*

Y DDAFAD A'R BARNWR.

Darfu i ŵr o gymeriad amheus gyhuddo Dafad o ladrata ei ieir. Dygwyd yr achos o flaen Llwynog, yr hwn a alwodd ar yr Achwynydd i osod i lawr ei achos. “Ar y diwrnod a'r diwrnod,” ebai yr achwynydd, “collais ddwy o'm Ieir yn bur foreu. Ni ellais weled dim o honynt ond ychydig esgyrn a phlyf. Ac nid oedd yr un creadur yn y buarth y noson hono ond y Ddafad.” Ar y llaw arall tystia y Ddafad ei bod wedi cysgu trwy y nos, a geilw ei holl gymydogion i ddwyn tystiolaeth nad amheuwyd hi erioed o ladrata a gweithredu yn anghyfiawn; ac heblaw hyny na ddarfu iddi erioed brofi tamaid o gig yn ei bywyd. Ar ol clywed y ddwy ochr, y mae y Llwynog yn cyhoeddi y ddedfryd ganlynol:—“Ni ddylid byth coelio tystiolaethau Defaid, gan eu bod yn dueddol iawn o gelu eu gwir amcanion. Ymddengys, ar ol ymchwilio i'r mater, fod yr Ieir ar y

noson ddywededig yn clwydo yn agos i'r Ddafad, ac y mae Ieir yn flasusfwyd dymunol, ac yr oedd y cyfleusdra yn fanteisiol i gyraedd yr amcan. Felly yr wyf yn penderfynu, ar fy nghydwbybod, fod yn anhosibl i'r Ddafad fod yn ddieuog o fwyta yr Ieir; felly, yr wyf yn ei chondemnio i farwolaeth, ei hysgerbwd i gael ei roddi i'r llys, a'i chroen i'r Achwynydd."


Gwae y diniwaid pan fo y barnwr yn gyfrwys a Llwynogaidd.


Chwedl 181.

Y MOCHYN A'R PALAS.

Gwnaeth Mochyn unwaith ei ffordd i balas arglwydddaidd, a cherddodd wrth ei bwys trwy y gegin a'r ystablau, ymdreiglodd yn y dôm, ac ymlenwodd âg ysgarthion, a dychwelodd yn ol o'i daith yn Fochyn o'r fath mwyaf mochynaidd. "Wel, Mr. Mochyn, pa beth a welaist," ebai ei berchenog. "Maent yn dweyd fod tai boneddigion yn llawn gemau a pherlau, ac fod pob peth ynddynt yn ardderchog iawn." "Y fath ffolineb yn wir!" ebai y Mochyn; "ni welais i ddim prydferth, dim ond baw ac ysgarthion."

Mae llawer na allent weled ond beiau a diffygion





Chwedl 182.—Y LLEIDR A'R DILLAD.

Fel yr oedd Gŵr Ieuange yn ymdrochi mewn ffynon, daeth Lleidr heibio ac a ladrataodd ei ddillad ag oeddynt gerllaw, a diangodd ymaith. Pan yn myned trwy goedwig, daeth mintau o ladron i'w gyfarfod, a dechreuasant gymeryd yr eiddo oddiarno, pan y gwaeddodd allan â'i oll egni, "Lladron! Lladron!" Ond yr oedd ei lefain yn gwbl ofer; cymerwyd yr oll oddiam dano, a gadawyd ef yn haner marw.

Lleidr a ddywed, "Lleidr!" gyntaf. Darfu i Lleidr ladrata oriawr Climich, y barnwr anghyfiawn, a dechreuodd waeddi, "Stop thief"—"Daliwch y Lleidr."



Chwedl 183.—Y LLEW A'R LLWYNOG

Yr oedd Llew yn ymlid Hydd ar hyd dyffryn. Yr oedd bron a'i ddâl, a disglaeriai ei lygaid a llawenychai ei galon wrth feddwl am y tamaid blasus ag yr oedd yn sier o hono. Ymddangosai fel yn anmhosibl i'w ysglyfaeth i allu diange, oblegid yr oedd ceunant dwfn ar ffordd yr erlidiedig a'r erlidiwr. Ond darfu i'r Hydd, trwy gasglu yn nghyd ei holl nerth, neidio a hedfan fel saeth dros y ceunant, a chyraedd yr ochr arall yn ddiogel. Safodd y Llew yn sydyn. Ond y foment hono digwyddodd cyfaill iddo fod gerllaw. Y cyfaill hwnw oedd y Llwynog. "Tybed!" meddai, "y bydd i ti, gyda'th holl nerth a'th gyflymder roddi fyny i Hydd egwan? Nid oes angen ond i ti ewyllysio, a byddi yn alluog i wneyd rhyfeddodau. Er fod y ceunant yn ddwfn, eto ond i ti fod o ddifrif, yr wyf yn sier y neidi drosto yn rhwydd. Yn sier gelli ymddiried yn fy nghyfeillgarwch diduedd. Ni byddai i mi dy gymell i ymgymeryd â'r fath anturiaeth oni bai fy mod yn hollol wybyddus o'th alluoedd anghyffredin." Dechreuodd gwaed y Llew a thwymo, ac yn fuan daeth i ferwi yn ei wythienau. Taflodd ei hun gyda'i holl nerth dros y dibyn. Ond ni allai fyned drosodd; felly i lawr yr aeth ar ei ben, a lladdwyd ef yn y fan. A pha beth a wnaeth ei gyfaill wedi hyny? Dechreuodd weithio ei ffordd yn araf a gwyliadwrus i lawr i'r ceunant, ac wedi cyraedd yno, a gweled nad oedd ar y Llew angen am ufudd-dod na gweniaeth, darfu iddo yn garedig ddechreu ymosod ar y gorchwyl o dalu y gymwynas olaf i'w gyfaill marw, a chyn pen mis yr oedd wedi crafu ei esgyrn yn lân.

Gwareder fi rhag fy nghyfeillion.



Chwedl 184 — Y MORGRUGYN A'R GWIBEDYN.

Un diwrnod cymerodd dadl lled frwd cydrhwng y Morgrugyn a'r Gwibedyn yn nghylch pa un o honynt oedd yn arwain y bywyd mwyaf anrhydeddus a pharchus. Dadleuwyd y pwngc gyda sel ac yni gan y ddwy ochr. Ebai y gwibedyn, "Y mae fy nghyrhaeddiadau yn eithaf adnabyddus, ac yn cael eu cydnabod yn gyffredinol: nid oes byth yr un aberth na byddaf fi yn cael profi y cig o flaen allorau y duwiau eu hunain. Byddaf yn ymweled a'r temlau gwyachaf, a cheir fi yn aml ar yr allorau. Y mae i mi rydd fynedfa i'r llys; ac ni byddaf byth yn methu cael clust y brenin, oblegid byddaf weithiau yn eistedd ar ei ysgwydd. Nid oes yr un foneddiges urddasol na morwyn brydweddol nad allaf ddisgyn ar ei gwefus, os byddaf yn ei hoffi. Gyda hyny, yr wyf yn bwyta ac yn yfed y goraf o bob peth, heb fod genyf i weithio am fy nghynaliaeth. Pa beth a fwynheir genych chwi ag sydd yn deilwng i'w gystadlu â bywyd fel yma?" Y Morgrugyn, erbyn hyn wedi meddianu ei hun, a atebodd, gyda chryn chwerwder yn ei eiriau: "Y mae

yn wir fod cael cyfranogi o wleddoedd y duwiau yn anrhydedd fawr, os bydd un wedi ei wahodd; ond ni hoffwn fyned i un man os na wahoddid fi. Yr ydych yn siarad am y brenin, y llys, a'r boneddigesau pryd-weddol yno, gyda hyfdra mawr; ond fel yr oeddwn yn casglu i mewn fy nghynauaf, yr wyf wedi gweled person neillduol o dan fur y dref yn gwneyd pryd rhagorol oddiar hen ysgerbwd drewllyd. Dywedwch nad ydych yn gweithio am eich cynaliaeth; gwir: o ganlyniad, ar ol i chwi chwareu ymaith eich haf, ac i'r gauaf ddyfod i mewn, ni fydd genych ddim i fyw arno; a thra y byddwch chwi yn newynu o herwydd yr oerder a diffyg ymborth, bydd genyf fi dŷ cynes uwch fy mhen, a digon o fwyd i mi a'm plant."

Melus yw y bara a enillir trwy lafur.

Chwedl 185.—Y MELINYDD, EI FAB, A'U HASYN.


Yr oedd Melinydd a'i fab yn gyru Asyn i'r ffair i'w werthu. Nid aethant yn mheil cyn cyfarfod â nifer o lodesi yn dychwelyd o'r dref, gan siarad a chwerthin. "Edrychwch yna," meddai un o honynt, "a welsoch chwi erioed y fath ffyliaid, i lafurio yn mlaen fel yna ar eu traed pan y gallent farchogaeth." Yr hen ŵr yn clywed hyny, a barodd i'w fab fyned ar gefn yr Asyn, ac a gerddodd ei hun yn siriol wrth ei ochr. Yn fuan daethant i fynu at nifer o hen wyr mewn dadl ddifrifol. "Dyna i chwi," ebai un o honynt, "y mae yn profi yr hyn yr oeddwn yn ei ddweyd! Pa barch a ddangosir i henaint yn y dyddiau hyn? A welwch chwi y llabwst ieuange diog yna yn marchogaeth, tra y mae yn rhaid i'w hen dad gerdded? Dowch i lawr oddiyna, y gwalch! a gadewch i'r hen ŵr orphwys ei aelodau blinedig." Ar hyny gwnaeth y Tad i'w fab ddisgyn, ac aeth yntau ar gefn yr Asyn yn ei le. Aethant yn mlaen fel hyn am dipyn, pan y cyfarfyddasant â chwmni o wragedd a phlant. "Wel!

yr hen greadur diog!" meddai amryw o honynt ar unwaith; "pa fodd y medrwch farchogaeth yr anifail yna, a'r bachgen bach druan prin yn medru eich canlyn chwi fel yna." Cydnabyddodd y Melinynd ei fai a chymerodd ei fab i fynu yn ddioed wrth ei ysgil. Yr oeddynt erbyn hyn wedi cyrhaedd yn bur agos i'r dref. "Atoiwg, hen gyfaill," meddai un o'r trigolion wrtho, ai y chwi hwi yr Asyn yna?" "Ie," ebai yr hen ŵr. "O! ni ouasai neb yn meddwl hyny," atebai y llall, "wrth y dull yr ydych yn ei lwytho. Wele! yr ydych chwi eich dau yn ablach i gario y creadur druan, nag efe chwi." "Pob peth i'ch boddhau," meddai yr hen ŵr, "nis gallwn ond treio." Felly gan ddisgyn, efe a'i fab, hwy a rwymasant goesau yr Asyn yn nghyd, a chyda help polyn hwy a geisiasant ei gario ar eu hysgwyddau dros bont oedd yn arwain i'r dref. Yr oedd hyn yn olwg mor ddi-grifol fel y rhedodd y bobl allan yn lluoedd i edrych arno a'i fwynhau; ar hyny, yr Asyn yn anesmwyth oblegid cynhwrf y bobl, a'i sefyllfa ei hun, a giciodd nes tori y cortynau a'i rhwymment, a chan syrthio oddiar y pawl, a ddisgynodd i'r afon ac a foddodd. Yna yr hen ŵr, yn ofidus ac yn gywilyddgar, a wnaeth y goreu o'i ffordd adref, gan deimlo ei fod, wrth geisio boddio pawb, wedi boddio neb, ac wedi colli ei Asyn yn y fargen.

WREXHAM:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN R. HUGHES AND SON.

A (TBC)
AESOP'S FABLES
[1890? JAU]...



37131053 591012

TORONTO PUBLIC LIBRARY

*Presented to the
Osborne Collection by*

Richard Landon
in memory of
Glynis Barnes

